

# Datganiad Cyfrifon

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr • 2023-24**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

**Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Y Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel**
**PEN-Y-BONT AR OGWR**
**CF31 4WB**
**(01656) 643643**

# Cynnwys

**Adroddiad Naratif** ........ 4

**Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon** ........ 19

**Datganiadau Ariannol** ........ 20

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** ........ 21

**Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** ........ 23

**Y Fantolen** ........ 24

**Datganiad Llif Arian** ........ 25

**Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol** ........ 26

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** ........ 83

**Datganiad Llywodraethu Blynyddol** ........ 87

**Rhestr Termau** ........ 107

# Adroddiad naratif

## Cyflwyniad

Mae Datganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi cofnod o sefyllfa ariannol y Cyngor am y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn cynhyrchu ei Ddatganiad Cyfrifon i esbonio cyllid y Cyngor, i roi sicrwydd y rhoddwyd cyfrif yn briodol am arian cyhoeddus, a bod y Cyngor ar seiliau cadarn o safbwynt ariannol. Mae'n rhaid i'r Datganiad Cyfrifon roi darlun 'cywir a theg' o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024, ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhoddir ystyriaeth i berthnasedd yr wybodaeth. Perthnasedd yw'r cysyniad sy'n pennu a fyddai gwybodaeth sy'n cael ei hepgor neu ei chamddatgan mewn adroddiad ariannol yn effeithio ar benderfyniadau defnyddiwr rhesymol. Os yw'r wybodaeth yn sylweddol, mae'n berthnasol. Os yw'r wybodaeth yn ansylweddol, dywedir ei bod y amherthnasol. Mae Archwilio Cymru yn cyfrifo perthnasedd ar sail 1% o wariant gros y Cyngor. Bydd Archwilio Cymru hefyd yn cyfrifo lefel ddibwys, fel bod unrhyw gamddatganiadau uwch na'r lefel honno'n cael eu hadrodd wrth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn enwedig y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r lefel ddibwys wedi'u phennu ar 5% o'r lefel berthnasol. Ceir lefel perthnasedd llawer is ar gyfer rhai rhannau o'r cyfrifon, yn enwedig y datgeliadau ynghylch tâl, lle pennir y lefel perthnasedd ar £1,000. a datgeliadau partïon cysylltiedig, lle pennir perthnasedd ar £10,000 ar gyfer buddiannau'r unigolyn. Mae lefel perthnasedd y Cyngor wedi'i phennu ar tua £5.4 miliwn, ac mae unrhyw nodiadau ar y cyfrifon sy'n is na'r gwerth hwn, nad ydynt yn statudol ofynnol, a lle nad yw'r Cyngor o'r farn eu bod yn cefnogi dealltwriaeth, wedi'u hepgor.

Bydd gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i gael eu darparu gan y sector cyhoeddus felly mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail 'busnes gweithredol.' Mae lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ac eithrio ysgolion a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (£99m) yn ddigon i dalu'r gost o ddarparu gwasanaethau yn y tymor canolig.

## Ynglŷn â Phen-y-bont ar Ogwr

### Bwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr





Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i lleoli'n gyfleus yn Ne Cymru rhwng prifddinas Cymru, Caerdydd, i'r dwyrain a dinas Abertawe i'r gorllewin, oddeutu 20 milltir o'r naill a'r llall. Mae'n ffinio â siroedd Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg ac yn cynnwys arwynebedd o 98.5 milltir $^2$, gyda'i harfordir yn ymestyn hyd at Fôr Hafren. Mae'r Sir yn cynnwys daearyddiaeth amrywiol, gyda dyffrynnoedd yn y gogledd a 12.5 milltir o forlin a thraethau yn y de. Mae'r M4 yn rhedeg torri ar draws canol y fwrdeistref sirol, ac mae'r brif linell reilffordd wedi'i chysylltu â Chaerdydd, Llundain ac Abertawe. Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yng nghanol llain ddiwydiannol ac arfordirol De Cymru. Mae tref breswyl Maesteg yn y gogledd, tref arfordirol Porthcawl yn y de-orllewin, a Phen-coed yn y dwyrain. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o 22 Cyngor yng Nghymru, ac yn cynnwys tua 4.7% o boblogaeth y wlad.

### Proffil demograffig Pen-y-bont ar Ogwr


Dangosai cyfrifiad 2021 fod 145,500 o bobl yn byw yn sir Pen-y-bont ar Ogwr. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn cynyddu i 158,717 erbyn 2043, gyda chynnydd sylweddol i'r boblogaeth dros 65 oed, yn ôl prif amcanestyniadau poblogaeth 2018 ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae proffil y boblogaeth yn ffactor pwysig sy'n pennu'r galw am wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, fel yr angen am ofal cymdeithasol i oedolion a phlant. Mae amcanestyniadau newid y boblogaeth yn amlygu'r pwysau posib ar y Cyngor, gyda chynnydd wedi'i ragweld yn y gyfran o bobl hŷn dros 65 oed.



# Strwythur gwleidyddol a rheoli

## Democratiaeth y Cyngor




Ar 31 Mawrth 2024 roedd gan y Cyngor 51 o Gynghorwyr wedi'u hethol gan y gymuned i benderfynu sut y dylai'r Cyngor gyflawni ei weithgareddau amrywiol. Maent yn cynrychioli buddiant y cyhoedd yn ogystal ag unigolion sy'n byw o fewn y ward lle cawsant eu hethol i dreulio cyfnod ynn eu swydd. Maent yn cynrychioli pobl Pen-y-bont ar Ogwr ac yn pennu strategaeth gyffredinol a fframwaith cyllidebol y Cyngor.

Mae'r cyfansoddiad yn esbonio sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n effeithiol, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'r Cyngor yn ethol Maer yn flynyddol i gyflawni rôl ddinesig a hyrwyddo'r Sir. Mae'r Cyngor hefyd yn penodi arweinydd y Cyngor sy'n penodi Aelodau Cabinet, pob un â chyfrifoldeb dros bortffolio penodol o wasanaethau.

Rôl y Cabinet yw bod yn gyfrifol am y rhan fwyaf o benderfyniadau mawr, rhoi arweiniad, a chynnig y gyllideb a'r fframwaith cyllidebol.

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor drwy:

- graffu ar benderfyniadau'r Cabinet;
- ystyried darpariaeth gwasanaethau, cynllunio, rheoli a pherfformiad meysydd gwasanaeth;
- caniatáu i'r holl Gynghorwyr, dinasyddion a rhanddeiliaid gael dweud eu dweud mewn materion sy'n ymwneud â'r Cyngor;
- ystyried polisïau, protocolau a chynlluniau a llunio adroddiadau ac argymhellion arnynt;
- cyfrannu at y broses o ymgynghori'n flynyddol ar y gyllideb;
- cael y cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cabinet a'r Cyngor yn y dyfodol drwy gyfarfodydd cyn penderfynu; a
- chael y gallu i adolygu penderfyniad sydd wedi'i wneud ond heb ei weithredu eto.

Mae pwyllgorau rheoleiddio a phwyllgorau eraill yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi rhoi cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i adolygu a chymeradwyo Datganiadau Ariannol y Cyngor.

Arweinir Bwrdd Rheoli Corfforaethol y Cyngor gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y 3 Chyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid.

### Strwythur Trefniadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Trefnir gweithrediadau'r Cyngor yn Gyfarwyddiaethau, ac mae pob un ohonynt yn adrodd wrth y Prif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn rheoli Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr. Dyma'r Cyfarwyddiaethau:

***Addysg a Chymorth i Deuluoedd*** *(newidiwyd i Addysg, Y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc o fis Ebrill 2024)*: Ysgolion, Cymorth i Ddysgwyr, Cymorth i Deuluoedd, Cymorth i Ysgolion, Moderneiddio Ysgolion, Cymorth i Grwpiau Agored i Niwed a Chymorth Busnes.

***Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant***: Gofal Cymdeithasol i Oedolion - Gofal Preswyl, Gofal Cartref, Cyfleoedd Dydd; Atal a Llesiant – Canolfannau Hamdden, Canolfannau Cymuned, Partneriaeth Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol; Gofal Cymdeithasol Plant – Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal, Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, Mabwysiadu a Gwaith Cymdeithasol.

***Cymunedau:*** Cynllunio a Datblygu, Landlord Corfforaethol, Adfywio Strategol, Yr Economi, Adnoddau Naturiol a Chynaliadwyedd, Strydoedd Glanach a Rheoli Gwastraff, Priffyrdd a Mannau Gwyrdd.

***Prif Weithredwyr***: Cyllid, Adnoddau Dynol, Partneriaethau, Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Rheoleiddiol, TGCh, Etholiadau, Tai a Digartrefedd, a Chymorth Busnes.

## Amcanion a pherfformiad

### Ein huchelgais – Sut byddwn ni’n gweithio’n wahanol ar gyfer ein cymunedau

Yn ystod y cyfnod 2023-28, mae’r Cyngor eisiau buddsoddi yn y pethau iawn, y pethau sy’n gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac sy’n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan ein cymunedau. Rydym yn wynebu dewisiadau anodd ynghylch sut rydym yn blaenoriaethu gwariant, ac ni fyddwn yn gallu gwneud popeth i bawb. Ers y pandemig, ac yn yr argyfwng economaidd sydd ohoni, mae'r hyn y mae pobl ei eisiau wedi newid. Mae'r Cyngor wedi cytuno sut y bydd yn gweithio'n wahanol i addasu i'r newidiadau hyn.




### 7 Amcan Llesiant y Cyngor

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dweud bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, weithio i wella llesiant Cymru. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cyfres o amcanion llesiant i ddangos sut y bydd yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r amcanion llesiant isod wedi'u nodi yn nogfen y Cyngor, Cynllun Corfforaethol 2023-28 – ‘Cyflawni Gyda’n Gilydd’.

---

Amcan Llesiant 1: Bwrdeistref Sirol lle rydym yn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed

Dyma’r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Darparu gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion o safon uchel a gwasanaethau cymorth cynnar i bobl sydd eu hangen
- Helpu pobl mewn tlodi i gael y cymorth sydd ei angen arnynt neu’r cymorth y mae ganddynt hawl iddo
- Cynorthwyo pobl sy’n wynebu digartrefedd i ddod o hyd i le i fyw
- Cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol i gael y gorau o’u haddysg
- Diogelu ac amddiffyn pobl sydd mewn perygl o niwed

## Amcan Llesiant 2: Bwrdeistref Sirol gyda gwaith teg, swyddi medrus o ansawdd uchel a threfi ffyniannus

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Helpu ein preswylwyr i gael y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith
- Sicrhau bod ein pobl ifanc yn dod o hyd i swyddi neu mewn addysg neu hyfforddiant
- Gwella canol ein trefi, eu gwneud yn fwy diogel a deniadol
- Denu buddsoddiad a chefnogi busnesau lleol newydd a rhai sydd eisoes yn bodol

## Amcan Llesiant 3: Bwrdeistref Sirol lle mae cymunedau'r cymoedd yn ffynnu

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Buddsoddi yng nghanol tref Maesteg a chreu mwy o swyddi yn y cymoedd
- Gwella cyfleusterau cymunedol a'u gwneud yn fwy hygyrch
- Gwella addysg a sgiliau yn y cymoedd
- Buddsoddi yn ein parciau a chefnogi twristiaeth i'r cymoedd

## Amcan Llesiant 4: Bwrdeistref Sirol lle rydym yn helpu pobl i gyflawni eu potensial

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Darparu ysgolion diogel, cefnogol gydag addysgu o ansawdd uchel
- Ehangu cyfleoedd addysg cyfrwng Cymraeg
- Moderneiddio adeiladau ein hysgolion
- Cefnogi ac annog dysgu gydol oes
- Bod y rhieni gorau y gallwn i'n plant sydd wedi cael profiad o ofal
- Cynnig gwasanaethau ieuenctid a rhaglenni gwyliau ysgol i'n pobl ifanc

## Amcan Llesiant 5: Bwrdeistref Sirol sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Symud tuag at garbon sero net
- Gwella effeithlonrwydd ynni ein hadeiladau a'n gwasanaethau
- Gwarchod ein tirweddau a'n mannau agored a phlannu rhagor o goed
- Lleihau, ailddefnyddio neu ailgylchu cymaint o'n gwastraff â phosibl
- Gwella cynlluniau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd i leihau llifogydd yn ein cartrefi a'n busnesau

## Amcan Llesiant 6: Bwrdeistref Sirol lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed ac yn rhan o'u cymuned

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â phobl leol, gan gynnwys pobl ifanc, gwrando ar eu safbwyntiau a gweithredu arnynt
- Cynnig mwy o wybodaeth a chyngor ar-lein ac yn eich llyfrgelloedd a'ch adeiladau cymunedol, nid mewn Swyddfeydd Dinesig yn unig
- Helpu clybiau a grwpiau cymunedol i wella a chymryd rheolaeth o'u cyfleusterau a'u diogelu at y dyfodol
- Sicrhau eich bod yn gallu siarad â ni a chlywed gennym yn y Gymraeg
- Dathlu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant a mynd i'r afael â gwahaniaethu

Amcan Llesiant 7: Bwrdeistref Sirol lle rydym yn cynorthwyo pobl i fyw bywydau iach a hapus

Dyma'r prif ddulliau y byddwn yn eu defnyddio i gyflawni hyn:

- Gwella llwybrau a chyfleusterau teithio llesol er mwyn i bobl allu cerdded a beicio
- Cynnig gweithgareddau hamdden a diwylliannol deniadol
- Gwella cyfleusterau a chyfleoedd chwarae plant
- Darparu prydau ysgol am ddim ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant am ddim
- Integreiddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol â gwasanaethau iechyd fel bod pobl yn cael cymorth di-dor
- Gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy

Bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad hunanasesu Corfforaethol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, i Lywodraeth Cymru ac i gyrff rheoleiddio eraill, fod y Cyngor yn perfformio'n dda, yn gwneud penderfyniadau mewn ffordd synhwyrol, agored ac yn gwneud defnydd priodol o'i arian ac o adnoddau eraill. Yn bwysicaf oll, mae'r adroddiad yn rhannu perfformiad y Cyngor â thrigolion, busnesau a rhanddeiliaid lleol. Bydd Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor 2023-24 yn cael ei gyhoeddi maes o law ac yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi perfformio yn erbyn pob un o'i amcanion, fel y'u nodir uchod.

## Llywodraethu a risg

### Llywodraethu

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif priodol amdano ac y gwneir defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol ohono. Mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau o ran effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd wedi'i gynnwys ar ddiwedd y Datganiad Cyfrifon yn rhoi esboniad manwl o drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

### Rheoli risg

Wrth ddarparu gwasanaethau, mae'r Cyngor yn wynebu amrywiaeth o risgiau, a all fygwth ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'i chyflwyno i'r Cyngor yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Caiff hefyd ei chyflwyno ddwywaith y flwyddyn gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae rhai o'r risgiau mwyaf arwyddocaol, a'r camau lliniarol i ymdrin â'r rhain, wedi'u rhestru isod.

| Disgrifiad o'r risg | Canlyniadau posibl | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| Na all y Cyngor fantoli'r gyllideb a chynnal gwasanaethau yn y tymor canolig | Rhaid gwneud y penderfyniadau anoddach i gwtogi neu leihau lefelau gwasanaeth, neu ni fydd y Cyngor yn cyflawni'r newidiadau angenrheidiol i fantoli'r gyllideb, a fydd yn golygu bod y Cyngor yn torri ei gyfrifoldebau cyfreithiol. | Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg hon drwy brosesau presennol ar gyfer y gyllideb a chynllunio busnes, sy'n cynnwys nodi targedau arbed yn fuan a datblygu opsiynau ar gyfer y Cabinet, her o du'r Pwyllgorau Craffu a briffiau ffurfiol ac anffurfiol i'r aelodau a grwpiau gwleidyddol. |

| Disgrifiad o'r risg | Canlyniadau posibl | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| Nad yw'r Cygnor yn gallu nodi a chyflawni gwelliannau i seilwaith sydd eu hangen yn y tymor canolig i'r tymor hwy gan fod grantiau allanol wedi dod i ben, oherwydd y cynnydd mewn costau benthyca a'r cynnydd mewn costau gwaith adeiladu. | Os nad oes gan y Cygnor ddigon o gyfalaf i gynnal a chadw, gwella ac ailosod seilwaith, gan gynnwys ffyrdd, goleuadau stryd, adeiladau ysgol a thechnoleg, bydd y rheiny'n dirywio gan greu risgiau ariannol a risgiau i ddiogelwch, a allai arwain at ddigwyddiadau, adroddiadau a chyhoeddusrwydd anffafriol, dirwyon ac, yn y pen draw, erlyniad. | Mae gan y Cygnor raglen gyfalaf 10 mlynedd o hyd. Mae datblygiad y rhaglen hon a'r trefniadau i'w hadolygu a'i diweddaru wedi'u hen sefydlu. Mae'r Cygnor wedi canfod bod lle i wella ar hyn er mwyn sicrhau bod yr anghenion dan sylw yn cael eu cydbwyso â galw arall am gyfalaf drwy ddatblygu'r Bwrdd Rhaglen Gyfalaf newydd. |
| Nad yw'r Cygnor yn cyflawni cyfrifoldebau statudol o ran ymateb i sefyllfaoedd lle mae unigolion yn wynebu risg o esgeulustod neu gamdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys plant, oedolion sydd angen gofal cymdeithasol, unigolion digartref ac eraill. | Ceir risg, heb gyllidebau digonol ac oherwydd prinder aelodau â phrofiad digonol o fewn y gweithlu, na fydd trefniadau diogelu'r Cygnor yn effeithiol, ac na fydd plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu cadw'n ddiogel, ac y byddant yn profi niwed. Mae'r galw am wasanaethau yn parhau i gynyddu, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau. | Mae'r Cygnor yn parhau i flaenoriaethu'r maes gwaith hwn. Mae staff ychwanegol wedi cael eu cyflogi i sicrhau y gall y gwasanaeth fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau; mae'r Cygnor wedi dechrau gweithredu Polisi Tâl Atodol ar sail y Farchnad er mwyn helpu i recriwtio staff i'r timau gofal plant; canfuwyd adnoddau er mwyn helpu i dderbyn mwy o staff ar y cynllun hyfforddiant gwaith cymdeithasol, ac mae gwaith wedi'i wneud i sefydlu rhaglen recriwtio o wledydd tramor. Mae arferion gwaith yn y gwasanaeth yn cael eu hadolygu ac mae'r Cygnor yn parhau i weithio'n effeithiol â phartneriaid allweddol. |
| Nad yw'r Cygnor yn gallu denu, datblygu na chadw gweithlu sydd â'r sgiliau angenrheidiol i fodloni'r gofynion a osodir ar yr awdurdod a'i wasanaethau | Os bydd y gostyngiad yn nifer y staff â sgiliau a phrofiad priodol yn parhau, ni fydd digon o arbenigedd o fewn y gweithlu i ddarparu gwasanaethau a diogelu buddiannau'r Cygnor. Gallai hyn olygu bod llesiant dinasyddion yn dioddef, bod ansawdd gwasanaethau'n gostwng, a bod oedi cyn darparu gwasanaeth. Gallai hefyd olygu bod morâl yn gostwng ymhlith y staff sy'n weddill os ydynt yn teimlo'n brin o gefnogaeth, gan beri iddynt chwilio am waith yn rhywle arall. | Mae mesurau wedi cael eu gweithredu i liniaru ac ymdrin â'r risgiau, gan gynnwys Polisi Tâl Atodol ar sail y Farchnad a datblygu cynlluniau ymhellach i recriwtio o wledydd tramor. Mae'r defnydd o staff asiantaeth yn parhau i fod yn uchel mewn rhai meysydd ac mae gwaith uniongyrchol ar y gweill i wella'r sefyllfa hon. |
| Gallai pwysau sylweddol ar wasanaethau o fewn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amharu ar allu gwasanaethau i gefnogi unigolion sy'n agored i niwed | Nid yw'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu bodloni anghenion iechyd a gofal pobl yn amserol gan achosi niwed a marwolaethau ychwanegol. Y risg uniongyrchol yw prinder capasiti o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol i atal derbyniadau i'r ysbyty a chefnogi trefniadau i ryddhau'n amserol o'r ysbyty. | Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar lefelau uwch ar draws y Gwasanaethau Iechyd a'r Cygnor i ddeall y sefyllfa bresennol ac i gytuno sut mae angen gweithredu ar y cyd er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r problemau. |
| Bod sefyllfa fregus ariannol ysgolion y Fwrdeistref yn gwaethygu. | Er bod y Cygnor yn ceisio lliniaru effaith y sefyllfa ariannol gyffredinol ar yr ysgolion, mae angen lleihau lefel y cymorth a roddwyd yn flaenorol i'r ysgolion | Mae strwythurau ar waith i uwchgyfeirio problemau i uwch swyddogion ac Aelodau. Mae Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi cael ei sefydlu, sef |

| Disgrifiad o'r risg | Canlyniadau posibl | Camau lliniaru |
|---|---|---|
| | mewn cynlluniau ariannol cyfredol. Yn sgil hyn bydd yn rhaid i'r ysgolion ddefnyddio'u balansau i gyllido gweithgarwch gan olygu cynnydd yn y risg y bydd ysgolion yn mynd i ddyled. Mae'n ofynnol i ysgolion fynd i'r afael â diffyg o fewn 3 blynedd, neu 5 mlynedd mewn amgylchiadau eithriadol. Bydd hyn yn mynd fwy anodd wrth i'r cyllid i ysgolion ostwng. | corff ymgynghorol yn gysylltiedig â'r fformiwla ariannu ysgolion a materion cyllid cyffredinol yn gysylltiedig ag ysgolion. Mae llywodraethwyr ysgol yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar sefyllfa ariannol yr ysgolion. Mae'r tîm cyllid canolog yn helpu ysgolion i ddatblygu a monitro cyllidebau ysgol unigol. |
| Bod parhad busnes y Cyngor o dan fygythiad os na all gaffael a gweithredu systemau TGCh sy'n cynnal gwasanaethau hanfodol fel system newydd yn lle Care Director (WCCIS) a system Capita One ar gyfer Addysg. | Ym maes gofal cymdeithasol bydd methu â chaffael a gweithredu system newydd erbyn mis Ionawr 2026 yn golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddibynnu ar gronfa ddata heb ei chynnal neu ddatrysiad cymhleth dros dro.<br>Nid yw rheoli achosion gofal cymdeithasol a gwasanaethau diogelu heb system weithredol yn opsiwn diogel nac ymarferol. Heb system ni all y Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau diogelu statudol ac mae hynny'n golygu bod bywydau plant ac oedolion yn y fantol. Bydd system Capita One yn creu un cofnod cynhwysfawr i bob plentyn a fydd yn helpu'r Cyngor i reoli addysg yn effeithlon drwy gysylltu data yn ddiogel, gan arwain at benderfyniadau mwy deallus ac ymyriadau cynnar. | Mae’r Cyngor yn gweithio gyda'r:<br>- Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CCGC Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a rhaglen genedlaethol i ddatblygu'r ymagwedd genedlaethol at gynllunio ar gyfer argyfwng, strategaeth caffael, mudo data a sgorio adnoddau gan Lywodraeth Cymru drwy achos busnes clir.<br>- Mae Cynghorau Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg a Bro Morgannwg wedi ffurfio consortia rhanbarthol i reoli'r broses o werthuso a gweithredu cyflenwr newydd.<br>- Bydd ymagwedd genedlaethol neu ranbarthol at gaffael yn galluogi gwell rheolaeth ar y farchnad a dylai sicrhau gwell gwerth am arian.<br>- Mae tîm rhanbarthol WCCIS yn darparu rhywfaint o gapasiti i gefnogi newid systemau.<br>- mae'r Cyngor wedi ffurfio grŵp traws-gyfarwyddiaethol i lywodraethu o fewn y Cyngor.<br>- Mae addysg yn gweithio gydag ysgolion a'r gwasanaeth TGCh i roi'r system newydd ar waith. |

### Datgarboneiddio 2030

Datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019. Yn dilyn hyn ymrwymodd Llywodraeth Cymru i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Ym mis Mehefin 2020 cymeradwyodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr adroddiad a oedd yn nodi’r rhan hollbwysig sydd gan y Cyngor i’w chwarae drwy reoli ei adnoddau, ei sefydliadau a’i fusnesau ei hun, a datganodd y Cyngor ei hun argyfwng hinsawdd ym mis Mehefin 2020. Cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Carbon Sero Net ar 13 Rhagfyr 2022. Mae’r Strategaeth yn cynnwys chwe cham gweithredu â blaenoriaeth sy'n anelu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y sefydliad er mwyn cyrraedd sero net erbyn 1 Ebrill 2030. Mae'r Cynlluniau Gweithredu yn cynnwys rheoli carbon, adeiladau, trafnidiaeth, caffael, defnydd tir a gwastraff. Bydd y strategaeth hon yn rhan annatod o Gynllun Corfforaethol y Cyngor, tra bydd polisïau, strategaethau a chynlluniau parhaus oll yn adlewyrchu'r ymrwymiad tuag at Sero Net. Bydd hyn yn sicrhau bod y nod yn cael ei groesawu'n llawn ar draws y sefydliad. Er bod y Cyngor wedi cytuno ar ddyraniad cyfalaf o £0.4 miliwn y flwyddyn hyd at 2030-31, bydd angen llawer mwy o adnoddau i

gyflawni Sero Net 2030 ac, oherwydd cyfyngiadau ariannol, gallai uchelgais y Cyngor i gyrraedd Sero Net 2030 fod yn anodd i'w wireddu.

Mae'r Cyngor eisoes wedi bwrw ymlaen â chynlluniau, gan gynnwys:

- Paneli solar.
- Goleuadau ynni-effeithlon, gan gynnwys yn y Swyddfeydd Dinesig.
- Pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar draws y Fwrdeistref.
- Drwy'r rhaglen ôl-osod y Cyngor, sydd wedi cael ei chynnal mewn partneriaeth â'r arbenigwyr ynni Ameresco, mae ystod o fesurau wedi cael eu gosod ar ysgolion ac adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys goleuadau LED, rheolyddion goleuadau, Systemau Rheoli Adeiladau a systemau solar ffotofoltäig.

Cyfleoedd yn y dyfodol

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio tuag at gyrraedd carbon sero net, ac wedi sicrhau cyllid i fwrw ymlaen â'r cynlluniau canlynol:

- Gosod Pympiau Gwres o'r Aer yn lle boeleri sy'n llosgi nwy a gosod paneli solar ffotofoltäig ar ddau adeilad Cyngor - Canolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr a Chartref Preswyl Bryn-y-Cae.
- Gosod paneli solar ffotofoltäig ar y to a batri storio ynni ar y ddaear yn Depo Bryncethin er mwyn lleihau costau trydan ac allyriadau carbon y Cyngor.


# Perfformiad Ariannol


## Incwm a Gwariant

Mae'r cyngor yn derbyn cyllid o dair prif ffynhonnell:

- Grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys cyllid craidd Llywodraeth Cymru i'r Cyngor, y Grant Cynnal Refeniw (RSG);
- Y dreth Gyngor; a'i
- Gyfran o drethi busnes (annomestig)

Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu incwm o ffioedd a thaliadau am wasanaethau y mae'n eu darparu. Mae'r siartiau isod yn dangos y cyllid a dderbyniwyd a sut y cafodd ei wario ar wasanaethau a gwariant arall, sy'n cynnwys praeseptau ac ardollau a llog taladwy. Y gwahaniaeth o £33,833 yw'r diffyg o ran darpariaeth gwasanaethau, fel y dangosir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.







## Alldro refeniw

Ym mis Mawrth 2023 cymeradwyodd y Cyngor gyllideb refeniw net o £342.047 miliwn yn seiliedig ar y setliad llywodraeth leol dros dro a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad terfynol ar 28 Chwefror 2023 a oedd yn cynnwys cynnydd o £0.287 miliwn yng Ngrant Setliad Refeniw y Cyngor, gan arwain at gyllideb net o £342.334 miliwn ar gyfer y flwyddyn. Mae'r gyllideb refeniw yn dangos y gost flynyddol o gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r cyngor i'r gymuned, y darperir llawer ohonynt o dan statud. Mae cyllideb refeniw flynyddol y Cyngor yn cynnwys costau cynnal y Cyngor o ddydd i ddydd gan gynnwys staff, casglu gwastraff, ysgolion, gweithwyr gofal, gofalwyr maeth a gwasanaethau hamdden. Yr alldro refeniw terfynol, yn glir o swm wedi'i dynnu i lawr o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, oedd gorwariant net o £0.102 miliwn, a gyllidwyd o Gronfa'r Cyngor, gan adael Cronfa'r Cyngor ar £9.730 miliwn ar 31 Mawrth 2024. Dangosir sefyllfa'r alldro isod.

| Cyfarwyddiaeth | Cyllideb Net £ miliwn | Gwariant Net £ miliwn | (Tanwariant) /gorwariant £ miliwn | (Tanwariant)/ gorwariant % |
|---|---|---|---|---|
| Prif Weithredwyr | 25.410 | 25.932 | 0.522 | 2.10% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 99.386 | 111.213 | 11.827 | 11.90% |
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 145.860 | 147.212 | 1.352 | 0.90% |
| Cymunedau | 34.383 | 34.504 | 0.121 | 0.40% |
| Gwasanaethau'r Cyngor Cyfan a throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | 37.295 | 25.081 | (12.214) | (32.70)% |
| **Is-gyfanswm alldro'r Gyfarwyddiaeth** | **342.334** | **343.942** | **1.608** | **0.50%** |
| Cyllid ac Ariannu | 342.334 | 343.840 | 1.506 | 0.40% |
| **Cyfanswm alldro'r Cyngor** | **-** | **0.102** | **0.102** | **-** |

Dangosir cyllideb net a gwariant net y Cyngor fesul Cyfarwyddiaeth yn y tabl isod.





Derbyniodd y Cyngor Grant Cynnal Refeniw o £202.556 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Y Trethi Annomestig net (NDR) a gasglwyd ar ran Llywodraeth Cymru gan y Cyngor am y flwyddyn oedd £43.123 miliwn. Cyfran y Cyngor o ardrethi annomestig a oedd yn ddyledus am y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru oedd £47.626 miliwn.

Mae 2023-24 wedi bod yn flwyddyn heriol o ran cyllid y Cyngor. Ychwanegodd/ailddosbarthodd y Cyngor £10.341 miliwn i gronfeydd refeniw a glustnodwyd a thynnu i lawr neu ddad-ddirwyn £38.840 miliwn, sef gostyngiad net o £28.499 miliwn yn y cronfeydd wrth gefn. Cafwyd gostyngiad o £0.102 miliwn yng Nghronfa'r Cyngor i £9.730 miliwn. Gellir gweld adroddiad alldro y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yma ar wefan y Cyngor.

## Gwariant a Chyllid Cyfalaf

Mae buddsoddiadau cyfalaf yn rhan fawr o wariant y Cyngor. Roedd rhaglen gyfalaf wreiddiol y Cyngor ar gyfer 2023-24, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2023, yn cynnwys
£58.387 miliwn.

Bydd y gyllideb yn cael ei haddasu yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu cynlluniau newydd a ychwanegir at y Rhaglen Gyfalaf, cynlluniau a gaiff eu dileu ostyngiadau o fewn cynlluniau, a chynlluniau sy'n llithro i'r blynyddoedd nesaf. Y gyllideb gymeradwy derfynol ar gyfer y flwyddyn oedd £49.714 miliwn a chyfanswm y gwariant oedd £31.813 miliwn. Bydd yr amrywiant isod yn llithro i'r blynyddoedd nesaf.





| Cyfarwyddiaeth | Cyllideb gymeradwy wreiddiol £'000 | Cyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant (O dan)/ dros £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 26,917 | 13,756 | 7,930 | (5,826) |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 6,701 | 1,983 | 1,311 | (672) |
| Cymunedau | 30,308 | 25,152 | 16,892 | (8,260) |
| Prif Weithredwyr | 4,640 | 8,250 | 5,680 | (2,570) |
| Corfforaethol/heb ei ddyrannu | 479 | 573 | - | (573) |
| **CYFANSWM** | **69,045** | **49,714** | **31,813** | **(17,901)** |


Mae cyfanswm gwariant y flwyddyn yn cynrychioli 64% o'r rhaglen gyfalaf gymeradwy derfynol, ac roedd prosiectau allweddol yn cynnwys:

- Cosy Corner, Porthcawl
- Neuadd y Dref Maesteg
- Amnewid Canolfan Ddata TGCh
- Cinio am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd - adnewyddu ceginau
- Metro Porthcawl
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer addasiadau i gartrefi pobl er mwyn helpu unigolion i barhau i fyw gartref.

Mae'r Cyngor yn talu am ei wariant cyfalaf o nifer o ffynonellau. Darparodd y setliad cyfalaf llywodraeth leol ar gyfer 2023-24 £8.008 miliwn o gyllid cyfalaf i'r Cyngor, yr oedd £3.951 miliwn ohono'n fenthyca â chymorth a £4.057 miliwn yn grant cyfalaf. Dangosir dadansoddiad o'r cyllid cyfalaf ar yr ochr dde.



Gelwir gwariant cyfalaf a gafwyd yn hanesyddol drwy fenthyca, ond sydd i'w dalu o incwm refeniw neu cyfalaf yn y dyfodol, yn Ofyniad Cyllid Cyfalaf (CFR) Dangosir y CFR dros y 7 mlynedd isod, gyda'r llinell doredig yn cynrychioli'r duedd dros y cyfnod hwnnw. Caiff symiau refeniw eu neilltuo bob blwyddyn i ad-dalu'r benthyciad, a elwir yn Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP). Caiff y symiau hyn eu rhoi o'r neilltu dros gyfnod o 45 mlynedd yn unol â'r Polisi Darpariaeth Refeniw Isafswm.





### Asedau a Rhwymedigaethau

Mae'r fantolen yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, ac yn adrodd ar asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor, sy'n dangos faint y mae'r Cyngor yn berchen arno a faint sy'n ddyledus ganddo. Mae asedau net y Cyngor wedi cynyddu £36.833 miliwn o £570.604 miliwn ar 31 Mawrth 2023 i £607,437 miliwn ar 31 Mawrth 2024.

Dangosir y symudiadau allweddol dros y flwyddyn isod:

| | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | Symudiad £'000 |
|---|---|---|---|
| Yr hyn sy'n eiddo i ni – asedau | 799,838 | 808,527 | 8,689 |
| Yr hyn sy'n ddyledus gennym i eraill – rhwymedigaethau | (229,234) | (201,090) | 28,144 |
| **Sefyllfa ariannol net – asedau llai rhwymedigaethau** | **570,604** | **607,437** | **36,833** |
| *Cedwir y sefyllfa ariannol net mewn cronfeydd wrth gefn fel a ganlyn:* | | | |
| Cronfeydd cyffredinol a ddelir gan y Cyngor, gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd - cronfeydd defnyddiadwy | 134,727 | 104,027 | (30,700) |
| Cronfeydd wrth gefn eraill a ddelir at ddibenion statudol neu benodol – cronfeydd annefnyddiadwy | 435,877 | 503,410 | 67,533 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn** | **570,604** | **607,437** | **36,833** |

Gellir defnyddio asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor i ddangos 'gwerth net', fel y dangosir yn y siart isod. Mae'r gostyngiad mawr mewn rhwymedigaethau yn ymwneud yn bennaf â rhwymedigaeth y gronfa bensiwn, a drafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad.




### Asedau hirdymor

Caiff eiddo, peiriannau ac offer eu hailbrisio fesul 3 blynedd. Mae'r cyfnod hwn yn fyrrach nag a awgrymir yn y 'Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol' gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, ond mae'n galluogi'r Cyngor i sicrhau bod y gwerthoedd a gofnodir yn y cyfrifon yn sylweddol gywir. Ceir nifer o ragdybiaethau wrth brisio asedau, ond nid yw symudiadau yng ngwerthoedd asedau na thaliadau cyfrifyddu fel dibrisiant yn cael unrhyw effaith ar y Dreth Gyngor, gan ei bod hi'n ofynnol defnyddio cronfeydd annefnyddiadwy i wrthdroi'r taliadau hyn. Mae manylion y symudiadau mewn asedau, gwariant cyfalaf a chyllido cyfalaf wedi'u cynnwys yn nodyn 21.

- Roedd yr asedau a ailbrisiwyd yn ystod 2023-24 fel rhan o raglen dreigl y Cyngor yn cynnwys canolfannau cymuned, swyddfeydd gweinyddol, cartrefi preswyl, gorsafoedd bysiau a meysydd parcio.
- Caiff eiddo buddsoddi, asedau dros ben ac asedau a ddelir i'w gwerthu eu hailbrisio'n flynyddol.

### Asedau a rhwymedigaethau byrdymor

Mae asedau byrdymor yn cynnwys buddsoddiadau a wnaed yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys cymeradwy, i gefnogi anghenion llif arian byrdymor y Cyngor. Cyfanswm y buddsoddiadau a’r balansau arian parod a ddelir i ddibenion Rheoli'r Trysorlys oedd £50 miliwn ar 31 Mawrth 2024, ac mae'r rhain yn bennaf yn cynrychioli balansau arian parod dros dro a adneuwyd gyda sefydliadau ariannol a Swyddfa Rheoli Dyledion y Llywodraeth Ganolog. Cyfradd gyfartalog y llog a enillwyd am y flwyddyn oedd 4.50%.

### Benthyca

Mae gan y Cyngor £99.699 miliwn o fenthyciadau hirdymor yn weddill ar 31 Mawrth 2024, gan gynnwys ei gyfran o fenthyciadau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef £0.05 miliwn. Mae'r £99.694 miliwn o fenthyciadau sydd gan y Cyngor yn
cynnwys cymysgedd o fenthyciadau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus o £77.617 miliwn, Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Benthycwr (LOBOs) o £19.745 miliwn, a £2.33 miliwn o fenthyciadau Salix i gyllido gwariant cyfalaf. Ceir rhagor o fanylion ynghylch benthyca yn nodyn 31. Dylid ystyried y benthyciadau yng nghyd-destun cyfanswm gwerth asedau hirdymor y Cyngor, a ddangosir ar y Fantolen fel £694 miliwn. Caniateir benthyca yn unol â Chod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol ar yr amod, ym marn y Prif Swyddog Cyllid, bod modd talu'r costau refeniw, a'u bod yn gyson â dangosyddion a chanllawiau darbodus. Os bydd y cyfle yn codi i'r Cyngor ad-dalu ei LOBOs ac y byddai hynny o fudd i'r Cyngor, bydd yn ystyried gwneud hynny.

### Codi dyled i gyllido buddsoddiad y Cyngor

Mae gan y Cyngor ofyniad benthyca sy'n deillio o raglenni cyfalaf y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd cynt. Cyflawnir hyn drwy gymysgedd o fenthyciadau hirdymor a byrdymor, a gall balans y rhain amrywio o'r naill flwyddyn i'r nesaf yn dibynnu ar aeddfedrwydd buddsoddiadau a dyledion, a chyflwr y farchnad. Bydd penderfyniadau a wneir ynghylch benthyca hefyd yn effeithio ar lefelau buddsoddi. Gall cynghorau fenthyca i fuddsoddi mewn eiddo, peiriannau neu offer neu seilwaith arall sy'n cynnal

darpariaeth gwasanaeth, ond rhaid iddynt sicrhau eu bod yn gallu talu'r swm hwnnw yn ôl. Mae’r Cyngor yn esbonio ei ymagwedd at fenthyca a buddsoddi yn eu Strategaeth Rheoli Trysorlys flynyddol. Caiff y Strategaeth ei chymeradwyo gan y Cyngor cyn pob blwyddyn ariannol, a'i monitro drwy gydol y flwyddyn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda chyngor gan gynghorwyr rheoli trysorlys allanol fel bo'n briodol. Ni chymerodd y Cyngor unrhyw fenthyciadau newydd ar gyfer cyllid cyfalaf yn ystod 2023-24.

### Rhwymedigaeth Pensiwn: £6.74 miliwn


Mae gofynion Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 (IAS19) mewn perthynas â budd-daliadau ôl-gyflogaeth – h.y., pensiynau, wedi'u hymgorffori'n llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gydag enillion a cholledion actiwaraidd wedi'u cydnabod yn Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall, fel yr eglurir yn fanwl yn nodyn 30. Cynllun pensiwn a ariennir â buddion wedi'u diffinio yw'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Mae'r buddion a enillwyd hyd at 31 Mawrth 2014 wedi'u cysylltu â'r cyflog terfynol. Mae buddion ar ôl 31 Mawrth 2014 yn seiliedig ar y cynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa Wedi'i Adbrisio (CARE). Mae'r Cyngor yn aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Caiff y gronfa ei hailbrisio bob 3 blynedd gan gwmni annibynnol o actiwarïaid. Cynhaliwyd prisiad diwethaf y gronfa bensiwn ar 31 Mawrth 2022.

Mae cronfa bensiynau wrth gefn a rhwymedigaeth pensiwn wedi'u hymgorffori yng nghyfrifon y Cyngor, gan adlewyrchu'r swm sydd wedi'i dangyllido yn elfen Pen-y-bont ar Ogwr o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf o gymharu â'r taliadau asesedig i bensiynwyr nawr ac yn y dyfodol. Cost rhwymedigaethau pensiwn i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd £21.40 miliwn. Rhwymedigaeth gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 o ran pensiynau oedd £6.74 miliwn, sef gostyngiad o £29.11 miliwn o gymharu â 31 Mawrth 2023, pan oedd y rhwymedigaeth yn £35.85 miliwn. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth y rhwymedigaeth sylfaenol yn dilyn rhwymedi McCloud a chanlyniad achos McCloud/Sargeant, sef bod effaith y trefniadau gwarchod trosiannol a roddwyd ar waith pan ddiwygiwyd cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân a barnwyr yn gwahaniaethu ar sail oed.

Ym mis Mehefin 2023, canfu’r Uchel Lys yn achos Virgin Media fod tystysgrif actiwaraidd yn ofynnol ar gyfer newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio rhwng 1996 a 2016, ac y dylid ystyried bod unrhyw newidiadau a wnaed heb y dystysgrif honno wedi'u dirymu. Rhagwelir na fydd unrhyw newidiadau i rwymedigaethau pensiwn y Cyngor o ganlyniad i'r achos hwn. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 30 y cyfrifon.

### Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cynrychioli gwerth net y Cyngor, ac maent wedi'u rhannu'n symiau defnyddiadwy ac annefnyddiadwy. **Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy** yw symiau o arian a roddir o neilltu i ddibenion penodol neu ar gyfer hapddigwyddiadau cyffredinol ac i reoli llif arian. Wrth eu defnyddio, eu creu ac asesu eu digonolrwydd, ystyrir hefyd y risgiau i wytnwch ariannol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi wynebu heriau ariannol sylweddol ac ni chafwyd rhyw lawer o gyfle i neilltuo cronfeydd newydd wedi'u clustnodi i ddibenion penodol. Manylir ar gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a chronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eraill yn nodyn 28 y cyfrifon, a dangosir cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy yn nodyn 29.




Mae'r **cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy** wedi cynyddu yn sgil cynnydd ym mhrisiant asedau yn y flwyddyn gyfredol (£34.7 miliwn) a gostyngiad yn rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn (£29.1 miliwn). Gan fod y rhain yn annefnyddiadwy, maent yn cynrychioli addasiadau cyfrifyddu, yn hytrach na llif arian gwirioneddol.

### Ymgymryd â heriau'r dyfodol

Mae'r Cyngor yn wynebu cryn heriau wrth symud ymlaen. Mae ganddo Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor sy'n dangos yr arbedion gofynnol ar gyfer y flwyddyn i ddod ac arbedion dangosol ar gyfer y tair blynedd dilynol. Dyma'r prif risgiau ariannol o flaen y Cyngor yn y tymor canolig:

- Twf yn y boblogaeth a phoblogaeth sy'n heneiddio, cyfraddau dementia cynyddol a chynnydd yn nifer y bobl ifanc ag anableddau cymhleth sy'n byw i fod yn oedolion.
- Niferoedd marw o blant mewn gofal a'r pwysau sylweddol ar wasanaethau a chyllid o fewn y gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Plant.
- Diogelu sefyllfa ariannol y Cyngor. Er bod gan y Cyngor gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2024-25 a bod ganddo Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod 2024-25 i 2027-28, mae lefel yr arbedion disgwyliedig y bydd angen i'r Cyngor eu sicrhau dros y cyfnod hwnnw yn sylweddol. Nid yw'r holl dargedau arbed ar gyfer y blynyddoedd nesaf wedi'u datblygu'n llawn, a bydd angen i'r Cyngor sicrhau y gall gyrraedd y targedau hynny, gan edrych ar ffyrdd i wella effeithlonrwydd drwy ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol.
- Alldro'r Cyngor ar gyfer 2023-24 yw gorwariant o £0.102 miliwn. Er bod y gorwariant wedi'i liniaru'n rhannol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn sy'n briodol i wariant yn ystod y flwyddyn, ni all y Cyngor ddefnyddio arian o'r cronfeydd wrth gefn i gefnogi unrhyw orwariant pellach yn y dyfodol gan nad yw hynny'n ddarbodus nac yn gynaliadwy. Mae lefel y cronfeydd wrth gefn wedi gostwng i dalu am wariant cynlluniedig ond hefyd i dalu am bwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn.

Er bod y Cyngor yn parhau i wynebu pwysau cynyddol ar ei gyllideb, cymeradwyodd gyllideb gytbwys ar gyfer 2024-25. Oherwydd ansicrwydd yr hinsawdd economaidd, bydd angen i'r Cyngor adolygu ei flaenoriaethau a'i gyllidebau'n barhaus.

## Y Datganiadau Ariannol

Mae’r Datganiad Cyfrifon wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon, ac yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol:

### Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon

Mae hwn yn nodi cyfrifoldebau perthynol y Cyngor a'r swyddog Adran 151 dros baratoi a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

### Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)

Mae hwn yn cofnodi incwm a gwariant y Cyngor yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethi. Bydd cynghorau'n codi treth i dalu am wariant yn unol â gofynion statudol, a allai fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa o ran trethi yn y Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu a'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

### Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Mae’r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn dangos y symudiadau o ddechrau'r flwyddyn hyd at ddiwedd y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi'u rhannu'n 'gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy' - rhai y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant - a chronfeydd wrth gefn 'annefnyddiadwy', y mae'n rhaid eu neilltuo i ddibenion penodol. Byddai cronfeydd wrth gefn annefnyddiadwy yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu (fel y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio), lle na fyddai symiau ond yn dod ar gael pe bai asedau'n cael eu gwerthu, a'r cronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu 'addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu ac ariannu o dan y rheoliadau'. Mae'r gwarged neu'r diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, ac mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys rhagor o fanylion am hyn. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae angen eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i ddibenion pennu'r dreth gyngor. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad net yn dangos symudiadau statudol ym malans Cronfa'r Cyngor yn y flwyddyn ar ôl yr addasiadau hynny.

### Y Fantolen

Dyma giplun o asedau, rhwymedigaethau, balansau arian parod a chronfeydd wrth gefn ar ddyddiad diwedd y flwyddyn. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor.

## Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y rheswm am newidiadau mewn arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod o fewn y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod drwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff gweithrediadau'r Cyngor eu hariannu drwy godi trethi ac incwm grant neu drwy godi tâl gan dderbynwyr gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y cafodd all-lifoedd arian parod eu creu ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth y Cyngor yn y dyfodol. Mae llifoedd arian sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol wrth ragweld hawliadau ar lif arian yn y dyfodol gan rai sy'n darparu cyfalaf (h.y. rhoddwyr benthyciadau) i'r Cyngor.

## Nodiadau'r cyfrifon

Mae'r rhain yn nodi'r Polisïau Cyfrifo a fabwysiadwyd ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a datgeliadau sy'n ymwneud â'r datganiadau ariannol, ac yn cynnwys datgeliadau pensiwn ac offerynnau ariannol. Mae’r rhain yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid sy’n dangos sut mae'r Cyngor yn gwario arian yn flynyddol, a sut mae'n defnyddio adnoddau (grantiau’r llywodraeth, ffioedd a thaliadau, y dreth gyngor a threthi busnes) i ariannu hynny, o gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Cyngor yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd y dangos sut y caiff y gwariant hwn ei ddyrannu ar gyfer penderfyniadau rhwng Cyfarwyddiaethau'r Cyngor a meysydd ar draws y Cyngor cyfan. Caiff manylion llawnach incwm a gwariant y rhoddir cyfrif amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi strwythurau llywodraethu'r Cyngor a'i reolaethau mewnol allweddol.

# Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon

### Cyfrifoldebau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Wneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn y Prif Swyddog Cyllid yw'r swyddog hwnnw.
- Rheoli ei faterion i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol a diogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Llofnod: 28 Tachwedd 2024

### Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac

### ArchwilioCyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyllid

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol ag arferion priodol a nodir yng *Nghod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi:

- dethol polisïau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus
- cydymffurfio â'r Cod ar gyfer awdurdodau lleol.


Mae'r Prif Swyddog Cyllid hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a oedd yn gyfredol
- cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

### Tystysgrif y Prif Swyddog Ariannol

Yr wyf yn tystio bod y Datganiad Cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2024 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Llofnod: 28 Tachwedd 2024



# Datganiadau Ariannol

## Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

| 2022-23 Gwariant Gros £'000 | 2022-23 Grantiau'r Llywodraeth £'000 | 2022-23 Incwm arall £'000 | 2022-23 Gwariant Net £'000 | | 2023-24 Gwariant Gros £'000 | 2023-24 Grantiau'r Llywodraeth £'000 | 2023-24 Incwm arall £'000 | 2023-24 Gwariant Net £'000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 205,641 | (37,660) | (8,364) | 159,617 | Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 206,960 | (40,024) | (7,863) | 159,073 | |
| 140,653 | (11,077) | (20,790) | 108,786 | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 156,544 | (11,811) | (24,060) | 120,673 | |
| 62,506 | (8,922) | (8,821) | 44,763 | Cymunedau | 65,948 | (10,019) | (7,545) | 48,384 | |
| 76,735 | (45,176) | (2,626) | 28,933 | Prif Weithredwyr | 77,560 | (46,761) | (2,426) | 28,373 | |
| 21,007 | (2,130) | (378) | 18,499 | Gwasanaethau ar Draws y Cyngor | 21,154 | (669) | (901) | 19,584 | |
| 2,062 | (1,995) | (172) | (105) | Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | 125 | (38) | (100) | (13) | |
| **508,604** | **(106,960)** | **(41,151)** | **360,493** | **Cost Gwasanaethau** | **528,291** | **(109,322)** | **(42,895)** | **376,074** | |
| | | | | **Gwariant Gweithredu Arall** | | | | | |
| 19,334 | | | 19,334 | Praeseptau taladwy | 20,746 | | | 20,746 | 7 |
| 8,026 | | | 8,026 | Ardollau taladwy | 9,181 | | | 9,181 | 7 |
| | | (971) | (971) | (Enillion) / colled wrth waredu asedau anghyfredol | 459 | | | 459 | |
| **27,360** | **-** | **(971)** | **26,389** | **Gwariant Gweithredu Arall** | **30,386** | **-** | **-** | **30,386** | |
| | | | | **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | | | | | |
| 4,624 | | | 4,624 | Llog yn daladwy ar ddyled | 4,851 | | | 4,851 | 31 |
| 22 | | | 22 | Elfen llog cyllid prydlesi (deiliad prydles) | 11 | | | 11 | 31 |
| 1,084 | | | 1,084 | Llog yn daladwy ar PFI taliadau unedol | 1,018 | | | 1,018 | 13 |
| 6,470 | | | 6,470 | Llog Net ar Rwymedigaeth Buddion wedi'u Diffinio Net | 1,190 | | | 1,190 | 30 |
| | | (2,503) | (2,503) | Incwm Buddsoddi a Llog Arall sy'n Dderbyniadwy | | | (5,108) | (5,108) | 31 |
| | | (260) | (260) | Newidiadau i werth teg eiddo buddsoddi | 855 | | | 855 | 22 |
| | | (147) | (147) | Incwm Llog a Buddsoddi'r Fargen Ddinesig | | | | | |
| 227 | | | 227 | Newid yng Ngwerth Teg Eiddo Buddsoddi Y Fargen Ddinesig | | | | | |
| **12,427** | **-** | **(2,910)** | **9,517** | **Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi** | **7,925** | **-** | **(5,108)** | **2,817** | |
| | | | | **Trethi ac Incwm Grant Amhenodol** | | | | | |
| | (179,595) | | (179,595) | Grant Cynnal Refeniw | | (202,556) | | (202,556) | 8 |
| | | (52,773) | (52,773) | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | | | (47,626) | (47,626) | 9 |
| | | (107,255) | (107,255) | Y Dreth Gyngor | | | (114,405) | (114,405) | 10 |
| | (19,462) | | (19,462) | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf cydnabyddedig | | (10,871) | | (10,871) | 11 |
| | (2,587) | | (2,587) | Grantiau a chyfraniadau cyfalaf cydnabyddedig y Fargen Ddinesig | | 38 | | 38 | |
| | | (15) | (15) | Costau Treth y Fargen Ddinesig | | | 19 | 19 | |
| **-** | **(201,644)** | **(160,043)** | **(361,687)** | **Trethi ac Incwm Grant Amhenodol** | | **(213,389)** | **(162,012)** | **(375,401)** | |
| | | | | | | | | | |
| **548,391** | **(308,604)** | **(205,075)** | **34,712** | **(Gwarged) neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau** | **566,602** | **(322,711)** | **(210,015)** | **33,876** | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (27,750) | (27,750) | (Gwarged) neu ddiffyg wrth ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | | | (45,926) | (45,926) | **29a** |
| 2,212 | | | 2,212 | Colledion amhariad ar asedau anghyfredol y codwyd amdanynt o'r Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio | 5,330 | | | 5,330 | **29a** |
| | | (243,050) | (243,050) | (enillion) / colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | | | (30,070) | (30,070) | **30** |
| | | | | Newid i werth teg buddsoddiadau ecwiti - y Fargen Ddinesig | | | (408) | (408) | |
| | | | **(268,588)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(71,074)** | |
| | | | | | | | | | |
| | | | **(233,876)** | **Cyfanswm yr (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(37,198)** | |

# Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

| | Balans Cronfa'r Cyngor<br>£'000 | Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi<br>£'000 | Cronfeydd Wrth Gefn Derbyniad au Cyfalaf<br>£'000 | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso<br>£'000 | Y Fargen Ddinesig Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddia dwy<br>£'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadw y<br>£'000 | Y Fargen Ddinesig Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddi adwy<br>£'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddi adwy<br>£'000 | Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor wedi'i Ailddatgan<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2022** | **10,110** | **106,733** | **21,773** | **6,047** | **1,364** | **146,027** | **3,453** | **190,701** | **336,728** |
| **<u>Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2022-23</u>** | | | | | | | | | |
| (Gwarged)/diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau | (37,339) | | | | 2,627 | (34,712) | - | 268,588 | 233,876 |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau (Nodyn 20) | 22,824 | | 3,955 | (1,536) | (1,831) | 23,412 | 1,831 | (23,412) | - |
| Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi (Nodyn 28) | 14,237 | (14,237) | - | - | | | | | - |
| **Cynnydd/ (Gostyngiad) yn 2022-23** | **(278)** | **(14,237)** | **3,955** | **(1,536)** | **796** | **(11,300)** | **1,831** | **245,176** | **233,876** |
| | | | | | | | | | |
| **Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **9,832** | **92,496** | **25,728** | **4,511** | **2,160** | **134,727** | **5,284** | **435,877** | **570,604** |

| | Balans Cronfa'r Cyngor<br>£'000 | Cronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi<br>£'000 | Cronfeyd d wrth gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£'000 | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso<br>£'000 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiad wy Y Fargen Ddinesig<br>£'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy<br>£'000 | Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddi adwy y Fargen Ddinesig<br>£'000 | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddi adwy<br>£'000 | Cyfansw m Cronfeyd d Wrth Gefn y Cyngor<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2023** | **9,832** | **92,496** | **25,728** | **4,511** | **2,160** | **134,727** | **5,284** | **435,877** | **570,604** |
| **<u>Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod 2023-24</u>** | | | | | | | | | |
| (Gwarged)/diffyg wrth ddarparu gwasanaethau | (33,833) | | | | (44) | (33,876) | 410 | 71,074 | 37,200 |
| Addasiadau rhwng y sail gyfrifyddu a'r sail ariannu o dan y rheoliadau (Nodyn 20) | 5,232 | | 257 | (2,356) | 38 | 3,169 | (38) | (3,172) | (3) |
| Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn Wedi'u Clustnodi (Nodyn 28) | 28,499 | (28,499) | | | | | | | _ |
| **Cynnydd/(Gostyngiad) yn 2023-24** | **(102)** | **(28,498)** | **257** | **(2,356)** | **(6)** | **(30,707)** | **372** | **67,902** | **37,197** |
| | | | | | | | | | |
| **Balans a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2024** | **9,730** | **63,998** | **25,985** | **2,155** | **2,154** | **104,020** | **5,656** | **503,779** | **607,801** |

# Y Fantolen

| 31 Mawrth 2023 £'000 | | 31 Mawrth 2024 £'000 | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| 641,074 | Eiddo, Peiriannau ac Offer | 679,344 | 21c |
| 220 | Asedau Treftadaeth | 220 | |
| 5,845 | Eiddo Buddsoddi | 4,990 | 22 |
| 6,002 | Eiddo Buddsoddi y Fargen Ddinesig | 6,003 | 31 |
| 708 | Ecwiti'r Fargen Ddinesig | 1,118 | |
| 1,428 | Asedau Anniriaethol | 946 | 21d |
| 5,214 | Buddsoddiadau Hirdymor | - | 31 |
| 1,555 | Dyledwyr Hirdymor y Fargen Ddinesig | 1,529 | |
| **662,046** | **Asedau Hirdymor** | **694,150** | |
| 48,333 | Buddsoddiadau Byrdymor | 45,027 | 31 |
| 65 | Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | 65 | 24 |
| 345 | Rhestrau Eiddo | 1,013 | |
| 62,167 | Dyledwyr Byrdymor | 55,741 | 23 |
| | Benthyciadau Byrdymor y Fargen Ddinesig | 63 | |
| 21,574 | Arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod | 6,019 | 31 |
| 4,854 | Arian parod y Fargen Ddinesig | 4,854 | 31 |
| 170 | Treth Ohiriedig y Fargen Ddinesig | 170 | |
| 284 | Asedau Ariannol y Fargen Ddinesig | 284 | 31 |
| **137,792** | **Asedau Cyfredol** | **113,236** | |
| (2,926) | Gorddrafft banc | (619) | 31 |
| (1,338) | Benthyca Byrdymor | (13,636) | 31 |
| (55,087) | Credydwyr Byrdymor | (53,724) | 25 |
| (4,222) | Darpariaethau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (638) | 26 |
| **(63,573)** | **Rhwymedigaethau Cyfredol** | **(68,617)** | |
| (4,550) | Darpariaethau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | (6,404) | 26 |
| (100,034) | Benthyciadau Hirdymor | (94,120) | 31 |
| | **Rhwymedigaethau Eraill Hirdymor** | | |
| (13,024) | PFI a Rhwymedigaethau Eraill Hirdymor | (11,973) | 27 |
| (4,127) | Credydwyr hirdymor (Y Fargen Ddinesig) | (1,630) | 27 |
| (35,850) | Rhwymedigaeth Pensiwn Net | (6,740) | 30 |
| (8,076) | Derbyniadau Cyfalaf Ymlaen Llaw | (10,100) | 21h |
| **(165,661)** | **Rhwymedigaethau Hirdymor** | **(130,967)** | |
| | | | |
| **570,604** | **Asedau Net** | **607,802** | |
| | **Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy** | | |
| 9,832 | Cronfa'r Cyngor | 9,730 | 28b |
| 92,496 | Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi | 63,996 | 28b |
| 25,728 | Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 25,985 | 28a |
| 4,511 | Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso | 2,155 | 21i |
| 2,160 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy Y Fargen Ddinesig | 2,154 | |
| | **Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy** | | |
| 222,430 | Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio | 257,114 | 29a |
| (35,850) | Cronfa Wrth Gefn Pensiynau | (6,740) | 29b |
| 254,429 | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 257,836 | 29c |
| (677) | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (666) | |
| (4,453) | Cyfrif Absenoldebau Digolledol Cronnol Byrdymor | (3,760) | |
| (2) | Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy y Fargen Ddinesig | (2) | |
| **570,604** | **Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn** | **607,802** | |

# Datganiad Llif Arian

| 2022-23<br>£'000 | | 2023-24<br>£'000 | |
|---|---|---|---|
| 34,712 | (Gwarged)/Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau | 33,876 | |
| (51,590) | Addasiadau i'r diffyg net wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod | (29,823) | **34** |
| 23,296 | Addasiadau ar gyfer Eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y diffyg net wrth ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi ac ariannu | 11,128 | |
| **6,418** | **Llifoedd Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu** | **15,181** | **35** |
| 33,902 | Gweithgareddau Buddsoddi | 17,345 | **36** |
| (22,410) | Gweithgareddau Ariannu | (19,278) | **37** |
| **17,910** | **(Cynnydd) / Gostyngiad Net mewn Arian Parod a Gwerthoedd sy'n Cyfateb i Arian Parod** | **13,248** | |
| (41,696) | Arian Parod a Gwerthoedd sy'n Cyfateb i Arian Parod ar ddechrau'r Cyfnod Adrodd | (23,786) | |
| **(23,786)** | **Arian Parod a Gwerthoedd sy'n Cyfateb i Arian Parod ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd** | **(10,538)** | |

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau i arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian o fewn y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod drwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu.




# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

# Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol


| Nodyn | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Polisïau Cyfrifyddu | 28 |
| 2 | Dyfarniadau Tyngedfennol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu | 39 |
| 3 | Tybiaethau a Wnaed am y dyfodol a ffynonellau pwysig eraill sy’n peri ansicrwydd tybiedig | 40 |
| 4 | Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 41 |
| 5 | Nodyn ar y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid | 42 |
| 6 | Gwariant ac Incwm wedi'i Ddadansoddi yn ôl Natur | 44 |
| | **Nodiadau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | |
| 7 | Praeseptau ac Ardollau | 45 |
| 8 | Grant Cynnal Refeniw | 45 |
| 9 | Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | 45 |
| 10 | Y Dreth Gyngor | 45 |
| 11 | Grantiau | 46 |
| 12 | Prydlesi | 47 |
| 13 | Menter Cyllid Preifat (PFI) | 48 |
| 14 | Trefniadau Cronfeydd Cyfun | 49 |
| 15 | Tâl y Swyddogion | 49 |
| 16 | Lwfansau'r Aelodau | 52 |
| 17 | Costau Archwilio Allanol | 52 |
| 18 | Cymryd rhan mewn Cyd-bwyllgorau a Threfniadau ar y Cyd | 52 |
| 19 | Trafodion Partïon Cysylltiedig | 53 |
| | **Nodiadau ar y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn** | |
| 20 | Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau | 55 |
| | **Nodiadau ar y Fantolen** | |
| 21 | Asedau anghyfredol | 58 |
| 22 | Unedau Eiddo Buddsoddi | 63 |
| 23 | Dyledwyr Byrdymor | 63 |
| 24 | Asedau a Ddelir i'w Gwerthu | 63 |
| 25 | Credydwyr Byrdymor | 64 |
| 26 | Darpariaethau | 64 |
| 27 | PFI a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill | 64 |
| 28 | Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy | 65 |
| 29 | Cronfeydd wrth Gefn Annefnyddiadwy | 67 |
| 30 | Rhwymedigaethau Pensiwn, Datgeliadau IAS 19 | 69 |
| 31 | Datgeliadau ynghylch Offerynnau Ariannol | 76 |
| 32 | Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd | 81 |
| 33 | Rhwymedigaethau Digwyddiadol | 81 |
| | **Nodiadau ar y Llif Arian Parod** | |
| 34 | Addasiadau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian Parod | 82 |
| 35 | Gweithgareddau Gweithredu | 82 |
| 36 | Gweithgareddau Buddsoddi | 82 |
| 37 | Gweithgareddau Ariannu | 82 |

## 1. Polisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 a'i sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, sef 31 Mawrth 2024. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad o Gyfrifon blynyddol yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018, yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys y *Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod)*2023-24* a'r *Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau 2023-24* a gefnogir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Y prif gonfensiwn cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol, wedi'i haddasu drwy ailbrisio rhai categorïau o offerynnau ariannol ac asedau anghyfredol.

### 1.2 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag effaith ddisgwyliedig newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond nad yw wedi'i mabwysiadu eto. Ar ddyddiad y fantolen nid oes unrhyw safonau perthnasol newydd na diwygiadau i safonau presennol sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gan y Cod a fydd yn cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, darperir y manylion canlynol er gwybodaeth.

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| **IFRS 16 Prydlesi** | **01 Ebrill 2024** | Mae'r Safon yn dileu'r dosbarthiadau prydlesi blaenorol, sef prydlesi gweithredu a chyllid, a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sy'n lesddeiliaid gydnabod yr holl brydlesi ar eu mantolen fel asedau hawl i'w defnyddio (ceir eithriadau ar gyfer prydlesi byrdymor ac isel eu gwerth) ynghyd ag atebolrwydd prydles cyfatebol i gynrychioli rhwymedigaeth y lesddeiliad i wneud taliadau prydles am yr ased. Dyddiad gweithredu IFRS 16 ar gyfer llywodraeth leol yw 1 Ebrill 2024. Ni ddisgwylir y bydd gweithredu'r safon yn cael rhyw lawer o effaith ar gyfrifon 2024-25. |
| **IAS 1** | **01 Ionawr 2024** | Diwygiadau mewn perthynas â Dosbarthu Rhwymedigaethau yn Gyfredol neu'n Anghyfredol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020.<br>Diwygiadau mewn perthynas â Rhwymedigaethau Anghyfredol ar gyfer Cyfamodau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022. |
| **IFRS 16** | **01 Ionawr 2024** | Diwygiadau mewn perthynas ag Atebolrwydd Prydles wrth Werthu a Lesio'n Ôl a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020. |
| **IAS 12** | **01 Ionawr 2023** | Gwelliannau mewn perthynas â Diwygio Trethi Rhyngwladol: Cyhoeddwyd Rheolau Enghreifftiol Colofn Dau ym mis Mai 2023 |
| **IAS 7 ac IFRS 7** | **01 Ionawr 2024** | Diwygiadau mewn perthynas â Threfniadau Cyllid Cyflenwyr a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. |

### 1.3 Croniadau incwm a gwariant

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn y mae'n digwydd ynddi, nid yn unig pan wneir neu pan dderbynnir taliadau arian parod. Yn benodol:

- Mae refeniw o werthu nwyddau yn cael ei gydnabod pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo'r risgiau ac enillion sylweddol yn gysylltiedig â pherchnogaeth i'r prynwr, a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodion yn llifo i'r Cyngor.
- Mae refeniw o ddarparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod pan fydd y Cyngor yn gallu mesur yn ddibynadwy y ganran o'r trafodion a gwblhawyd, a'i bod yn debygol y bydd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Cyngor.

- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant pan gânt eu defnyddio - lle mae bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'r defnydd, cânt eu cynnwys yn y rhestr eiddo ar y Fantolen.
- Mae treuliau mewn perthynas â gwasanaethau a dderbynnir (gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan dderbynnir y gwasanaethau yn hytrach na phan wneir taliadau.
- Mae incwm buddsoddi a llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ac sy'n daladwy ar fenthyciadau yn cael eu cyfrif fel incwm a gwariant ar sail y gyfradd llog sy'n weithredol ar gyfer yr offeryn ariannol dan sylw yn hytrach na'r llif arian a osodir neu a bennir gan y contract.
- Lle bo refeniw a gwariant wedi'u cydnabod ond nad oes arian parod wedi'i dderbyn na'i dalu, caiff dyledwr neu gredydwr ar gyfer y swm perthnasol ei gofnodi ar y Fantolen. Lle gallai dyledion fod yn destun amhariad, caiff balans dyledwyr ei ysgrifennu fel y gwahaniaeth rhwng y swm a gaiff ei gario a llifoedd arian parod diwygiedig yn y dyfodol, gan godi tâl gan refeniw am yr amhariad.

### 1.4 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Digwyddiadol ac Asedau Digwyddiadol

<u>Darpariaethau</u>

Gwneir darpariaethau lle cafwyd digwyddiad sy'n gosod rhwymedigaeth gyfreithiol neu ymarferol ar y Cyngor sydd, o bosib, angen ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd neu botensial gwasanaethu, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, gallai'r Cyngor fod yn ymwneud ag achos llys a allai arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel cost i'r llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y Fantolen, gan ystyried risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan wneir taliadau yn y pendraw, cânt eu codi ar y ddarpariaeth a gludir ar y Fantolen. Adolygir setliadau a amcangyfrifir ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol, ac os daw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd (neu y rhagwelir setliad is na'r disgwyl) caiff y ddarpariaeth ei gwrth droi a'i chredydu'n ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Lle disgwylir i rai, neu bob un, o'r taliadau gofynnol sydd eu hangen i setlo darpariaeth gael eu hadennill gan barti arall (e.e. drwy hawlio yswiriant), nid fydd hyn ond yn cael ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os yw'n gwbl sicr y bydd yr ad-daliad yn cael ei dderbyn os bydd y Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

<u>Rhwymedigaethau Digwyddiadol</u>

Bydd rhwymedigaeth digwyddiadol yn codi lle cafwyd digwyddiad sy'n rhoi goblygiad posibl ar y Cyngor, na fydd ei bodolaeth ond wedi'i chadarnhau pan geir digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu pan na cheir y digwyddiadau hynny, nad oes gan y Cyngor reolaeth lwyr drostynt. Bydd rhwymedigaeth digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu nad oes modd mesur maint y rhwymedigaeth i raddau dibynadwy.

Ni chaiff rhwymedigaethau digwyddiadol eu cydnabod ar y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn

nodyn i'r cyfrifon. <u>Asedau Digwyddiadol</u>

Bydd ased digwyddiadol yn codi lle cafwyd digwyddiad sy'n rhoi ased posibl i'r Cyngor, na fydd ei fodolaeth ond wedi'i gadarnhau pan geir digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu pan na cheir y digwyddiadau hynny, nad oes gan y Cyngor reolaeth lwyr drostynt.

Ni chaiff asedau digwyddiadol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon lle mae'n debygol y ceir mewnlif o fuddiannau economaidd neu botensial am wasanaeth.

## 1.5 Cronfeydd wrth gefn

Mae'r Cyngor yn rhoi symiau penodol o'r neilltu fel cronfeydd wrth gefn i ddibenion polisïau yn y dyfodol, neu i dalu am hapddigwyddiadau. Caiff cronfeydd wrth gefn eu creu drwy neilltuo symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd. Pan geir gwariant sydd i'w ariannu o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno, i sgorio yn erbyn y Gwarged neu'r Diffyg yn Narpariaeth Gwasanaethau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff y gronfa wrth gefn wedyn ei phriodoli'n ôl i Falans Cronfa'r Cyngor ar y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd fel na cheir unrhyw dal net am y gwariant yn erbyn y dreth Gyngor.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r prosesau cyfrifyddu ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol, buddion cyflogeion ac ymddeol. Mae'r rhain yn gronfeydd wrth gefn 'Annefnyddiadwy' fel y nodir yn Nodyn 29 i'r cyfrifon.

## 1.6 Grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, drwy randaliadau neu mewn ôl-daliadau, caiff grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol:

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm wrth y taliadau, ac
- y bydd y grant/cyfraniad yn cael ei dderbyn.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes y bodlonir yr amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad. Amodau yw gofynion sy'n pennu bod angen i'r buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol a ymgorfforir yn yr ased a gaffaelir o ddefnyddio'r grant neu gyfraniad gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodir, neu fod yn rhaid dychwelyd buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol i'r trosglwyddwr.

Caiff arian a roddwyd ymlaen llaw ar ffurf grantiau a chyfraniadau lle nad yw amodau wedi'u bodloni ar eu cyfer eu nodi ar y Fantolen fel credydwyr. Pan fodlonir amodau, caiff y grant neu gyfraniad ei gredydu i'r llinell gwasanaeth berthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu clustnodi a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Lle bo grantiau cyfalaf wedi'u credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu gwrthdroi o Falans Cronfa'r Cyngor ar y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle nad yw'r grant wedi'i ddefnyddio eto i ariannu gwariant cyfalaf, caiff ei bostio i'r Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso. Mae symiau yn y Gronfa Wrth Gefn Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ar ôl iddynt gael eu cymhwyso i ariannu gwariant cyfalaf.

## 1.7 Buddion cyflogeion

Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion byrdymor cyfloegeion yw'r rhai sydd i fod i gael eu setlo cyn pen 12 mis ar ôl diwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion fel cyflogau, gwyliau blynyddol â thâl, absenoldeb salwch â thâl a bonysau i gyflogeion presennol. Mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel traul ar wasanaethau yn y flwyddyn pan fo'r cyflogeion yn gwasanaethu'r Cyngor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawliau gwyliau a enillwyd gan gyflogeion, ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol, y gall cyflogeion eu trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol nesaf. Codir y croniad ar y llinell Cost Gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ond caiff wedyn ei wrthdroi drwy'r Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn fel y caiff buddion gwyliau eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol lle cymerir yr absenoldeb gwyliau.

Buddion Terfynu

Mae buddion terfynu'n symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth Swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad gan Swyddog i dderbyn cynnig i golli ei swydd yn wirfoddol, ac fe'u codir ar sail croniadau ar y llinell Cost Gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, pan fydd y Cyngor yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth Swyddog neu grŵp o Swyddogion neu wneud cynnig i annog Swyddog i golli swydd yn wirfoddol.

Lle bo buddion terfynu'n cynnwys chwyddo pensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi ar falans Cronfa'r Cyngor am y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu bensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifwyd yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae'n ofynnol gwneud dyraniadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion terfynu sy'n chwyddo pensiwn a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddion Ar Ôl Cyflogaeth

Mae cyflogeion y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân. Roedd y ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i aelodau (lymp-symiau a phensiynau ymddeol), a enillwyd wrth i gyflogeion weithio i'r Cyngor.

Y *Cynllun Pensiwn Athrawon*, a weinyddir gan y gwasanaeth Pensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg (DfE). Mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun hwn yn golygu nad yw rhwymedigaethau ar gyfer buddion yn gallu cael eu dynodi'n benodol i'r Cyngor fel arfer. Felly rhoddir cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes unrhyw rwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol yn cael ei chydnabod yn y Fantolen. Codir ar y llinell Addysg a Chymorth i Deuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am gyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r gwasanaeth Pensiynau Athrawon yn y flwyddyn.

*Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol* – mae gan gyflogeion eraill hawl i fod yn aelodau o Gronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir cyfrif am y Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun â buddion wedi'u diffinio:

- Caiff rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn y gellir eu priodoli i'r Cyngor eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanol h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a fydd yn cael eu gwneud mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan gyflogeion, yn seiliedig ar dybiaethau ynglŷn â chyfraddau marwolaethau, cyfraddau trosiant cyflogeion, ac amcanestyniadau o enillion rhagamcanol ar gyfer cyflogeion cyfredol.

- Mae rhwymedigaethau'n cael eu disgowntio i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd disgownt.

- Mae asedau'r gronfa bensiwn sydd i'w priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:

  - Gwarannau a ddyfynnwyd – y pris cynnig cyfredol
  - Gwarannau nas dyfynnwyd – amcangyfrif proffesiynol
  - Eiddo – gwerth y farchnad

- Mae'r newid yn rhwymedigaethau net pensiynau yn cael ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:

  - Cost gyfredol gwasanaeth - y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – wedi'i ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r cyflogeion yn gweithio iddynt
  - Cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygio cynllun neu gwtogi arno y mae effaith hynny'n ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – fe'i debydir i'r Gwasanaethau Canolog yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
  - Llog net ar y rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net, h.y. traul llog net i'r Cyngor – y newid yn ystod y cyfnod yn y rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigl amser a godir ar y llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymhwyso'r gyfradd disgownt a ddefnyddir i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn y rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniad a thaliadau buddion.
  - Ail-fesuriadau sy'n cynnwys:

- Yr adenillion ar asedau'r cynllun – heb gynnwys symiau a gynhwysir yn y llog net ar y rhwymedigaeth (ased) buddion diffiniedig net – a godir ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall

- Enillion a cholledion actiwaraidd – newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â thybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariaid wedi diweddaru eu tybiaethau – a godir ar y gronfa wrth gefn Pensiynau ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall:

    - Cyfraniadau i'r gronfa bensiwn – arian a dalwyd fel cyfraniad cyflogwr i'r gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; ni roddir cyfrif amdanynt fel traul.

- O ran buddion ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol codi ar falans Cronfa'r Cyngor am y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifyddu perthnasol. Y Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau i ac o'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau i gael gwared ar y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddion ymddeol a'u disodli â debydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy i'r gronfa ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negatif sy'n codi ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau felly'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o ganlyniad i'r gofyniad i roi cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llifoedd arian parod yn hytrach nag fel buddion a enillwyd gan gyflogeion.

- Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig hefyd i wneud penderfyniad dewisol i ddyfarnu buddion ymddeol yn achos ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cael eu cronni ym mlwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad a rhoddir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rhai a gymhwysir i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**1.8 TAW**

Mae TAW sy'n daladwy wedi'i chynnwys fel traul dim ond i'r graddau nad yw'n adenilladwy gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Nid yw TAW sy'n dderbyniadwy wedi'i chynnwys o fewn incwm.

**1.9 Gorbenion a Gwasanaethau Cymorth**

Yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol dangosir gorbenion a gwasanaethau cymorth yn y gwasanaeth perthnasol lle cânt eu hysgwyddo ac ni ailgodir amdanynt ar feysydd gwasanaeth a gefnogwyd. Dangosir unrhyw incwm mewnol o ganlyniad i drafodion rhwng adrannau yn llinell y gwasanaeth sy'n cyflenwi gyda'r codiant cyfatebol yn cael ei ddangos yn llinell y gwasanaeth sy'n derbyn.

**1.10 Asedau Anniriaethol**

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am feddalwedd fel asedau anniriaethol i'r graddau nad yw'r feddalwedd yn rhan annatod o system TG benodol ac y rhoddir cyfrif amdano fel rhan o'r eitem caledwedd yn Eiddo, Peiriannau ac Offer. Yr ased anniriaethol mwyaf sylweddol yw costau datblygu a thrwydded meddalwedd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).

Rhoddir oes ddefnyddiol benodol i bob meddalwedd, yn seiliedig ar asesiadau o'r cyfnod y disgwylir i'r meddalwedd fod o ddefnydd i'r Cyngor. 8 mlynedd yw'r oes ddefnyddiol a ddefnyddir gan y Cyngor ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Codir am amorteiddiad yr ased anniriaethol ar sail linol dros yr oes ddefnyddiol a hynny ar y llinell Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**1.11 Eiddo, Peiriannau a Offer**

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer yn cael ei gyfalafu ar sail croniadau, ar yr amod ei bod yn debygol y bydd y buddion economaidd neu'r potensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r eitem yn y dyfodol yn llifo i'r Cyngor ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Codir am wariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i ddwyn buddion economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. atgyweiriadau a chynnal a chadw) fel traul pan gaiff ei ysgwyddo.

Mae'r holl wariant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gydnabod ni waeth beth fo'i werth. Mae gwariant islaw £40,000 yn cael ei ystyried yn wariant nad yw'n gwella ac mae amhariad arno ar unwaith oni bai y byddai cyfanswm y gwariant, yn gronnus dros fwy nag un flwyddyn, yn fwy na'r gwerth hwn.

**Mesur**

Caiff asedau eu mesur yn ôl cost i ddechrau, sy'n cynnwys ei bris prynu a'r holl wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i wella'r ased fel ei fod mewn cyflwr gweithio ar gyfer ei ddefnydd bwriadedig. Yna mae asedau'n cael eu cario ar y fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- **Tir ac adeiladau** – gwerth cyfredol, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol – EUV)
- **Unedau eiddo gweithredol heb fod yn arbenigol** – gwerth defnydd presennol (EUV)
- **Unedau eiddo gweithredol arbenigol (megis ysgolion)** – cost amnewid ar ôl dibrisiant (DRC)
- **Cerbydau, peiriannau ac offer** - cost hanesyddol ar ôl dibrisiant
- **Asedau cymunedol**– cost hanesyddol
- **Asedau sy'n cael eu hadeiladu**– cost hanesyddol (nes iddynt ddod yn weithredol)
- **Asedau seilwaith**– cost hanesyddol wedi'i dibrisio
- **Asedau dros ben ac eiddo buddsoddi** – gwerth teg
- **Asedau a ddelir i'w gwerthu** – yr isaf rhwng y swm cario a gwerth teg namyn costau gwerthu

Ystyrir mai cost asedau a gaffaelwyd heblaw drwy brynu yw ei werth teg, onid oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. na fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian parod y Cyngor). Yn yr achos olaf, lle mae ased yn cael ei gaffael drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a ildiwyd gan y Cyngor. Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a ysgwyddwyd tra bo asedau wrthi'n cael eu hadeiladu.

**Ailbrisiadau**

Mae asedau sydd wedi'u cynnwys ar y Fantolen yn ôl gwerth teg neu werth cyfredol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario yn berthnasol wahanol i'w gwerth teg na'u gwerth cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir ailbrisiadau o asedau eiddo'r Cyngor ar sail rhaglen dreigl 3 blynedd. Cynhaliwyd prisiadau ychwanegol o asedau yn 2023-24 i sicrhau bod y gwerthoedd a ddelir ar y fantolen yn berthnasol gywir. Yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio y cydnabyddir enillion ailbrisio ers 1 Ebrill 2007 yn unig, sef dyddiad ei sefydlu. Mae enillion ailbrisio blaenorol wedi cael eu cydgrynhoi fel rhan o'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

**Amhariad**

Asesir asedau ar ddiwedd pob blwyddyn i benderfynu a oes unrhyw arwydd y gall fod amhariad ar ased. Pan fo arwyddion yn bodoli ac yr amcangyfrifir y bydd unrhyw wahaniaethau posibl yn berthnasol, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased a, lle bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg. Lle bu enillion ailbrisio blaenorol yn erbyn yr ased a ddelir yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio, mae unrhyw golled ddilynol yn cael ei phriodoli i ddechrau fel lleihad yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio sydd wedi cronni gydag unrhyw weddill yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Dibrisiant**

Darperir ar gyfer dibrisiant ar asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer drwy ddyrannu eu symiau dibrisiadwy yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriadau ar gyfer:

- Asedau treftadaeth
- Asedau heb oes ddefnyddiol benodol y gellir ei phennu megis tir rhydd-ddaliadol
- Asedau nad ydynt ar gael eto i'w defnyddio h.y. asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu, ac asedau a ddelir i'w gwerthu.

Cyfrifir dibrisiant yn ôl gwerth yr ased ar ddechrau'r flwyddyn ac ar y seiliau canlynol:

| Ased | Polisi | Oes |
|---|---|---|
| Tir | Dim dibrisiant yn cael ei godi | Amh. |
| Adeiladau | Dibrisiant llinol ar yr oes sy’n weddill yn ôl yr amcangyfrif | Yn unol â chyngor y Prisiwr (rhwng 1 - 79 o flynyddoedd) |
| Cerbydau, peirianna u ac offer | Dibrisiant llinol ar yr oes sy’n weddill yn ôl yr amcangyfrif | 3-10 mlynedd |
| Seilwaith - Pontydd | Dibrisiant llinol ar yr oes sy’n weddill yn ôl yr amcangyfrif | 30 mlynedd |
| Seilwaith - Ffyrdd | Dibrisiant llinol ar yr oes sy’n weddill yn ôl yr amcangyfrif | 15 mlynedd |
| Seilwaith - Arall | Dibrisiant llinol ar yr oes sy’n weddill yn ôl yr amcangyfrif | 1-30 mlynedd |

Mae enillion ailbrisio’n cael eu dibrisio hefyd, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant ar werth cyfredol yn cael ei godi ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi gallu cael ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf

**Cydrannu**

Caiff asedau a brynwyd neu a ailbrisiwyd yn ystod y flwyddyn eu hadolygu i gadarnhau pa un a fydd gan unrhyw ran o'r ased oes ddefnyddiol sylweddol wahanol ac effaith berthnasol ar ddibrisiant. Os felly, bydd yr ased yn cael ei gydrannu a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu priod oesoedd defnyddiol. O fewn portffolio asedau'r Cyngor ceir nifer o ddosbarthiadau asedau lle nad ystyrir cydrannu, gan gynnwys:

- Offer – gan yr ystyrir bod hyn yn amherthnasol.
- Dosbarthiadau asedau nad ydynt yn cael eu dibrisio – megis tir, eiddo buddsoddi, asedau treftadaeth, asedau cymunedol ac asedau a ddelir i’w gwerthu.

**Gwarediadau ac Asedau Anghyfredol a Ddelir i’w Gwerthu**

Pan ddaw'n debygol y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ei ddefnydd parhaus, mae'n cael ei ailddosbarthu fel Ased a Ddelir i’w Werthu. Y meini prawf ar gyfer cydnabod asedau fel rhai a ddelir i’w gwerthu yw:

- Eu bod ar gael i'w gwerthu ar unwaith yn eu cyflwr presennol
- Bod eu gwerthu’n hynod debygol
- Eu bod yn cael eu marchnata’n frwd
- Y disgwylir cwblhau'r gwerthiant o fewn 12 mis.

Caiff symiau a dderbynnir ar gyfer gwarediad sydd dros £10,000 eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf.

**1.12 Asedau Treftadaeth**

Asedau Treftadaeth yw'r asedau hynny y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu gwerth diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Cydnabyddir a mesurir Asedau Treftadaeth (gan gynnwys trin enillion a cholledion ailbrisio) yn unol â pholisïau cyfrifyddu'r Cyngor ar eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae'r Cyngor yn cydnabod ei Regalia Dinesig a nifer o baentiadau yn y Fantolen yn ôl gwerth yswiriant. Ychwanegwyd gwerth y paentiadau at y Fantolen yn ystod 2017-18 yn seiliedig ar brisiad yswiriant a wnaed gan briswyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn ôl y Cod nid oes cyfnod lleiaf rhagnodedig rhwng prisiadau ac nid yw'r Cyngor yn bwriadu ailbrisio ei Asedau Treftadaeth yn y dyfodol agos oni bai bod tystiolaeth o amhariad fel dirywiad neu ddifrod ffisegol, neu amheuon ynghylch eu dilysrwydd, yn codi.

### 1.13 Codiannau ar refeniw ar gyfer asedau anghyfredol

Debydir y symiau canlynol i wasanaethau i gofnodi cost go iawn dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:

- Dibrisiant y gellir ei briodoli i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- Colledion ailbrisio ac amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronedig yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio y gellir dileu'r colledion yn eu herbyn.

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi treth gyngor i ariannu colledion dibrisiant, ailbrisio neu amhariad neu amorteiddiad. Fodd bynnag, mae'n ofynnol iddo wneud darpariaeth ddarbodus flynyddol o refeniw i gyfrannu tuag at y gostyngiad yn ei ofyniad benthyca cyffredinol. Manylir ar hyn yn Natganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol y Cyngor, ac mae'n gwahaniaethu rhwng gwariant cyfalaf â chymorth, gwariant cyfalaf heb gymorth, a Phrydlesi Cyllid / PFI. Felly, mae colledion dibrisiant, ailbrisio ac amhariad ac amorteiddiadau yn cael eu disodli gan y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) hon drwy gyfrwng trafodiad addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau. Mae'r Cyngor yn codi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar sail linol dros 45 mlynedd. Mae hyn yn sicrhau bod costau gwariant cyfalaf â chymorth yn cael eu gwasgaru'n gyfartal dros oes asedau, a bod y ddyled yn cael ei diddymu'n llawn o fewn deugain a phump o flynyddoedd.

### 1.14 Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf o dan Statud (REFCUS)

Codwyd am wariant a ysgwyddwyd yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu asedau anghyfredol fel gwariant ar y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Mae enghreifftiau o wariant o'r fath yn cynnwys grantiau gwella cartrefi, megis Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, grantiau gwella trefi ac astudiaethau dichonoldeb tir. Lle bo'r Cyngor wedi penderfynu talu cost y rhain o adnoddau cyfalaf presennol neu drwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf wedyn yn gwrthdroi'r symiau a godir fel nad oes effaith ar lefel y dreth gyngor. Pan fo'r gwariant hwn yn cael ei ariannu â grantiau neu gyfraniadau, caiff hwn hefyd ei briodoli i'r maes gwasanaeth perthnasol lle codwyd am y gwariant.

### 1.15 Prydlesi

Dosberthir prydlesi fel prydlesi cyllid lle bo telerau'r brydles yn trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau ac enillion sy'n digwydd deillio o berchenogaeth ar yr eiddo, y peiriannau neu'r offer o'r lesydd i'r lesddeiliad. Mae pob prydles arall yn cael eu dosbarthu fel prydlesi gweithredu.

Lle bo prydles yn cwmpasu tir ac adeiladau, mae'r elfennau tir ac adeiladau yn cael eu hystyried ar wahân i'w dosbarthu.

Rhoddir cyfrif am drefniadau nad oes ganddynt statws cyfreithiol prydles ond sy'n cyfleu hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad o dan y polisi hwn lle mae cyflawni'r trefniant yn ddibynnol ar ddefnyddio asedau penodol.

#### Y Cyngor fel Lesddeiliad

<u>Prydlesi Gweithredu</u>

Caiff rhent a dalwyd o dan brydlesi gweithredu ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnyddio'r eiddo, peiriannau neu offer sydd ar brydles. Gwneir codiannau ar sail linol dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â phatrwm y taliadau (e.e. os oes cyfnod heb rent ar gychwyn y brydles).

**Y Cyngor fel Lesydd**

Prydlesi Gweithredu

Pan fo'r Cyngor yn rhoi prydles weithredu dros eiddo, peiriant neu offer, cedwir yr ased ar y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail linol dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â phatrwm y taliadau (e.e. os telir premiwm ar gychwyn y brydles). Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol a ysgwyddir wrth negodi a threfnu'r brydles at swm cario'r ased perthnasol ac fe'u codir fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

**1.16 Offerynnau ariannol**

Mae offeryn ariannol yn gontract sy'n creu ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti i endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn golygu cyfnewid, fel y rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r Llywodraeth, yn creu offerynnau ariannol.

**Asedau ariannol**

Ased ariannol yw hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor a gynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl gytundebol i dderbyn arian parod neu asedau ariannol eraill, neu hawl i gyfnewid asedau a rhwymedigaethau ariannol ag endid arall a allai fod yn ffafriol i y Cyngor. Dosberthir asedau ariannol yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian parod. Mae tri phrif ddosbarth o asedau ariannol a gaiff eu mesur yn ôl:

- cost amorteiddiedig
- gwerth teg drwy elw neu golled (FVPL), a
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall (FVOCI).

Model busnes y Cyngor yw ei fod yn dal buddsoddiadau i gasglu llifoedd arian parod cytundebol. Felly, dosberthir asedau ariannol yn ôl cost amorteiddiedig gan eu bod yn cael eu dal i dalu'r prifswm a llog ac at y diben hwnnw yn unig.

Asedau Ariannol a ddelir yn ôl Cost Amorteiddiedig

Caiff asedau ariannol a fesurir yn ôl cost amorteiddiedig eu cydnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac fe'u mesurir i ddechrau yn ôl gwerth teg, sef cost y trafodiad fel arfer. Fe'u mesurir wedyn yn ôl eu cost amorteiddiedig. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn cynrychioli incwm buddsoddi a llog derbyniadwy. Ar gyfer yr asedau ariannol a ddelir gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sy'n weddill (ynghyd ag incwm buddsoddi a llog cronnol).

Mae unrhyw enillion neu golledion sy'n codi ar ddatgydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Model Colledion Credyd Disgwyliedig

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir yn ôl cost amorteiddiedig, naill ai ar sail 12 mis neu ar sail oes. Dim ond colledion oes sy'n cael eu cydnabod ar gyfer symiau derbyniadwy drwy fasnach (dyledwyr) a ddelir gan y Cyngor.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrifo i adlewyrchu'r disgwyliad efallai na fydd y llifoedd arian parod yn y dyfodol yn digwydd oherwydd y gallai'r benthyciwr fethu â chyflawni ei rwymedigaethau. Mae risg credyd yn chwarae rhan hanfodol wrth asesu colledion. Lle mae risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i offeryn gael ei gydnabod i ddechrau, tybir colledion ar sail oes. Pan nad yw'r risg wedi cynyddu'n sylweddol neu pan fo'n parhau'n isel, asesir colledion ar sail colledion disgwyliedig dros 12 mis

**Rhwymedigaethau Ariannol**

Rhwymedigaeth ariannol yw ymrwymiad i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a gellir ei gynrychioli drwy rwymedigaeth gytundebol i gyflenwi arian parod neu asedau ariannol neu rwymedigaeth i gyfnewid asedau a rhwymedigaethau ariannol ag endid arall a allai fod yn anffafriol i'r Cyngor. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg ac yn cael eu cario yn ôl eu cost amorteiddiedig i ddechrau. Mae codiannau blynyddol ar yr Adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog sydd mewn grym ar gyfer yr offeryn. I'r rhan fwyaf o'r benthyciadau sydd gan y Cyngor, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynir ar y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sy'n weddill ynghyd ag unrhyw log a gronnwyd a llog a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyca.

Mae gan y Cyngor dri benthyciad Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Benthyciwr (LOBOs) gyda chyfraddau llog fesul cam. Defnyddiwyd y gyfradd llog a oedd mewn grym ar gyfer y rhain fel bod y rhain yn symiau wedi'u hail-fesur ar gyfer y LOBOs ar y Fantolen.

Nid yw'r Cyngor yn dal unrhyw asedau na rhwymedigaethau ariannol yn ôl Gwerth Teg, ond mae'n ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth am werth teg fel y bo'n briodol. Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yn cael eu categoreiddio yn unol â'r tair lefel ganlynol:

- Mewnbynnau Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau heblaw prisiau a ddyfynnwyd sydd wedi'u cynnwys o fewn Lefel 1 sy'n arsylladwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anarsylladwy

**1.17 Rhestrau Eiddo a Chontractau Hirdymor**

Cynhwysir rhestrau eiddo ar y Fantolen ar yr isaf rhwng cost a gwerth gwireddadwy net. Mae gwaith ar y gweill yn amodol ar brisiad interim ar ddiwedd y flwyddyn ac fe'i cofnodir ar y Fantolen yn ôl cost ac unrhyw elw y gellir ei briodoli'n rhesymol i'r gwaith.

Rhoddir cyfrif am gontractau hirdymor ar sail codi am y Gwarged neu Ddiffyg ar ddarparu Gwasanaethau am werth gwaith a gwasanaethau a gafwyd o dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

**1.18 Mentrau Cyllid Preifat (PFI)**

Cytundebau i gael gwasanaethau yw contractau PFI, lle mae'r cyfrifoldeb am sicrhau bod yr eiddo, peiriannau a'r offer y mae eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau ar gael yn trosglwyddo i'r contractwr PFI. Gan y bernir bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu o dan y cynllun PFI a chan y bydd perchnogaeth ar yr eiddo, y peiriannau a'r offer yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contractau am ddim tâl ychwanegol, mae'r Cyngor yn cario'r asedau a ddefnyddir o dan y contractau hyn ar ei Fantolen fel rhan o'r Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Cafodd y gydnabyddiaeth wreiddiol i'r asedau hyn ei mantoli drwy gydnabod rhwymedigaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am y buddsoddiad cyfalaf.

Caiff Asedau anghyfredol a gydnabyddir ar y Fantolen eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un ffordd ag eiddo, peiriannau ac offer sy'n eiddo i'r Cyngor.

Caiff y symiau sy'n daladwy i'r gweithredwyr PFI bob blwyddyn eu dadansoddi fel a ganlyn:-

- yn ôl gwerth teg y gwasanaethau a gafwyd yn ystod y flwyddyn – gyda'r swm yn cael ei ddebydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- yn ôl cost cyllid – codiant llog ar y rhwymedigaeth sy'n weddill ar y Fantolen, gyda'r swm yn cael ei ddebydu i'r adran Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- yn ôl taliad tuag at y rhwymedigaeth – gyda'r swm yn cael ei gymhwyso i leihau'r rhwymedigaeth ar y Fantolen tuag at y gweithredwr PFI.

Mae'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn berthnasol i asedau PFI. Mae'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw Flynyddol ar gyfer y Cyngor wedi barnu bod y codiant hwn yn cyfateb i'r rhwymedigaeth prydles cyllid a leihawyd ar gyfer y flwyddyn.

**1.19 Trefniadau ar y Cyd**

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o drefniadau ar y cyd, gan gynnwys Cydbwyllgor Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC) sy'n cynnwys 10 Awdurdod Partner: Blaenau Gwent; Caerffili; Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Sefydlwyd y Cydbwyllgor i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ystod o raglenni sydd wedi'u bwriadu i sicrhau twf economaidd cynaliadwy i'r rhanbarth er mwyn gwella bywydau pawb yn y gymuned, gan gynnwys cynyddu cysylltedd a gwella seilwaith ffisegol a digidol. Dosberthir y cyfraniadau i'r Cydbwyllgor fel Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf o dan Statud (REFCUS). Mae'r Cyngor wedi cydgrynhoi incwm a gwariant, ac asedau a rhwymedigaethau'r Cydbwyllgor. Mae'r Cyngor yn parhau i fod â chyfrifoldebau gweinyddol am Amlosgfa Llangrallo ac mae datganiadau ariannol annibynnol yn parhau i gael eu paratoi a'u hadolygu ar gyfer y cydbwyllgor hwn. Mae gweithgareddau trefniant ar y cyd Amlosgfa Llangrallo wedi'u heithrio o ddatganiadau ariannol endid unigol y Cyngor ar sail perthnasedd asedau a'r boblogaeth.

**1.20 Incwm o'r Dreth Gyngor**

Dangosir yr holl incwm o'r Dreth Gyngor yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor gyda phraeseptau'r prif braeseptwyr (Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yn bennaf) yn cael eu cynnwys fel gwariant. Dangosir Incwm o'r Dreth Gyngor fel ffigwr gros yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gydag unrhyw symiau a ddyrannwyd o ganlyniad i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael eu cydnabod fel traul o fewn costau net gwasanaethau.

**1.21 Addasiadau i Ffigyrau'r Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Gwallau**

Gall addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu i gywiro gwall perthnasol. Rhoddir cyfrif yn rhagolygol am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac mewn blynyddoedd yn y dyfodol yr effeithir arnynt gan y newid ac nid ydynt yn arwain at addasiad i ffigyrau'r cyfnod blaenorol. Mae gwallau perthnasol a ddarganfuwyd yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl-weithredol drwy ddiwygio balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol. Dim ond pan fo'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol y gwneir newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu neu os yw'r newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Lle gwneir newid, fe'i cymhwysir yn ôl-weithredol (oni nodir yn wahanol) drwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi newydd wastad wedi cael ei gymhwyso

**1.22 Arian parod a gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod**

Cynrychiolir arian parod gan arian parod mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae gwerthoedd sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu ymhen dim mwy na mis neu lai o'r dyddiad caffael ac y gellir eu trosi'n rhwydd yn symiau hysbys o arian parod heb ryw lawer o risg y bydd eu gwerth yn newid. Yn y Datganiad Llifoedd Arian Parod, dangosir arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod fel ffigwr net nad yw'n cynnwys gorddrafftiau banc sy'n ad-daladwy ar gais ac maent yn rhan annatod o reolaeth y Cyngor ar arian parod.

**1.23 Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, yn rhai ffafriol ac anffafriol, a geir rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai sy'n darparu tystiolaeth o amodau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd - mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu

i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau am natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifedig.

Nid yw digwyddiadau a geir ar ôl dyddiad awdurdodi cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

**1.24 Eiddo Buddsoddi**

Unedau eiddo buddsoddi yw'r rhai a ddefnyddir dim ond i ennill rhent a/neu ar gyfer adbrisiant cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os caiff ei ddal i'w werthu. Caiff unedau eiddo buddsoddi eu mesur i ddechrau yn ôl cost ac wedyn yn ôl gwerth teg, yn seiliedig ar y swm y gellid cyfnewid yr ased amdano rhwng partïon gwybodus ar hyd braich. Nid yw unedau eiddo'n cael eu dibrisio ond maent yn cael eu hailbrisio'n flynyddol yn ôl amodau'r farchnad ar ddiwedd y flwyddyn. Mae enillion a cholledion ar ailbrisio'n cael eu postio i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r un driniaeth yn cael ei chymhwyso i enillion a cholledion wrth waredu.

Rhoddodd y Cyngor gyfarwyddyd i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiadau yn flynyddol ar 31 Rhagfyr ar gyfer holl bortffolio buddsoddi'r Cyngor yn unol ag IFRS13. Pan na ellir mesur gwerthoedd teg Unedau Eiddo Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn seiliedig ar brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (hynny yw **mewnbynnau Lefel 1**), mesurir eu gwerth teg gan ddefnyddio'r technegau prisio canlynol:

**Mewnbynnau Lefel 2:** prisiau a ddyfynnir ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar y dyddiad prisio

**Mewnbynnau Lefel 3:** yn seiliedig ar y prisiadau diweddaraf, wedi'u haddasu os oes angen drwy ddefnyddio mynegeion ac adolygiad sy'n ystyried amhariadau

Prisiwyd y rhan fwyaf o'r unedau eiddo buddsoddi ar sail mewnbynnau Lefel 2 gyda nifer yn cael eu prisio ar sail mewnbynnau Lefel 3.

Mae rhenti a gafwyd mewn perthynas ag unedau eiddo buddsoddi yn cael eu credydu i Gost net Gwasanaethau ac yn arwain at enillion i Falans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, nid yw trefniadau statudol yn caniatáu i enillion a cholledion ailbrisio a gwaredu gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Mae'r enillion a'r colledion felly'n cael eu gwrthdroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'u postio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf a hefyd (ar gyfer unrhyw enillion gwerthu sy'n fwy na £10,000) y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf.

**1.25 Ysgolion yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ar gyfer ysgolion a gynhelir gan Gynghorau lleol (h.y. y categorïau hynny o ysgolion a nodir yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd) yn gorwedd gyda'r Cyngor. Mae'r Cod hefyd yn amodi bod asedau, rhwymedigaethau a llifoedd arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol y Cyngor (ac nid y Cyfrifon Grŵp). Felly, mae trafodion, llifoedd arian a balansau ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o'r datganiadau ariannol fel pe baent yn perthyn i'r Cyngor.

**2. Dyfarniadau Tyngedfennol wrth Gymhwyso Polisïau Cyfrifyddu**

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu a nodir uchod, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud rhai dyfarniadau am drafodion cymhleth neu'r rhai sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch digwyddiadau yn y dyfodol. Y dyfarniadau tyngedfennol a wnaed yn y Datganiad Cyfrifon yw:

Ceir lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu llywodraeth leol yn y dyfodol ac ni fydd lefel derfynol y cyllid i'r Cyngor yn hysbys tan y byddwn yn nes at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw'r ansicrwydd hwn yn ddigonol eto i roi arwydd y gallai fod amhariad ar asedau'r Cyngor o ganlyniad i angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r gwasanaethau a ddarperir.

Ystyrir bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaethau a ddarperir dan y cytundeb allanoli ar gyfer darparu Ysgol Uwchradd ym Maesteg a'i fod hefyd yn rheoli gwerth gweddillol yr ysgol ar ddiwedd y cytundeb. Mae'r polisïau cyfrifyddu ar gyfer cynlluniau PFI a chontractau tebyg wedi cael eu cymhwyso i'r trefniant ac mae'r Ysgol wedi cael ei chydnabod fel Eiddo, Peiriannau a Offer ar Fantolen y Cyngor ac fe'i nodir ar wahân o dan nodyn 21c. Yr ysgol yw unig ased PFI y Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o fuddiannau mewn endidau eraill ond nid yw'r rhain yn ddigon perthnasol i'w cynnwys yn y datganiadau ariannol cyfunol wrth adolygu gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod, gwnaed ystod o ddatgeliadau naratif mewn adrannau eraill o'r cyfrifon.

**3. Tybiaethau a Wnaed am y dyfodol a ffynonellau pwysig eraill sy'n peri ansicrwydd tybiedig**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar dybiaethau a wnaed gan y Cyngor am y dyfodol neu sy'n ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon gan ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau â sicrwydd, gallai canlyniadau gwirioneddol fod yn berthnasol wahanol i'r tybiaethau a'r amcangyfrifon.

Mae'r eitemau ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 y ceir risg arwyddocaol y byddant yn cael eu haddasu'n berthnasol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod fel a ganlyn:

**Eiddo, Peiriannau ac Offer**

Mae asedau'r Cyngor yn cael eu hailbrisio drwy raglen dreigl 3 blynedd. Mae gwerth yr asedau hynny'n seiliedig ar gyfrifiadau a thechnegau amcangyfrif sy'n dilyn canllawiau Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), ac yn unol ag IFRS. Mae ailbrisio yn ystyried gwerth a chyflwr yr ased, cydrannau perthnasol a hefyd datgydnabyddiaeth lle y bo hynny'n briodol. Cyflawnwyd prisiadau ychwanegol yn y flwyddyn gyfredol i sicrhau bod yr asedau yn y fantolen yn berthnasol gywir.

**Dibrisiant Eiddo, Peiriannau ac Offer**

Mae asedau'n cael eu dibrisio dros oesoedd defnyddiol sy'n ddibynnol ar dybiaethau am lefel y gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a fydd yn cael ei ysgwyddo mewn perthynas ag asedau unigol. Gall yr hinsawdd economaidd sydd ohoni arwain at orfod gostwng gwariant ar waith atgyweirio a chynnal a chadw gan felly fwrw amheuaeth ar yr oesoedd defnyddiol a aseiniwyd i asedau. Os bydd oes ddefnyddiol asedau yn cael ei lleihau, mae dibrisiant yn cynyddu a bydd swm cario'r asedau'n gostwng.

**Eiddo Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu**

Amcangyfrifon Gwerth Teg:

Rhoddodd y Cyngor gyfarwyddyd i'r priswyr allanol Cooke & Arkwright ddarparu prisiadau ar 31 Rhagfyr 2023 ar gyfer holl bortffolio buddsoddi'r Cyngor ac fe brisiwyd y rhain yn unol ag IFRS13.

Pan na ellir mesur gwerthoedd teg Eiddo Buddsoddi, Asedau Dros Ben ac Asedau a Ddelir i'w Gwerthu yn seiliedig ar brisiau a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol (**mewnbynnau Lefel 1**), mesurir eu gwerth teg gan ddefnyddio'r technegau prisio canlynol:

**Mewnbynnau Lefel 2:** prisiau a ddyfynnir ar gyfer asedau neu rwymedigaethau tebyg mewn marchnadoedd gweithredol ar ddyddiad y fantolen;

**Mewnbynnau Lefel 3:** prisiadau yn seiliedig ar y prisiadau diweddaraf wedi'u haddasu i'r prisiad cyfredol drwy ddefnyddio mynegeion ac adolygiad ar gyfer amhariadau.

Lle y bo'n bosibl, mae'r mewnbynnau i'r technegau prisio hyn yn seiliedig ar ddata arsylladwy, ond lle nad yw hyn yn bosibl mae gofyn gwneud dyfarniad wrth sefydlu gwerthoedd teg. Mae'r dyfarniadau hyn yn nodweddiadol yn cynnwys ystyriaethau fel ansicrwydd a risg. Gallai newidiadau mewn tybiaethau a ddefnyddir effeithio ar y gwerth teg. Defnyddiodd y priswyr allanol y technegau prisio mwyaf priodol i bennu gwerth teg

**Rhwymedigaeth Pensiynau**

Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd disgownt a ddefnyddir, ar ba gyfradd y rhagamcanir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghorol yn rhoi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y tybiaethau sydd i'w cymhwyso.

**4. Dadansoddiad o Wariant a Chyllid**

Mae'r dadansoddiad o wariant a chyllid yn dangos sut y caiff gwariant blynyddol ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti, y dreth gyngor ac ardrethi busnes) gan y Cyngor o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan y Cyngor yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut y dyrennir y gwariant hwn at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng cyfarwyddiaethau'r Cyngor. Caiff incwm a gwariant y rhoddir cyfrif amdanynt dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol eu cyflwyno'n fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2022-23 | | | | 2023-24 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Gronfa'r Cyngor** | **Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu a throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (Nodyn 5)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net y Gellir ei Godi ar Gronfa'r Cyngor** | **Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu a throsglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi (Nodyn 5)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 138,246 | 21,371 | 159,617 | Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 147,213 | 11,860 | 159,073 |
| 96,846 | 11,940 | 108,786 | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 111,792 | 8,881 | 120,673 |
| 30,879 | 13,884 | 44,763 | Cymunedau | 34,504 | 13,881 | 48,384 |
| 20,856 | 8,077 | 28,933 | Prif Weithredwyr | 25,371 | 3,002 | 28,373 |
| 23,561 | (5,062) | 18,499 | Gwasanaethau ar Draws y Cyngor | 16,117 | 3,466 | 19,584 |
| | (105) | (105) | Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | | (13) | (13) |
| **310,388** | **50,105** | **360,493** | **Cost Net Gwasanaethau** | **334,996** | **41,077** | **376,073** |
| (310,110) | (13,149) | (323,259) | Incwm a Gwariant Arall | (334,894) | (7,360) | (342,254) |
| | (2,522) | (2,522) | Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | | 57 | 57 |
| **278** | **34,434** | **34,712** | **Gwarged neu Ddiffyg** | **102** | **33,774** | **33,876** |
| 10,110 | | | Agor Balans Cronfa'r Cyngor | 9,832 | | |
| (278) | | | Gwarged neu (Ddiffyg) ar Gronfa'r Cyngor am y flwyddyn | (102) | | |
| **9,832** | | | **Balans Cronfa'r Cyngor yn cau ar 31 Mawrth** | **9,730** | | |

## 5. Nodyn ar y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid

| | Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu 2022-23 | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o Gronfa'r Cyngor i gyrraedd symiau'r Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau i Ddibenion Cyfalaf (Nodyn 1) | Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau (Nodyn 2) | Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3) | Cyfanswm Addasiadau |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 3,541 | 9,003 | 8,827 | 21,371 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 1,066 | 7,194 | 3,680 | 11,940 |
| Cymunedau | 8,441 | 3,262 | 2,181 | 13,884 |
| Prif Weithredwyr | 3,611 | 3,470 | 996 | 8,077 |
| Gwasanaethau ar Draws y Cyngor | (3,501) | - | (1,561) | (5,062) |
| Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | (17) | | (88) | (105) |
| **Cost net gwasanaethau** | **13,141** | **22,929** | **14,035** | **50,105** |
| Incwm a gwariant arall o'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | (20,693) | 6,470 | 1,074 | (13,149) |
| Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | | | (2,522) | (2,522) |
| **Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg Cronfa'r Cyngor a gwarged neu ddiffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(7,552)** | **29,399** | **12,587** | **34,434** |

| | Addasiadau rhwng y Sail Ariannu a Chyfrifyddu 2023-24 | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o Gronfa'r Cyngor i gyrraedd symiau'r Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau i Ddibenion Cyfalaf (Nodyn 1) | Newid net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau (Nodyn 2) | Gwahaniaethau Eraill (Nodyn 3) | Cyfanswm Addasiadau |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 3,213 | (90) | 8,737 | 11,860 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 2,292 | (69) | 6,658 | 8,881 |
| Cymunedau | 10,935 | (32) | 2,978 | 13,881 |
| Prif Weithredwyr | 1,362 | (39) | 1,679 | 3,002 |
| Gwasanaethau ar Draws y Cyngor | (3,269) | | 6,735 | 3,466 |
| Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | | | | |
| **Cost net gwasanaethau** | **14,533** | **(230)** | **26,787** | **41,090** |
| Incwm a gwariant arall o'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | (9,557) | 1,190 | 1,007 | (7,360) |
| Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | | | 44 | 44 |
| **Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg Cronfa'r Cyngor a gwarged neu ddiffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar Ddarparu Gwasanaethau** | **4,976** | **960** | **27,838** | **33,774** |

**Nodyn 1 - Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf**

Mae'r golofn addasiadau at ddibenion cyfalaf yn ychwanegu dibrisiant ac amhariad, enillion a cholledion ailbrisio a Gwariant Refeniw a Ariennir o Adnoddau Cyfalaf o dan Statud (REFCUS) yn y llinell gwasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – mae’n addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gan drosglwyddo incwm ar waredu asedau a’r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.

- Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi – mae’r codiannau statudol ar gyfer cyllido cyfalaf (h.y. y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) a chyfraniadau refeniw eraill yn cael eu didynnu o incwm a gwariant arall gan na ellir codi am y rhain o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

- Trethiant ac incwm a gwariant grantiau amhenodol - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o’r rhai sy’n dderbyniadwy yn y flwyddyn i'r rhai sy’n dderbyniadwy heb amodau neu y bodlonwyd yr amodau ar eu cyfer drwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Trethiant ac Incwm a Gwariant Grantiau Amhenodol yn cael ei chredydu â grantiau cyfalaf sy’n dderbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu y bodlonwyd yr amodau ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn

**Nodyn 2 - Newid Net ar gyfer yr Addasiadau Pensiynau**

Y newid net ar gyfer tynnu cyfraniadau pensiwn allan ac ychwanegu gwariant ac incwm sy’n gysylltiedig â phensiwn dan IAS19 Buddion Cyflogeion:

- Ar gyfer gwasanaethau mae hyn yn cynrychioli tynnu allan gyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel a ganiateir gan statud a'u disodli â chostau cyfredol gwasanaethau a chostau gwasanaethau yn y gorffennol
- Ar gyfer Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi – mae’r llog net ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Nodyn 3 - Gwahaniaethau Eraill**

Gwahaniaethau eraill rhwng symiau wedi eu debydu / eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau sy'n daladwy / yn dderbyniadwy sydd i'w cydnabod o dan statud:

- • Ar gyfer incwm a gwariant cyllido a buddsoddi mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i Gronfa'r Cyngor ar gyfer y gwahaniaethau amseru ar gyfer premiymau a disgowntiau.

- Mae'r codiant o dan y llinell Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y gellir codi amdano o dan reoliadau statudol ar gyfer y dreth gyngor ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol y rhagamcanwyd y byddent yn cael eu derbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm a gydnabyddir o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

## 6. Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl eu Natur

Mae’r tabl hwn yn nodi sut y mae’r cyllid i’r Cyngor wedi cael ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Bydd hyn yn cynnwys trafodion mewn arian parod a thrafodion nad ydynt mewn arian parod gan gynnwys addasiadau cyfrifyddu yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. **Cyflwynir dadansoddiad cylchrannol o ffioedd, taliadau ac incwm arall a gafwyd gan wasanaethau ar wyneb y Dadansoddiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.**

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---:|---|---:|
| | **Gwariant** | |
| 256,774 | Treuliau cyflogeion | 253,337 |
| 233,825 | Treuliau eraill gwasanaethau | 246,866 |
| 18,232 | Dibrisiant, amorteiddiad, amhariad | 28,088 |
| 12,200 | Taliadau llog | 7,071 |
| 27,360 | Praeseptau ac ardollau | 29,926 |
| - | (Enillion)/Colledion ar waredu asedau | 459 |
| - | Gwariant arall | 874 |
| **548,391** | **Cyfanswm gwariant** | **566,619** |
| | **Incwm** | |
| (41,151) | Ffioedd, taliadau ac incwm arall a gafwyd gan wasanaethau | (42,894) |
| (160,028) | Incwm o dreth gyngor, ardrethi annomestig | (162,030) |
| (308,604) | Grantiau a chyfraniadau'r Llywodraeth | (322,711) |
| (2,650) | Incwm Buddsoddi a Llog Derbyniadwy arall | (5,108) |
| (971) | (Enillion)/Colledion ar waredu asedau | - |
| (275) | Incwm arall | - |
| **(513,679)** | **Cyfanswm incwm** | **(532,743)** |
| | | |
| **34,712** | **(Gwarged) neu Ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau** | **33,876** |

# Nodiadau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

## 7. Praeseptau ac Ardollau

Praeseptau yw'r symiau sy'n cael eu talu i awdurdodau nad ydynt yn bilio (e.e. cynghorau cymuned) gan awdurdodau sy'n bilio fel y gallant dalu eu treuliau. Ardollau yw'r symiau sy'n daladwy pan fydd gwasanaethau'n cael eu gweithredu dros ardaloedd sy'n cwmpasu mwy nag un Cyngor, naill ai ar sail cydwasanaeth, lle mae un Cyngor yn gweinyddu'r gwasanaeth a Chynghorau eraill yn cyfrannu at y costau, neu gan gyrff allanol sy'n codi ardoll ar y Cynghorau priodol. Dyma'r symiau a dalwyd:

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| | **Praeseptau** | |
| 16,486 | Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru | 17,848 |
| 2,848 | Cynghorau Cymuned | 2,898 |
| **19,334** | **Cyfanswm Praeseptau** | **20,746** |
| | **Ardollau** | |
| 7,544 | Awdurdod Tân ac Achub De Cymru | 8,523 |
| 348 | Y Gwasanaeth Crwneriaid | 513 |
| 116 | Y Gwasanaeth Archifau | 126 |
| 18 | Awdurdod Porthladd Bae Abertawe | 19 |
| **8,026** | **Cyfanswm Ardollau** | **9,181** |
| | | |
| **27,360** | **Cyfanswm Praeseptau ac Ardollau** | **29,927** |

## 8. Grant Cynnal Refeniw (RSG)

Dyma'r brif ffynhonnell cyllid tuag at wariant refeniw sy'n dod oddi wrth Lywodraeth Cymru. £202.556 miliwn oedd y swm a gafwyd yn 2023-24 (£179.595 miliwn yn 2022-23).

## 9. Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Trefnir Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ar sail genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn pennu'r gyfradd yn y bunt i'w chodi (y lluosydd) ac, yn amodol ar effeithiau trefniadau pontio, mae busnesau lleol yn talu ardrethi a gyfrifir drwy luosi eu gwerth ardrethol â'r gyfradd yn y bunt (y lluosydd). 53.5c oedd y lluosodd yn 2023-24 (53.5c yn 2022-23). Roedd cyfanswm gwerth ardrethol y Cyngor yn £97,831,709 ar 31 Mawrth 2024 (£97,646,775 ar 31 Mawrth 2023). Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu ardrethi sy'n ddyledus gan drethdalwyr yn ei ardal ond mae'n talu'r enillion i gronfa Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Yna mae Llywodraeth Cymru yn ailddosbarthu'r symiau sy'n daladwy yn ôl i awdurdodau lleol yn ôl y gyfran o'r boblogaeth oedolion sy'n byw yn ardal pob Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cael cyfraniad yn uniongyrchol o'r gronfa Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Caiff yr incwm yma'i adlewyrchu ar wahân yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. £47,626 miliwn oedd y swm hwn yn 2023-24 (£52.773 miliwn yn 2022-23). Mae'r gostyngiad yn y cyfraniad yn deillio o lefel uwch y Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch a ddarparwyd gan LlC yn 2023-24 (rhyddhad o 75% o gymharu â 50% yn 2022-23). Felly casglodd Llywodraeth Cymru lai o NNDR yn 2023-24.

## 10. Y Dreth Gyngor

Mae Incwm y Dreth Gyngor yn deillio o daliadau a godir ar unedau eiddo preswyl, sydd wedi'u dosbarthu'n ddeg band prisio yn seiliedig ar werth amcangyfrifedig yr eiddo ar 1 Ebrill 2005. Mae taliadau'n cael eu cyfrifo drwy gymryd swm yr incwm sy'n ofynnol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, pob Cyngor Cymuned a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, a rhannu hwn â sylfaen y Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr unedau eiddo ym mhob band wedi'i addasu yn ôl ffactor i drosi'r nifer yn anheddau cyfwerth â Band D, ffigwr sydd wedyn yn cael ei addasu ar gyfer gostyngiadau. Yna lluosir y sylfaen dreth gros â'r gyfradd gasglu amcangyfrifedig i roi'r sylfaen dreth net y pennir y gyllideb arni –55,007.82 o anheddau cyfwerth â Band D oedd hyn ar gyfer 2023-24 (54,568.51 yn 2022-23). Y tâl cyfartalog ar gyfer eiddo Band D yw £2,052.40 yn 2023-

24 (£1,951.31 yn 2022-23 ar gyfartaledd) ac mae hyn yn cael ei luosi â'r ffactor a bennir ar gyfer y band i roi'r swm unigol sy'n ddyledus. Roedd biliau Treth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion canlynol ar gyfer bandiau A* i I ac roedd nifer yr unedau eiddo ym mhob band fel a ganlyn:

| Band | A* | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffactor | 5/9 | 6/9 | 7/9 | 8/9 | 9/9 | 11/9 | 13/9 | 15/9 | 18/9 | 21/9 |
| Anheddau Trethadwy | 28 | 10,311 | 15,004 | 14,472 | 11,045 | 7,783 | 4,300 | 1,450 | 289 | 93 |

A* - ym Mand A ond effeithir ar y ffigwr gan ostyngiad anabledd. Dyma'r dadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor:

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| (107,255) | Treth Gyngor sy'n Gasgladwy | (114,405) |
| | Llai: | |
| 2,848 | Yn daladwy i Gynghorau Cymuned | 2,898 |
| 16,486 | Yn daladwy i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru | 17,848 |
| 1,051 | Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer peidio â thalu'r Dreth Gyngor | 1,368 |
| **(86,870)** | | **(92,291)** |

## 11. Grantiau

Yn ychwanegol at y Grant Cynnal Refeniw, gwnaeth y Cyngor gredydu'r grantiau a chyfraniadau canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2022-23 £'000 | Grantiau Penodol a Gredydwyd i Wasanaethau | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| (32,287) | Cymhorthdal Budd-dal Tai | (32,320) |
| (7,887) | Grant Ôl-16 | (8,192) |
| (4,976) | Grant Gwella Addysg | (5,056) |
| (5,953) | Grant Datblygu Disgyblion | (6,424) |
| (7,954) | Grant Cymorth Tai (Cefnogi Pobl gynt) | (8,003) |
| - | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin | (2,516) |
| - | Addysg Awdurdod Lleol | (1,686) |
| - | Cinio am Ddim i Bob Plentyn Ysgol Gynradd | (1,666) |
| - | Dileu elw | (1,203) |
| (10,196) | Addysg a Chymorth i Deuluoedd Arall | (8,745) |
| (3,904) | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Arall | (3,991) |
| (9,398) | Eraill | (7,762) |
| (2,364) | Atal Digartrefedd – Gadael neb ar ôl | (1,293) |
| (2,304) | Grant Tocynnau Teithio Rhatach | (2,069) |
| (3,444) | Dechrau'n Deg | (3,654) |
| (1,394) | Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (gan gynnwys y Rhaglen Dysgu Carlam) | (1,946) |
| (1,999) | Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol (y Grant Cynaliadwyedd gynt) | (2,001) |
| (390) | Gweinyddu Budd-dal Tai/Budd-dal y Dreth Gyngor | (488) |
| (1,912) | Y Gronfa Integredig Ranbarthol (Y Gronfa Gofal Integredig gynt) | (1,506) |
| (1,776) | Teuluoedd yn Gyntaf | (2,655) |
| (1,781) | Cartrefi i Ffoaduriaid - Wcráin | (658) |
| (3,500) | Grantiau Covid | - |
| (259) | Costau Byw | - |
| (550) | Grant Cyfalaf Cyffredinol | (3,172) |
| (737) | Grantiau Cyfalaf Eraill | (2,278) |
| (1,995) | Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | - |
| **(106,960)** | **Cyfanswm y Grantiau Penodol a Gredydwyd i Wasanaethau** | **(109,284)** |

| 2022-23 £'000 | Grantiau Eraill y Llywodraeth a Gredydwyd i Drethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| (19,462) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | (10,871) |
| (2,587) | Y Fargen Ddinesig | - |
| **(22,049)** | **Cyfanswm Eraill** | **(10,871)** |

| | | |
|---|---|---|
| **(129,009)** | **Cyfanswm Grantiau** | **(120,155)** |

Ni dderbyniwyd unrhyw incwm grant Covid-19 yn 2023-24 (£3.500m yn 2022-23). Roedd 2022-23 yn cynnwys elfen o Gyllid Caledi a chwpl o ffrydiau grant bach sydd bellach wedi dod i ben. Dangosir hyn yn y tabl isod.

| 2022-23 £'000 | Grantiau Covid | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| (3,411) | Cyllid Caledi | - |
| (89) | Profi, Olrhain, Diogelu, | - |
| - | Grantiau Cymorth Eraill a oedd yn gysylltiedig â Covid | - |
| **(3,500)** | **Cyfanswm** | **-** |

Ni wnaeth y Cyngor weinyddu grantiau eraill ar ran Llywodraeth Cymru eleni fel y gwnaeth y llynedd (2022/23 - £11.743m) ond cafwyd tanwariant yn achos dau grant a ad-dalwyd i Lywodraeth Cymru eleni. Y rhain oedd £0.295m ar gyfer y Cymorth Biliau Ynni a £0.058m am danwydd amgen. Ceir rhagor o wybodaeth yn y tabl canlynol:

| 2022-23 £'000 | Grantiau Asiantaeth | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| (3,571) | Tanwydd y Gaeaf | - |
| (1,325) | Gofalwyr Di-dâl | - |
| (5,615) | Y Cynllun Bonws Gofal Cymdeithasol | - |
| (119) | Y Cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol | - |
| (607) | Y Cynllun Taliadau Hunanynysu | - |
| (425) | Cymorth Biliau Ynni | - |
| (81) | Tanwydd Amgen | - |
| **(11,743)** | **Cyfanswm** | **-** |

## 12. Prydlesi

Y Cyngor fel Lesddeiliad

Prydlesi Gweithredu

Isafswm y taliadau prydles yn y dyfodol sy'n ddyledus dan brydlesi na ellir eu canslo mewn blynyddoedd yn y dyfodol yw:

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| (376) | Yn ddim hwyrach nag un flwyddyn | (375) |
| (765) | Yn hwyrach nag un flwyddyn ond llai na phum mlynedd | (765) |
| (6,146) | Yn hwyrach na phum mlynedd | (6,146) |
| **(7,287)** | **Cyfanswm** | **(7,286)** |

Roedd y gwariant a godwyd yn y flwyddyn i'r meysydd Gwasanaeth yn £0.392 miliwn a oedd yn cynnwys isafswm taliadau prydles o £0.008 miliwn a £0.384 miliwn ar gyfer rhenti digwyddiadol (2022-23: £0.383 miliwn a oedd yn cynnwys £0.008 miliwn o isafswm taliadau prydles a £0.375 miliwn o renti digwyddiadol).

Y Cyngor fel Lesydd

Prydlesi Gweithredu
Mae'r Cyngor yn rhoi eiddo ar brydles at ddibenion economaidd i ddarparu gofod fforddiadwy i fusnesau lleol. Y rhenti yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy o dan brydlesi gweithredu yw:-

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| 107 | Dim hwyrach nag un flwyddyn | 105 |
| 156 | Yn hwyrach nag un flwyddyn ond llai na phum mlynedd | 155 |
| 1,741 | Yn hwyrach na phum mlynedd | 1,792 |
| **2,004** | **Cyfanswm** | **2,052** |

**13. Menter Cyllid Preifat (PFI)**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2008-09, dechreuodd y Cyngor dalu dan drefniant Menter Cyllid Preifat (PFI) am ddarparu Ysgol Uwchradd ym Maesteg – ymrwymwyd i'r contract hwn yn 2007-08 a bydd yn rhedeg tan fis Awst 2033. Ceir ymrwymiad o £30.5 miliwn (Gwerth Presennol Net) hyd ddiwedd y contract, gan godi tâl am y costau o'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd a chyllideb ddirprwyedig yr ysgol.

Mae cyfanswm y taliad unedol wedi'i rannu'n elfen tâl gwasanaeth, ad-dalu'r elfen rhwymedigaeth a'r elfen llog. Dangosir y taliadau isod:

| 2022-23 £'000 | Tâl Unedol | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| 766 | Elfen Tâl Gwasanaeth | 870 |
| 1,084 | Elfen Llog | 1,018 |
| 863 | Rhwymedigaeth Prydles Cyllid | 929 |
| **2,713** | **Cyfanswm** | **2,817** |

Bydd y taliadau hyn yn cael eu gwneud dros oes y contract PFI ac mae amcangyfrifon ar gyfer blynyddoedd dilynol fel y nodir isod yn ôl prisiau cyfredol.

| Tâl Unedol | 2024-25 £'000 | 2025-26 i 2029-30 £'000 | 2030-31 i 2033-34 £'000 | CYFANSWM £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Elfen Tâl Gwasanaeth | 502 | 2,512 | 2,002 | 5,016 |
| Elfen Llog | 946 | 3,444 | 792 | 5,182 |
| Rhwymedigaeth Prydles Cyllid | 1,001 | 6,290 | 5,683 | 12,974 |
| **Cyfanswm** | **2,449** | **12,246** | **8,477** | **23,172** |

## 14. Trefniadau Cronfeydd Cyfun

Ceir nifer o drefniadau cyfuno cyllidebau ffurfiol rhwng y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg dan Adran 33 Deddf y GIG (Cymru) 2006.

| Diben y Bartneriaeth | Partner | Blwyddyn | Incwm Gros y Bartneriaeth £'000 | Gwariant gros y Bartneriaeth £'000 | Cyfraniad y Cyngor £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparu cyfleoedd dydd i bobl sy'n dod dros broblemau iechyd meddwl. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf-Morgannwg | **2022-23** | (691) | 691 | 345 |
| | | **2023-24** | (748) | 748 | 374 |
| Darparu offer cymunedol penodedig ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau i'w galluogi i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Rhondda Cynon Taf yw'r partner arweiniol | CBS Rhondda Cynon Taf CBS Merthyr Tudful Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | **2022-23** | (3,168) | 3,164 | 851 |
| | | **2023-24** | (3,444) | 3,433 | 815 |
| Darparu gwasanaethau cymorth cymunedol integredig | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf-Morgannwg | **2022-23** | (5,275) | 5,275 | 2,473 |
| | | **2023-24** | (5,529) | 5,529 | 2,611 |
| Llety Cartref Gofal Cwm Taf Morgannwg | CBS Rhondda Cynon Taf CBS Merthyr Tudful Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg | **2022-23** | (60,544) | 60,484 | 12,044 |
| | | **2023-24** | (70,242) | 69,991 | 16,381 |

## 15. Tâl Swyddogion

Mae pedwar datgeliad ar wahân yn ofynnol i sicrhau y cydymffurfir â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiadau) 2018 a Chod CIPFA.

**Datgeliad 1 – Cymhareb rhwng Tâl y Prif Weithredwr a thâl canolrifol holl gyflogeion y Cyngor**

5.57 oedd y gymhareb rhwng tâl y Prif Weithredwr a thâl canolrifol holl gyflogeion y Cyngor (2022-23: 5.89). £27,334 oedd tâl canolrifol yr holl gyflogeion (2022-23: £24,948).

**Datgeliad 2 – Tabl o Dâl Swyddogion dros £60,000**

Mae nifer y cyflogeion (gan gynnwys athrawon) yr oedd eu tâl, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn, yn £60,000 neu fwy am y flwyddyn fel a ganlyn.

| 2022-23 gan gynnwys Costau Diswyddo (wedi'u hailddatgan) | Band Tâl | Nifer y Cyflogeion | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2023-24 gan gynnwys Costau Diswyddo (Nodyn 1,3) | 2023-24 ac eithrio Costau Diswyddo (Nodyn 2) | Nifer yr Athrawon wedi'u cynnwys yn y Ffigyrau nad ydynt yn cynnwys Diswyddiadau (Nodyn 2) | Nifer y Rhai Heblaw Athrawon sydd wedi'u cynnwys yn y Ffigyrau nad ydynt yn cynnwys Diswyddiadau (Nodyn 2) |
| 54 | £60,000 - £64,999 | 52 | 51 | 40 | 11 |
| 30 | £65,000 - £69,999 | 42 | 41 | 36 | 5 |
| 15 | £70,000 - £74,999 | 26 | 26 | 22 | 4 |
| 16 | £75,000 - £79,999 | 19 | 19 | 18 | 1 |
| 4 | £80,000 - £84,999 | 17 | 17 | 14 | 3 |
| 7 | £85,000 - £89,999 | 8 | 8 | 7 | 1 |
| 4 | £90,000 - £94,999 | 4 | 4 | 2 | 2 |
| 3 | £95,000 - £99,999 | 2 | 2 | 2 | - |
| 2 | £100,000 - £104,999 | 2 | 2 | 2 | 1 |
| 1 | £105,000 - £109,999 | 4 | 4 | 4 | 1 |
| 3 | £110,000 - £114,999 | - | - | - | - |
| 1 | £115,000 - £119,999 | 2 | 1 | 1 | 1 |
| - | £120,000 - £124,999 | 4 | 4 | 4 | 2 |
| 1 | £125,000 - £129,999 | 1 | 1 | 1 | - |
| - | £130,000 - £134,999 | - | - | - | - |
| - | £135,000 - £139,999 | - | - | - | - |
| - | £140,000 - £144,999 | - | - | - | - |
| - | £145,000 - £149,999 | - | - | - | - |
| **141** | | **183** | **180** | **153** | **27** |

Nodyn 1: Mae’r costau hyn yn cynnwys costau diswyddo a thaliadau yn lle rhybudd ar adeg ymadael yn ogystal ag unrhyw gostau straen pensiwn perthnasol, sef costau talu buddion yn gynnar yn achos buddion sy’n daladwy gan y Cyngor i’r Gronfa Bensiwn pan fo aelod o staff dros 55 yn colli ei swydd.

Nodyn 2: Swyddogion sy’n dal yn eu swyddi yw’r rhain, sy’n cynnwys 180 unigolyn sy'n derbyn tâl o £60,000 neu fwy, gan gynnwys:

a) 153 o Benaethiaid, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol ysgolion
b) 27 o Uwch Reolwyr y Cyngor, gan gynnwys yr Uwch Swyddogion a ddangosir yn Natgeliad 3 isod, a Phenaethiaid Gwasanaeth.

Nodyn 3: Mae’r uchod yn cynnwys 4 achos lle’r oedd dau o bobl ar gyfer un rôl a ddigwyddodd gan fod y swydd wedi dod yn wag ac wedi cael ei llenwi yn ystod y flwyddyn.

Nodyn 4: Mae’r uchod yn cynnwys cyflogeion o Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a Gwirfoddol a Reolir

## Datgeliad 3 – Tabl Tâl Uwch Swyddogion (gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn)

| Teitl Swydd | Cyflog | | Cyfraniadau Pensiwn (nodyn 1) | | Cyfanswm y Tâl gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 £ | 2023-24 £ | 2022-23 £ | 2023-24 £ | 2022-23 £ | 2023-24 £ |
| Prif Weithredwr a Phennaeth Gwasanaeth Cyflogedig (Nodyn 2) | 147,024 | 152,170 | 29,111 | 29,521 | 176,135 | 181,691 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 117,113 | 121,212 | 23,188 | 23,515 | 140,481 | 144,727 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau | 117,113 | 121,212 | 23,188 | 23,515 | 140,346 | 144,727 |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | 117,113 | 121,212 | 23,188 | 23,515 | 140,301 | 144,727 |
| Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid (Nodyn 3) | 99,113 | 104,866 | 19,624 | 20,344 | 119,176 | 125,210 |
| Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol | 99,113 | 104,866 | 19,624 | 20,344 | 121,609 | 125,210 |

**Nodiadau**

Nodyn 1 Ni thalwyd unrhyw ‘Dreuliau Trethadwy’ na ‘Buddion mewn Nwyddau neu Wasanaethau’ yn y flwyddyn. Mae Cyfraniadau Pensiwn yn ymwneud â thaliadau gwirioneddol a wnaed.

Nodyn 2 Nid yw ffigyrau’r Prif Weithredwr yn cynnwys taliad am Ddyletswyddau Etholiad ar gyfer etholiadau lleol yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac Is-etholiadau Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn 2023-24.

Nodyn 3 Newidiodd y teitl o "Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid" i "Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid" yn ystod y flwyddyn.

## Datgeliad 4 – Tabl ar Becynnau Ymadael

Caiff nifer y pecynnau ymadael a gymeradwywyd yn y flwyddyn â chyfanswm cost y band (£oedd) a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau fel arall eu nodi yn y tabl isod:

| Band Cost Pecynnau Ymadael (gan gynnwys Taliadau Arbennig) | Nifer y Diswyddiadau Gorfodol | | Nifer yr Ymadawiadau Eraill y Cytunwyd Arnynt | | Cyfanswm y Pecynnau Ymadael yn ôl Band Cost | | Cyfanswm Cost y Pecynnau Ymadael ym Mhob Band | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022-23 £ | 2023-24 £ | 2022-23 £ | 2023-24 £ | 2022-23 £ | 2023-24 £ | 2022-23 £ | 2023-24 £ |
| £0 - £20,000 | 5 | 7 | 9 | 5 | 14 | 12 | 159,450 | 57,021 |
| £20,001 - £40,000 | 5 | 3 | - | 1 | 5 | 4 | 162,241 | 115,721 |
| £40,001 - £60,000 | 2 | 1 | - | - | 2 | 1 | 102,498 | 45,661 |
| £60,001 - £80,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | **12** | **11** | **9** | **6** | **21** | **17** | **424,189** | **218,403** |

## 16. Lwfansau'r Aelodau

Dangosir y lwfansau ar gyfer Cynghorwyr yn y tabl isod.

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| 665 | Cyflog Sylfaenol (pob Aelod) | 688 |
| 563 | Uwch Gyflog | 601 |
| 59 | Cyflog Dinesig | 58 |
| **1,287** | **Cyfanswm** | **1,347** |

Mae manylion llawn y trefniadau 'cyflog' ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae manylion enillion yr holl Aelodau'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Cyngor hefyd.

https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/democratiaeth-ac-etholiadau/taliadau-cynghorwyr/

## 17. Costau Archwilio Allanol

Fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ysgwyddo'r ffioedd canlynol mewn perthynas ag archwilio ac arolygu allanol.

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| 217 | Archwiliad o'r Datganiad Ariannol | 231 |
| 106 | Archwilio Perfformiad | 112 |
| **323** | **Gwasanaethau Archwilio Allanol** | **343** |
| 39 | Hawliadau a Ffurflenni Grant | 42 |
| **362** | **Cyfanswm** | **385** |

## 18. Cyfranogiad mewn Cyd-bwyllgorau a Threfniadau ar y Cyd

Cyfranogodd y Cyngor mewn nifer o gydbwyllgorau a Threfniadau ar y Cyd yn ystod y flwyddyn. Caiff y symiau a gyfrannwyd gan y Cyngor eu nodi isod.

| | 2022-23 £'000 | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd | 115 | 121 |
| Cydwasanaeth Addysg Consortiwm Canol De Cymru | 554 | 535 |
| Cydwasanaeth Mabwysiadu | 976 | 949 |
| Cydwasanaeth Rheoleiddiol | 1,673 | 1,840 |
| Cydwasanaeth Archwilio Mewnol | 209 | 288 |
| Archifau Morgannwg | 116 | 126 |
| Trefniant Cynnal a Chadw Cerbydau ar y Cyd | 120 | 125 |
| Amlosgfa Llangrallo | - | - |
| Amlosgfa Margam | - | - |
| **Cyfanswm** | **3,763** | **3,984** |

Cymerodd y Cyngor ran mewn Cydbwyllgorau ar gyfer Amlosgfeydd Llangrallo a Margam a chafodd daliad mewn arian parod o £44,700 gan Amlosgfa Margam yn 2023-24 (£44,800 2022-23).

## 19. Trafodion Partïon Cysylltiedig

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodion perthnasol gyda phartïon cysylltiedig – cyrff neu unigolion y mae potensial iddynt reoli neu ddylanwadu ar y Cyngor neu i'r Cyngor eu rheoli neu ddylanwadu arnynt hwy. Mae datgelu'r trafodion hyn yn galluogi darllenwyr i asesu i ba raddau y gallai fod cyfyngiad wedi bod ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol neu y gallai fod wedi cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd â'r Cyngor.

**Llywodraeth Cymru**
Mae gan Lywodraeth Cymru ddylanwad sylweddol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor – mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo; mae'n darparu'r mwyafrif o'i gyllid ar ffurf grantiau ac yn rhagnodi telerau llawer o drafodion y Cyngor â phartïon eraill (e.e. biliau'r dreth gyngor). Caiff grantiau a ddaeth i law oddi wrth adrannau'r Llywodraeth eu nodi yn Nodiadau 8 a 9 uchod.

**Aelodau**
Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredu'r Cyngor. Caiff buddiannau allanol yr aelodau eu cadw ar gofrestr, sydd ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor. Dangosir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn Nodyn 16. Roedd taliadau a wnaed i sefydliadau yr oedd gan Aelodau fuddiant ynddynt yn cynnwys Gofal a Thrwsio (Pen-y-bont ar Ogwr) £1,637,503 (£1,256,323 yn 2022-23) a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Pen-y-bont £568,365 yn 2023-24 (£618,256 yn 2022-23). Ym mhob achos, fe wnaed y grantiau gan roi ystyriaeth briodol i ddatganiadau o fuddiant. Ni chymerodd yr aelodau perthnasol ran mewn unrhyw drafodaeth na phroses benderfynu mewn perthynas â'r grantiau. Roedd taliadau eraill a wnaed i sefydliadau y datganodd aelodau fuddiant ynddynt yn gyfanswm o £558,917 (£1,208,822 yn 2022-23) fel a ddangosir yn y tabl isod;

| | 2023-24<br>£ |
|---|---|
| CCGC Cymru | 10,678 |
| Clwb Rygbi Harlequins Maesteg | 11,870 |
| Cyngor Tref Pen-coed | 14,978 |
| Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr | 15,565 |
| Cynllun Mentora a Mwy y Bont | 17,104 |
| Cyngor Cymuned Bracla | 25,517 |
| Cyngor Tref Porthcawl | 25,655 |
| Cyngor Cymuned Corneli | 28,367 |
| Clwb Rygbi Mynydd Cynffig | 29,165 |
| Cyngor Cymuned Y Pîl | 51,220 |
| Undeb Credyd Sir Pen-y-bont | 123,283 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 155,201 |
| Amryw a oedd yn llai na £10k | 50,314 |
| **Cyfanswm** | **558,917** |

Roedd balansau a oedd yn ddyledus gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 yn cynnwys Gofal a Thrwsio £279,286 (£56,921 yn 2022-23), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr £13,256 (£dim yn 2022-23), Cyngor Cymuned Corneli £7,244.16 (£dim yn 2022-23) ac Undeb Credyd Bridgend Lifesavers Ltd £9,623 (£9,035 yn 2022-23). Roedd symiau a oedd yn ddyledus i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2024 yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru £49,813 (£103,370 yn 2022-23) a Chyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr £57,509 (£dim yn 2022-23).

**Prif Swyddogion**
Yn ystod 2023-24 eisteddodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion ar Fwrdd WSP Glamorgan Consultancy (a adwaenid yn flaenorol fel Capita Glamorgan Consultancy Ltd). Mae'r Cyngor yn berchen ar 14.7% o gyfranddaliadau'r cwmni ac mae ganddo hawliau pleidleisio sy'n cyfateb â'r gwerth yma ar y Bwrdd. Yn ystod 2023-24 codwyd £532,470 ar y Cyngor (2022-23: £1,229,566) mewn perthynas â nwyddau, gwasanaethau a gwaith cyfalaf. Y balans oedd yn ddyledus gan y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 oedd £28,843 (£232,604 yn 2022-23). Hefyd, mae Pennaeth Gweithrediadau'r Gwasanaethau Cymunedol yn eistedd ar Fwrdd CSC Foundry Ltd, cyfrwng at ddibenion arbennig sy'n is-gwmni a berchnogir yn llawn gan Gydbwyllgor y Fargen Ddinesig. Mae manylion y taliadau a wnaed i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi'u cynnwys yn nodyn 18 ar y cyfrifon.

**Cydbwyllgorau Eraill**

Dangosir manylion y symiau a dalwyd dan Gydbwyllgorau yn Nodyn 18.

**Cydbwyllgor Archifau Morgannwg**
Rheolir a gweinyddir Archifdy Morgannwg gan Gydbwyllgor Archifau Morgannwg dan bwerau a roddwyd iddo gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

**Amlosgfa Llangrallo**
Rheolir Amlosgfa Llangrallo gan Gydbwyllgor o Aelodau o CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bro Morgannwg. Mae datganiadau ariannol ar gyfer y Cydbwyllgor hwn ar gael ar wefan CBS Pen-y-bont ar Ogwr (www.bridgend.gov.uk).

**Amlosgfa Margam**
Mae Amlosgfa Margam yn cael ei rheoli gan Gydbwyllgor o Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sy'n rheoli'r Amlosgfa. Mae datganiadau ariannol ar gyfer y Cydbwyllgor hwn ar gael ar wefan CBS Castell-nedd Port Talbot (www.npt.gov.uk)

**Cyrff Cyhoeddus eraill**
Mae gan y Cyngor nifer o drefniadau cyfuno cyllidebau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel a nodir yn Nodyn 14. Mae hefyd yn talu ffi reoli i Ymddiriedolaeth Awen, sy'n sefydliad dielw, am wasanaethau sy'n gysylltiedig â diwylliant. Y swm a dalwyd i Awen yn 2023-24 oedd £4,359,852 (2022-23: £3,665,383 (ailddatgan)). Y balans a oedd yn ddyledus gan y Cyngor i Awen ar 31 Mawrth 2024 oedd £64,567 (2022-23 - £27,263) ac roedd balans o £21,093 yn ddyledus i'r Cyngor ar 31 Mawrth 2024 (2022-23 - £15,975).

# Nodiadau ar y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

## 20. Addasiadau rhwng y Sail Gyfrifyddu a'r Sail Ariannu o dan y Rheoliadau

Mae'r nodyn hwn yn nodi'r addasiadau a wneir i gyfanswm yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn y flwyddyn yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol, i'r adnoddau a nodir gan ddarpariaethau statudol eu bod ar gael i'r Cyngor i dalu gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

Isod ceir disgrifiad o'r cronfeydd wrth gefn y gwneir yr addasiadau yn eu herbyn.

**Balans Cronfa'r Cyngor**

Hon yw'r gronfa statudol y mae'n ofynnol talu holl derbyniadau'r Cyngor i mewn iddi ac a ddefnyddir i dalu holl rwymedigaethau'r Cyngor, ac eithrio i'r graddau y gallai rheolau statudol ddarparu fel arall. Gall y rheolau hyn nodi hefyd ym mha flwyddyn ariannol y dylai rhwymedigaethau a thaliadau effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor, nad yw o anghenraid yn unol ag arfer cyfrifyddu priodol. Felly mae Balans Cronfa'r Cyngor yn crynhoi'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'i rymuso'n statudol i'w gwario ar ei wasanaethau neu ar fuddsoddiad cyfalaf (neu'r diffyg neu'r adnoddau y mae'n ofynnol i'r Cyngor ei/eu (h)adfer) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf**

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yn dal yr enillion o waredu tir neu asedau eraill, y cyfyngir arnynt gan statud rhag cael eu defnyddio at ddibenion heblaw i ariannu gwariant cyfalaf newydd, neu i gael eu neilltuo i gyllido gwariant cyfalaf hanesyddol. Mae'r balans ar y gronfa wrth gefn yn dangos yr adnoddau nad ydynt eto wedi cael eu cymhwyso at y dibenion hyn ar ddiwedd y flwyddyn.

**Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso**

Mae'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Heb Eu Cymhwyso yn dal y grantiau a chyfraniadau a gafwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi bodloni'r amodau ar eu cyfer a fyddai fel arall yn golygu ei bod yn ofynnol ad-dalu'r arian, ond nad ydynt wedi cael eu cymhwyso eto i dalu am wariant. Cyfyngir ar y balans gan delerau grant o ran y gwariant cyfalaf y gellir ei gymhwyso yn ei erbyn a/neu'r flwyddyn ariannol y gall hyn ddigwydd ynddi.

**Cronfeydd Wrth Gefn Annefnyddiadwy**

Mae'r amcangyfrif o rwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r tybiaethau actiwaraidd a nodir yn y tabl uchod. Pennwyd y dadansoddiad sensitifrwydd isod ar y sail y bydd newidiadau gweddol bosibl i'r tybiaethau'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac mae'n tybio am bob newid bod y dybiaeth a ddadansoddwyd yn newid tra bo'r holl dybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r tybiaethau ynghylch hirhoedledd er enghraifft, yn tybio bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n lleihau ar gyfer dynion a menywod. Yn ymarferol, mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, a gall newidiadau yn rhai o'r tybiaethau fod yn gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifyddu'r cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned a ragamcanir. Ni newidiodd y dulliau a'r mathau o dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

| Cynnydd mewn Tybiaeth 2022-23 £m | Gostyngiad mewn Tybiaeth 2022-23 £m | | Cynnydd mewn Tybiaeth 2023-24 £m | Gostyngiad mewn Tybiaeth 2023-24 £m |
|---|---|---|---|---|
| (12.88) | 12.88 | Cyfradd ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | (12.94) | 12.94 |
| 0.76 | (0.76) | Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 0.76 | (0.76) |
| 12.12 | (12.12) | Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau (cynnydd neu ostyngiad o 0.1%) | 12.18 | (11.42) |
| 19.70 | (20.24) | Hirhoedledd (cynnydd neu ostyngiad mewn 1 flwyddyn) | 19.79 | (19.03) |

**Effaith ar Lifoedd Arian Parod y Cyngor**

Mae'r ffaith bod y CPLIL yn cael ei ariannu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflogwr a'i gyflogeion dalu cyfraniadau i mewn i'r gronfa, a gyfrifir ar lefel sydd wedi'i bwriadu i fantoli'r rhwymedigaethau pensiwn ag asedau buddsoddi. Bydd cyfradd gyfredol cyfraniad y Cyflogwr i gyflawni lefel ariannu o 100% o rwymedigaethau'r cynllun yn cael ei hadolygu ar yr adeg hon. O ganlyniad, er bod diffyg (rhwymedigaeth) sylweddol rhwng y buddion a enillwyd gan gyflogeion blaenorol a chyfredol, a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i gwrdd â hwy, bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi'i neilltuo erbyn y bydd gofyn talu'r buddion.

Mae'r cyfraniadau cyflogwr disgwyliedig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

| | 2024-25 £m |
|---|---|
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | 19.48 |
| CPLIL Heb ei Ariannu | 0.23 |
| Pensiwn Athrawon Heb ei Ariannu | 0.08 |
| **Cyfanswm** | **19.79** |

Hyd cyfartalog pwysedig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yw 19.79 mlynedd.

**Athrawon**

Yn 2023-24, talodd y Cyngor £15.075 miliwn (£14.186 miliwn ar gyfer 2022-23) i'r Asiantaeth Pensiynau Athrawon mewn perthynas â chostau pensiwn athrawon. Hefyd, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn sy'n ymwneud â'r blynyddoedd ychwanegol a ddyfarnwyd, ynghyd â'r cynnydd cysylltiedig. Yn 2023-24, cyfanswm y rhain oedd £0.330 miliwn (£0.368 miliwn ar gyfer 2022-23).

## 31. Datgeliadau ynghylch Offerynnau Ariannol

### Categorïau Offerynnau Ariannol

Mae’r categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn cael eu cario ar y Fantolen:

### Asedau ariannol

| 31 Mawrth 2023 | | | | | | 31 Mawrth 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfredol | | Anghyfredol | | | | Cyfredol | | Anghyfredol | | |
| Buddsoddiadau £'000 | Dyledwyr £'000 | Buddsoddiadau £'000 | Dyledwyr £'000 | Cyfanswm £’000 | | Buddsoddiadau £'000 | Dyledwyr £'000 | Buddsoddiadau £'000 | Dyledwyr £’000 | Cyfanswm £'000 |
| 66,981 | 8,814 | 5,089 | | 80,884 | Cost Amorteiddiedig | 50,426 | 9,236 | | | 59,662 |
| 5,138 | - | - | 1,555 | 6,693 | Y Fargen Ddinesig | 5,138 | | | 1,529 | 6,667 |
| **72,119** | **8,814** | **5,089** | **1,555** | **87,577** | **Cyfanswm asedau ariannol** | **55,564** | **9,236** | **0** | **1,529** | **66,329** |
| - | - | 5,845 | - | 5,845 | Asedau anariannol | | | 4,990 | | 4,990 |
| - | - | 6,002 | - | 6,002 | Y Fargen Ddinesig | | | 6,002 | | 6,002 |
| **-** | **-** | **11,847** | **-** | **11,847** | **Cyfanswm Asedau Anariannol** | **0** | **0** | **10,992** | **0** | **10,992** |
| **72,119** | **8,814** | **16,936** | **1,555** | **99,424** | **Cyfanswm** | **55,564** | **9,236** | **10,992** | **1,529** | **77,321** |

Mae'r ffigwr buddsoddiadau cyfredol uchod yn cynnwys incwm derbyniadwy cronnol ar gyfer buddsoddiadau hirdymor yn ogystal â llog byrdymor.

Mae'r ffigwr dyledwyr o £9.236m (2022-23: £8.814 miliwn) yn y tabl uchod yn ymwneud â dyledwyr masnach ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ddarparwyd ac fe'i cynhwysir yn y ffigwr dyledwyr cyffredinol o £55.930 miliwn (2022-23: £62.167 miliwn) sydd wedi’i gynnwys ar y fantolen. Ceir rhagor o wybodaeth mewn perthynas â dyledwyr yn nodyn 23.

### Rhwymedigaethau Ariannol

| 31 Mawrth 2023 | | | | | 31 Mawrth 2024 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfredol | | Anghyfredol | | | Cyfredol | | Anghyfredol | |
| Benthyciadau £'000 | Credydwyr £'000 | Benthyciadau a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 | | Benthyciadau £'000 | Credydwyr £'000 | Benthyciadau a Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill £'000 | Cyfanswm £'000 |
| (1,338) | (7,913) | (113,051) | (122,302) | Cost Amorteiddiedig | (13,636) | (7,875) | (106,086) | (127,597) |
| | | (4,127) | (4,127) | Y Fargen Ddinesig | | | (1,637) | (1,637) |
| **(1,338)** | **(7,913)** | **(117,178)** | **(126,429)** | **Cyfanswm** | **(13,636)** | **(7,875)** | **(107,723)** | **(129,234)** |

Mae’r ffigur benthyciadau cyfredol uchod yn cynnwys £1.955 miliwn o log cronnol sy'n daladwy am y flwyddyn.

Mae'r ffigwr credydwyr cyfredol o £7.875 miliwn (2022-23: £7.913 miliwn) yn ymwneud â chredydwyr masnach ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd o £6.702 miliwn (2022-23: £7.495 miliwn) ac £1.174 miliwn (2022-23: £0.418 miliwn) o arian a ddelir gan y Cyngor ar ran trydydd partïon ac sydd wedi'i gynnwys yn ffigur cyffredinol y credydwyr o £54.107 miliwn (2022-23: £55.087 miliwn) ar y fantolen. Ceir rhagor o wybodaeth am gredydwyr yn nodyn 25.

**Gwrthbwyso asedau a rhwymedigaethau ariannol**
Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd lle mae gan y Cyngor hawl y gellir ei orfodi'n gyfreithiol i'w osod ac mae'n bwriadu naill ai setlo ar sail net, neu i wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi'u gwrthbwyso ar y fantolen.

| 31 Mawrth 2023 Asedau Gros (Rhwymedigaethau) £'000 | Gwrthbwyso Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2024 Asedau (Rhwymedigaethau) Gros £'000 |
|---:|---|---:|
| 4,282 | Cyfrifon Banc mewn Credyd | 2,948 |
| **4,282** | **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **2,948** |
| (6,933) | Gorddrafftiau Banc | (3,812) |
| **(6,933)** | **Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol** | **(3,812)** |
| **(2,651)** | **Sefyllfa Net** | **(864)** |
| (275) | Symiau heb eu clirio yn y banc | 246 |
| **(2,926)** | **Sefyllfa net ar y Fantolen** | **(618)** |

**Incwm, treuliau, enillion a cholledion**
Caiff yr incwm, treuliau, enillion a cholledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer offerynnau ariannol eu dangos isod:

| 31 Mawrth 2023 | | | | 31 Mawrth 2024 | | |
|---:|---:|---:|---|---:|---:|---:|
| **Cost Amorteiddiedig Rhwymedigaethau Ariannol £'000** | **Cost Amorteiddiedig Asedau ariannol £'000** | **Cyfanswm £'000** | | **Cost Amorteiddiedig Rhwymedigaethau Ariannol £'000** | **Cost Amorteiddiedig Asedau ariannol £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| 5,730 | | 5,730 | Treuliau Llog | 5,881 | | 5,881 |
| | (2,503) | (2,503) | Incwm Buddsoddi a Llog Derbyniadwy Arall | | (5,108) | (5,108) |
| | (147) | (147) | Y Fargen Ddinesig | | - | - |
| **5,730** | **(2,650)** | **3,080** | **(Enillion)/colled net ar gyfer y flwyddyn** | **5,881** | **(5,108)** | **773** |

**Gwerthoedd Teg Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol nad ydynt yn cael eu mesur yn ôl Gwerth Teg**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau na rhwymedigaethau a gaiff eu cario yn ôl gwerth teg. Hefyd, nid oes unrhyw asedau a ddelir yn ôl cost amorteiddiedig ar gyfer 2023-24.

| 31 Mawrth 2023 | | Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2024 | |
|---:|---:|---|---:|---:|
| **Cario swm £'000** | **Gwerth Teg £'000** | | **Cario swm £'000** | **Gwerth Teg £'000** |
| | | ***Rhwymedigaethau ariannol a ddelir yn ôl cost amorteiddiedig:*** | | |
| (77,617) | (75,568) | PWLB | (77,617) | (76,376) |
| (19,757) | (22,561) | LOBOs | (19,745) | (22,222) |
| (2,654) | (2,573) | Benthyciadau Salix | (2,735) | (2,291) |
| (13,023) | (16,846) | PFI a rhwymedigaethau eraill hirdymor | (11,973) | (14,642) |
| **(113,051)** | **(117,548)** | **Cyfanswm** | **(112,070)** | **(115,531)** |

Mae gwerth teg **Rhwymedigaethau Ariannol** yn uwch na'r swm cario oherwydd bod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau lle mae'r gyfradd llog sy'n daladwy yn uwch na'r cyfraddau a oedd yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen.

Cyfrifir gwerth teg rhwymedigaethau gan ddefnyddio mewnbynnau arsylladwy sylweddol eraill (Lefel 2) fel a ganlyn:

- PWLB – Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – cyfraddau'r farchnad ar gyfer benthyciadau awdurdod lleol â'r un cyfnod yn weddill hyd at aeddfedrwydd ag ar ddyddiad y Fantolen
- LOBO - Opsiwn Rhoddwr Benthyciadau Opsiwn Benthyciwr - wedi'u cynyddu yn ôl gwerth yr opsiynau mewnblanedig. Mae opsiynau'r rhoddwr benthyciadau i gynnig cynnydd i'r gyfradd llog ar y benthyciad wedi cael eu prisio yn ôl model perchnogol ar gyfer cyfnewidiadau diddymadwy Bermwdaidd. Mae opsiynau digwyddiadol benthyciwr i dderbyn y gyfradd uwch neu ad-dalu'r benthyciad wedi cael eu prisio ar sero, ar y dybiaeth na fydd y rhoddwr benthyciadau ond yn arfer ei opsiynau pan fydd cyfraddau'r farchnad wedi codi uwchlaw'r gyfradd gytundebol.
- Rhwymedigaethau ariannol eraill – llifoedd arian cytundebol gostyngol yn y cynnyrch bond corfforaethol priodol sydd â sgôr AA.

**Natur a maint y risgiau sy'n deillio o Offerynnau Ariannol**

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ei adael yn agored i amrywiaeth o risgiau ariannol gan gynnwys:

- **Risg credyd** - y posibilrwydd y gall partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor;
- **Risg hylifedd** – y posibilrwydd efallai na fydd gan y Cyngor arian ar gael i gyflawni ei ymrwymiadau i wneud taliadau;
- **Risg y farchnad** - y posibilrwydd y gall colled ariannol heb ei gynllunio godi i'r Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel symudiadau mewn cyfraddau llog.

Mae strategaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer rheoli risgiau'n cael ei chymeradwyo gan y Cyngor a'i nodi o fewn ei Strategaeth Rheoli Trysorlys flynyddol. Mae'r Strategaeth yn nodi'r paramedrau ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig ag offerynnau ariannol sy'n cwmpasu meysydd penodol megis risg cyfraddau llog, risg credyd a buddsoddi arian dros ben.

**Risg Credyd**

Mae risg credyd yn codi o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â bod yn agored i risgiau credyd sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid y Cyngor. Mae'r risg yn cael ei lleihau drwy'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sydd wedi'i chynnwys yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, sydd ar gael ar wefan y Cyngor drwy Eitem 6 – Strategaethau Rheoli Trysorlys a Chyfalaf 2023-24 ar agenda Cyfarfod y Cyngor 01/03/2023 yma.

Mae arferion y Cyngor ar gyfer rheoli risg credyd wedi'u nodi yn y Strategaeth Fuddsoddi. Wrth benderfynu a yw risg credyd offerynnau ariannol wedi cynyddu ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, mae'r Cyngor wedi adolygu teilyngdod credyd ei fuddsoddiadau ac wedi dod i'r casgliad nad oes cynnydd sylweddol wedi bod mewn risg credyd.

Prif amcan y Cyngor yw rhoi blaenoriaeth i sicrhad a hylifedd cyn ystyried cynnyrch. Mae terfynau partïon i gontractau'n cael eu hadolygu'n gyson a lle mae amodau'r farchnad yn mynnu hynny, mae terfynau'n cael eu gostwng. Yn ystod y flwyddyn ni fu unrhyw newidiadau a olygodd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ystyried bod unrhyw fuddsoddiadau'n dwyn mwy o risg credyd.

**Amlygiad i risg credyd**

Ar 31 Mawrth 2023 roedd y Cyngor yn agored i'r risg credyd a ganlyn. Buddsoddwyd £44 miliwn o'r buddsoddiadau gwerth £50 miliwn a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2023 gydag Awdurdodau Lleol eraill, lle nad oes lwfans ar gyfer colled ddisgwyliedig yn ofynnol. Ar gyfer yr asedau ariannol hynny lle gellir cyfrifo colled credyd ddisgwyliedig o 12 mis, mae'r golled credyd a gyfrifwyd yn £2,003. Cyfrifwyd hyn drwy gyfeirio at ddata hanesyddol ar ddiffygdalu a gyhoeddwyd gan asiantaethau sgorio credyd fel a gynghorwyd gan ein Hymgynghorwyr Rheoli Trysorlys. Oherwydd amherthnasedd y golled credyd ddisgwyliedig, ni wnaed unrhyw addasiad yn y cyfrifon ar gyfer hyn.

| | Sgôr risg credyd (fel y'i defnyddir gan y Cyngor) | Swm cario gros £'000 |
|---|---|---|
| Colledion credyd disgwyliedig 12 mis | AA+ | - |
| | AA- | - |
| | AA | - |
| | A+ | (6,000) |
| | A | - |
| Dull wedi'i symleiddio | LA | (44,000) |
| **CYFANSWM** | | **(50,000)** |

Fel rheol, nid yw'r Cyngor yn caniatáu credyd i'w gwsmeriaid (dyledwyr masnach) fel bod yr holl ddyledwyr masnach yn cael eu cydnabod fel rhai byrdymor; fodd bynnag, mae £4.940 miliwn o falans dyledwyr heb gael ei dalu er bod y dyddiad talu wedi mynd heibio. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y tabl risg credyd uchod.

**Risg Hylifedd**

Mae'r Cyngor yn rheoli ei risg hylifedd drwy ei reolaeth ar lifoedd arian parod i sicrhau bod arian parod ar gael pan fo angen. Mae ganddo fynediad parod at gyfrifon cadw mynediad ar unwaith, cyfleusterau gorddrafft a benthyciadau gan y Marchnadoedd Arian neu awdurdodau lleol eraill ar gyfer unrhyw lif arian y mae ei angen o ddydd i ddydd. Hefyd gall y Cyngor gael mynediad at fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Mae'r Cyngor yn trefnu benthyciadau am gyfnodau penodedig a buddsoddiadau ag ystod o ddyddiadau aeddfedrwydd o fewn y fframwaith a dangosyddion a gymeradwyir bob blwyddyn. Nid oes risg ganfyddedig na fydd y Cyngor yn gallu codi cyllid i gyflawni ei ymrwymiadau, yn hytrach mae'r risg yn ymwneud ag ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg o gyfraddau llog anffafriol. Mae'r Cyngor yn gosod terfynau ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau â chyfraddau sefydlog fel nad oes mwy na 50% o fenthyciadau i fod i aeddfedu mewn unrhyw flwyddyn drwy gynllunio benthyciadau newydd a gymerir yn ofalus a (lle mae'n fuddiol gwneud hynny) gwneud ad-daliadau cynnar. Dyma'r dadansoddiad aeddfedrwydd rhwymedigaethau ariannol:

| 31 Mawrth 2023 £'000 | Dadansoddiad Aeddfedrwydd Rhwymedigaethau Ariannol | 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|
| (10,357) | Llai na blwyddyn | (14,351) |
| (7,351) | Rhwng 1 a 2 flynedd | (5,529) |
| (12,519) | Rhwng 2 a 5 mlynedd | (8,974) |
| (23,226) | Rhwng 5 a 10 mlynedd | (25,471) |
| (13,759) | Rhwng 10 ac 20 mlynedd | (10,000) |
| (36,389) | Dros 20 mlynedd | (36,389) |
| (19,757) | Dyddiad ansicr* | (19,745) |
| **(123,358)** | **Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol** | **(120,459)** |

*Mae hyn yn cyfeirio at Opsiynau Rhoddwr Benthyciadau Opsiynau Benthycwr a allai gael eu haildrefnu cyn eu dyddiad aeddfedrwydd yn 2054; fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd oherwydd y cyfraddau llog isel ar hyn o bryd.

Mae disgwyl i'r holl symiau masnach a symiau taladwy eraill gael eu talu ymhen llai na blwyddyn.

***Risg y Farchnad***

Mae'r Cyngor yn agored i'r risg y gallai colled ariannol ddigwydd o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau fel symudiadau mewn cyfraddau llog, prisiau'r farchnad neu gyfraddau cyfnewid arian tramor.

***Risg Cyfraddau Llog***

Mae'r Cyngor yn agored i risg o ran bod yn agored i symudiadau mewn cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai codiad mewn cyfraddau llog yn cael yr effeithiau canlynol:

- benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – bydd y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- benthyciadau ar gyfraddau sefydlog - mae'r gyfradd sefydlog yn amddiffyn y Cyngor rhag taliadau llog uwch gan y byddai benthyciad cyfwerth yn awr yn costio mwy. Bydd gwerth teg y benthyciad (rhwymedigaeth) yn gostwng
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog sy'n cael ei gredydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn codi
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - mae'r gyfradd sefydlog yn atal y Cyngor rhag derbyn incwm buddsoddi uwch o'r un prifswm a fuddsoddwyd. Bydd gwerth teg yr ased yn gostwng

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario yn ôl gwerth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion bach iawn ar fenthyciadau ar gyfraddau sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau mewn llog sy'n daladwy a derbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau llog y farchnad a chyfraddau llog a ragwelir o fewn y flwyddyn i wneud addasiadau priodol o ran y risgiau y mae'n agored iddynt, er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau anffafriol. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau o gyfraddau llog sy'n gostwng, a lle mae amgylchiadau economaidd yn ei gwneud hi'n ffafriol, gellir ad-dalu benthyciadau ar gyfraddau sefydlog yn gynnar er mwyn cyfyngu'r risg o fod yn agored i golledion. Yn ôl y strategaeth hon, ar 31 Mawrth 2024, pe bai newid o 1% wedi bod mewn cyfraddau llog gyda'r holl newidynnau eraill yn aros yn gyson, dyma fyddai'r effaith ariannol fwy neu lai:

| | **Amcangyfrif £’000 + 1%** | **Amcangyfrif £’000 -1%** |
|---|---|---|
| Llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ar gyfraddau amrywiol | 193 | **0** |
| Llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol | (336) | (336) |
| **Effaith ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau** | **(143)** | **(336)** |

Nid yw'r ffigyrau ar gyfer effaith fras cwymp o 1% mewn cyfraddau llog ar gyfer benthyciadau yr un ffigurau â'r cynnydd o 1% (ond wedi'u gwrthdroi) gan fod y benthyciadau ar gyfraddau amrywiol yn ymwneud â'n benthyciadau LOBO lle tybir na fyddai'r rhoddwr benthyciadau'n arfer ei opsiwn pe bai gostyngiad mewn cyfraddau llog

***Risg prisiau***

Gan nad yw'r Cyngor wedi buddsoddi mewn offerynnau y mae risg prisiau’n gysylltiedig â hwy, fel tystysgrifau adneuon banc a Bondiau'r Llywodraeth, nid yw'n agored i risg prisiau.

***Risg Cyfnewid Arian Tramor***

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau ariannol na rhwymedigaethau mewn arian tramor ac felly nid yw’n agored i golled sy'n deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

**Pontio i IFRS9 Offerynnau Ariannol**

Mabwysiadodd y Cyngor safon gyfrifyddu IFRS9 Offerynnau Ariannol o 1 Ebrill 2018. Mae'r prif newidiadau'n cynnwys ailddosbarthu ac ail-fesur asedau ariannol a chydnabyddiaeth gynharach i amhariad ar asedau ariannol.

Mae natur offerynnau ariannol y Cyngor wedi golygu nad oedd newidiadau i fantolen y Cyngor o ganlyniad i bontio.

## 32. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Lle ceir digwyddiad neu wybodaeth ar ôl y cyfnod adrodd (h.y. ar ôl 31 Mawrth 2024) sy'n ymwneud ag amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2024, byddai rhai ffigyrau yn y datganiadau ariannol a'r nodiadau'n cael eu haddasu os oes angen, ym mhob ffordd berthnasol, er mwyn adlewyrchu effaith y digwyddiad neu'r wybodaeth. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau o'r fath ar ôl 31 Mawrth 2024 yr oedd angen adrodd arnynt.

## 33. Rhwymedigaethau Digwyddiadol

Bydd rhwymedigaeth digwyddiadol yn codi lle cafwyd digwyddiad sy'n rhoi goblygiad posibl ar y Cyngor, na fydd ei bodolaeth ond wedi'i chadarnhau pan geir digwyddiadau ansicr yn y dyfodol, neu pan na cheir y digwyddiadau hynny, nad oes gan y Cyngor reolaeth lwyr drostynt. Bydd rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu nad oes modd mesur maint y rhwymedigaeth i raddau sy'n ddigon dibynadwy.

Mae Concrit Awyredig Awtoclafiedig Cyfnerth (RAAC) yn fath ysgafn o goncrit a ddefnyddiwyd mewn llawer o adeiladau cyhoeddus rhwng canol y 1950au a'r 1990au. Yn ystod mis Awst 2023 fe gyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau newydd ar RAAC o ganlyniad i risgiau uwch i ddiogelwch. O ganlyniad, fe ddechreuodd y Cyngor gynnal arolygon o'i ystâd i ganfod bodolaeth RAAC. Hyd yma mae presenoldeb RAAC wedi cael ei gadarnhau mewn un ased – Marchnad Dan Do Pen-y-bont – y mae'r Cyngor yn ei osod ar brydles ar drefniant hirdymor. O ganlyniad, caeodd y Cyngor  Farchnad Dan Do a chomisiynu syrfëwr i ganfod faint o RAAC oedd yn y farchnad a rhoi amcangyfrif o gost gysylltiedig gwneud gwaith adfer. Mae adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor. Er bod yr adroddiad ar Farchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr wedi dod i law, mae nifer o opsiynau i'w hystyried, felly nes y bydd opsiwn addas yn hysbys, ni fydd modd mesur unrhyw rwymedigaeth bosibl yn ddigon dibynadwy. Gan hynny, ceir rhwymedigaeth ddigwyddiadol.

# Nodiadau ar y Llif Arian Parod

## 34. Addasiadau ar gyfer Symudiadau nad ydynt yn Arian Parod

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| (18,232) | Dibrisiant ac Amhariad ar Asedau | (28,088) |
| (5,996) | Symudiad mewn Rhestrau Eiddo, Dyledwyr a Chredydwyr | (3,538) |
| (29,400) | Addasiadau Cronfeydd Pensiwn | (960) |
| 143 | Darpariaethau | 4,378 |
| (2,863) | Gwaredu Ased Anghyfredol | (716) |
| 33 | Newidiadau yng Ngwerth Teg Eiddo Buddsoddi | (855) |
| 4,725 | Cyfraniadau Refeniw a Chyfalaf y Fargen Ddinesig a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (44) |
| **(51,590)** | **Addasiadau i'r diffyg net ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer symudiadau nad ydynt yn arian parod** | **(29,823)** |

## 35. Gweithgareddau Gweithredu

Mae'r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| 1,324 | Llif Arian Parod ar Weithgareddau Refeniw | 15,456 |
| 4,594 | Llog a dalwyd | 3,154 |
| 1,106 | Elfen llog y brydles cyllid a thaliadau rhent PFI | 1,029 |
| (2,037) | Llog a dderbyniwyd | (4,458) |
| 1,431 | Y Fargen Ddinesig | - |
| **6,418** | **Llifoedd Arian Parod Net o Weithgareddau Gweithredu** | **15,181** |

## 36. Gweithgareddau Buddsoddi

Mae'r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau buddsoddi yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| 27,456 | Prynu Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Asedau Anniriaethol | 25,997 |
| 7,897 | Prynu / (Enillion) o Fuddsoddiadau Byrdymor | (8,395) |
| (3,833) | Enillion o werthu Eiddo, Peiriannau ac Offer ac Eiddo Buddsoddi | (256) |
| 2,382 | Dyledwyr/Buddsoddiadau Hirdymor y Fargen Ddinesig | |
| **33,902** | **Llifoedd Arian Parod Net o Weithgareddau Buddsoddi** | **17,345** |

## 37. Gweithgareddau Ariannu

Mae'r llifoedd arian parod ar gyfer gweithgareddau cyllido yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2022-23 £'000 | | 2023-24 £'000 |
|---|---|---|
| (1) | Derbyniadau arian parod ar ffurf benthyciadau byrdymor a hirdymor | (6,383) |
| (20,149) | Derbyniadau eraill o weithgareddau cyllido | (12,895) |
| - | Ad-dalu benthyciadau byrdymor a hirdymor | |
| (2,260) | Y Fargen Ddinesig - Grantiau Trysorlys EF a grantiau eraill a gafwyd | |
| **(22,410)** | **Llifoedd Arian Parod Net o Weithgareddau Cyllido** | **(19,278)** |

# Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## Barn am y Datganiadau Ariannol

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 31 Mawrth 2024 ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd o bwys yn gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau sydd, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn creu amheuaeth sylweddol ynghylch gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan fydd y datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i, a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio i arnynt. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i ba raddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd arnynt.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes unrhyw anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, neu sydd fel arall yn ymddangos fel pe bai'n cynnwys camddatganiad o bwys. Os byddaf yn canfod unrhyw anghysondebau o bwys neu'r hyn sy'n ymddangos fel camddatganiad o bwys, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn creu camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os wyf yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yr wybodaeth arall hon yn cynnwys camddatganiad o bwys, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

**Barn am faterion eraill**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'n unol â'r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni'r wybodaeth am Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r ddealltwriaeth ohono a'i amgylchedd, a gasglwyd wrth gynnal yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Naratif nac yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd ar y materion sy'n dilyn, y byddwn yn adrodd arnynt petawn i o'r farn:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu nad oedd y manylion gan ganghennau na fu fy nhîm yn ymweld â hwy yn ddigonol ar gyfer fy harchwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon ar dudalen 15, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio busnes gweithredol fel y sail gyfrifyddu oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad sydd wedi'i gynnal yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad o bwys os yw'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu

gamgymeriad ac maent yn cael eu hystyried yn gamddatganiadau o bwys os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau'n unol â'r cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau o bwys yn gysylltiedig ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, y Pennaeth Archwilio Mewnol, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys casglu ac adolygu dogfennau ategol sy'n gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n ymwneud â:
  – nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  – canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol neu honedig, neu amheuaeth o dwyll; a
  – rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut ac ymhle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm gofnodion anarferol mewn dyddlyfrau, gogwydd mewn amcangyfrifon cyfrifyddu a thrafodyn o bwys y tu allan i gwrs busnes arferol;
- Cael dealltwriaeth am fframwaith awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch achosion cyfreithiol a hawliadau posibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodolrwydd cofnodion mewn dyddiaduron ac addasiadau eraill; asesu a yw'r farn a ffurfiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arddangos tuedd bosibl; a gwerthuso sail busnes resymegol unrhyw drafodion o bwys sy'n anghyffredin neu sydd y tu hwnt i drywydd busnes arferol.

Bûm hefyd yn esbonio cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd, a risgiau posibl o dwyll wrth yr holl dîm archwilio, gan gadw'n effro i unrhyw arwydd o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad fel archwilydd.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a ganfyddir gennyf yn ystod fy archwiliad

# Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi cwblhau archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**29 Tachwedd 2024**

**1 Cwr y Brifddinas**
**Stryd Tyndall**
**Caerdydd, CF10 4BZ**

*Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu / Swyddog Cleientiaid yw gwaith cynnal ac uniondeb gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan i ddechrau.*

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Y Fframwaith Llywodraethu |
| 3 | Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol |
| 4 | Asesiad Llywodraethu |
| 5 | Sicrwydd Archwilio |
| 6 | Gwella Llywodraethu |
| 7 | Datganiad Sicrwydd |

# 1 Rhagair

Mae’r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â’r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, y rhoddir cyfrif priodol amdano a’i fod yn cael ei ddefnyddio’n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae dyletswydd arno, o dan Ddeddf Llywodraethu ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau a pharhau i adolygu'r graddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac i roi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i fodloni'r gofynion hyn.

Wrth gyflawni’r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae’n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei faterion, hyrwyddo arfer ei swyddogaethau’n effeithiol a threfniadau i reoli risg Mae’n angenrheidiol bod gan ein cymunedau a’r rhai sy’n defnyddio ac yn talu am wasanaethau, y rhai sy’n darparu gwasanaethau, a’n partneriaid a’n cyflenwyr, hyder yn ein trefniadau llywodraethu. Rhaid iddynt fod yn sicr bod ein gwasanaethau’n cael eu darparu’n effeithiol ac yn effeithlon a'u darparu’n gyson, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a bod cyfrif priodol yn cael ei roi amdano, a bod penderfyniadau’n cael eu gwneud mewn modd tryloyw a chyfreithlon.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn diddymu’r dyletswyddau perfformiad a nodwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Daeth y Ddeddf i rym ar 1 Ebrill 2021. Dechreuodd y gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd o flwyddyn ariannol 2021-22. Mae’n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gynnal asesiad blynyddol o berfformiad, ac ateb y cwestiynau a ganlyn:

- A yw'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol?
- A yw'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol?
- A oes gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod?

Mae ail hunanasesiad y Cyngor wedi cael ei gyhoeddi ac mae'n nodi’r ymatebion i’r cwestiynau uchod ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 - adroddir ar yr hunanasesiad ar gyfer 2023-24 yn hydref 2024. Mae'r hunanasesiad yn cadarnhau bod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu da ar waith. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno asesiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu ar gyfer 2023-24.

Mae'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn hyderus bod y trefniadau llywodraethu wedi gweithredu'n effeithiol wrth gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau a'i gyfrifoldebau. Ceir cyfleoedd i wella bob tro, ac mae’r rhain wedi’u nodi yn y datganiad hwn ac ymdrinnir â nhw yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.



Y Cynghorydd John Spanswick
Arweinydd y Cyngor



Mark Shephard
Prif Weithredwr

# 2 Y Fframwaith Llywodraethu

## Beth yw Llywodraethu Corfforaethol?

Mae gan y Cyngor rôl allweddol wrth lywodraethu ac arwain ein cymuned. Mae llywodraeth leol effeithiol yn dibynnu ar hyder y cyhoedd yn Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor. Mae llywodraethu corfforaethol yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r Cyngor, ei arwain a'i ddal i gyfrif, a sut mae'n ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae hefyd yn ymwneud â'r ffordd y mae Cynghorwyr a gweithwyr yn meddwl ac yn gweithredu.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn galluogi'r Awdurdod i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol priodol.

## Beth mae'r Datganiad hwn yn ei ddweud wrthych

Mae'r Datganiad hwn yn disgrifio i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol a gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Mae hefyd yn nodi sut mae'r Cyngor wedi ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2023-24 a chamau gweithredu i'w cymryd yn ystod 2024-25 yn dilyn adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu.

Lluniwyd y Datganiad yn unol â chanllawiau 2016: '*Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith* ' a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch Reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE).



*Porthcawl*

## Cyfrifoldebau Llywodraethu'r Cyngor

Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried effaith hirdymor unrhyw benderfyniadau y mae'n eu gwneud a dylai weithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill i wella llesiant yng Nghymru.[1]

Fel corff cyhoeddus mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cyflawni canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd cynaliadwy fel ffocws allweddol ei brosesau a'i strwythurau llywodraethu. Cyflawnir hyn drwy:

- ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith; a
- sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn nodi ei ymrwymiad a'i gyfrifoldeb i sicrhau bod system lywodraethu gadarn ar waith. Caiff y Cod Llywodraethu Corfforaethol ei adolygu'n flynyddol, a chanlyniad hynny ei adrodd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn nodi saith egwyddor llywodraethu da yn unol â 'Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith' gan CIPFA.

| | **Cod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Mae Egwyddorion Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y canlynol:** |
|---|---|
| A | Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith |
| B | Sicrhau ei fod yn agored ac yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid |
| C | Diffinio canlyniadau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy |
| D | Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau bwriadedig yn y ffordd orau bosibl. |
| E | Datblygu capasiti'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo |
| F | Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth gref ar arian cyhoeddus |
| G | Gweithredu arfer da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol |



*Y Swyddfeydd Dinesig*

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

**Mae'r Fframwaith Llywodraethu'n cynnwys y cyfundrefnau, y prosesau a'r gwerthoedd y caiff y Cyngor ei gyfarwyddo a'i reoli yn unol â hwy, a'r modd y mae'n atebol i'r gymuned leol, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r Cyngor i fonitro'r modd y cyflawnir ei amcanion strategol ac i ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.**

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith hwnnw ac mae'n anelu i wneud defnydd priodol o arian cyhoeddus, a sicrhau na chaiff yr arian hwnnw ei golli. Mae hefyd yn helpu i reoli'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Nid yw'n dileu'r holl risg; bwriedir i'r system rheolaeth fewnol nodi a threfnu risgiau yn ôl blaenoriaeth, gwerthuso tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a rheoli eu heffaith.

Er mwyn adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rhoddir sicrwydd fel y bo'n briodol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgorau Craffu, y Pwyllgor Safonau, y Cyngor, y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol, a chyfle iddynt herio hynny. Yn ogystal â hyn, mae'r Swyddog Adran 151 yn hyrwyddo ac yn cyflawni rheolaeth ariannol dda ac mae'r Swyddog Monitro'n hyrwyddo ac yn cyflawni sicrwydd cyfreithiol a moesegol.

## Gwneud Penderfyniadau a Chyfrifoldebau

**Mae'r Cyngor yn cynnwys 51 o Aelodau etholedig, gydag Arweinydd etholedig a Chabinet sy'n cael eu cefnogi a'u dwyn i gyfrif gan Bwyllgorau Craffu**. Yng nghyfansoddiad y Cyngor, nodir sut mae'r awdurdod yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl leol. Mae'n cynnwys y rheolau sylfaenol sy'n llywodraethu busnes y Cyngor, ac yn nodi rhestr o swyddogaethau y gall swyddogion eu harfer a phenderfyniadau y gall swyddogion eu gwneud o dan bwerau dirprwyedig. Mae hefyd yn cynnwys y rheolau a'r protocolau y mae'r Cyngor, Aelodau a swyddogion yn gweithredu'n unol â nhw.

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021. Mae'r Ddeddf yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â diwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a pherfformiad a gweithio rhanbarthol. Mae llawer o ddiwygiadau o fewn y Ddeddf; fodd bynnag, i grynhoi mae'r Ddeddf yn cyflwyno:

- Diwygiad o drefniadau etholiadol ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys ymestyn yr hawl i bleidleisio i bobl ifanc 16 ac 17 oed;
- Cyflwyno pŵer cymhwysedd cyffredinol;
- Diwygio cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol;
- Diwygiadau ynghylch llywodraethu ac arweinyddiaeth ddemocrataidd;
- Gweithio ar y cyd;
- Diwygio'r drefn perfformiad a llywodraethu; a
- Phwerau i hwyluso uniad gwirfoddol y prif gynghorau.

Mae'r Ddeddf yn parhau i gael effaith bellgyrhaeddol ar drefniadaeth, pwerau, prosesau mesur perfformiad a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. O fis Mai 2022 mae cyfansoddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi newid, ac mae'n ofynnol i draean o'i aelodau fod yn aelodau lleyg, gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor. O fewn y Cyngor mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach yn cynnwys 8 aelod etholedig

a 4 aelod lleyg, ond ar ddiwedd y flwyddyn dim ond 3 aelod lleyg oedd yn eu swydd. Mae cyfrifoldebau newydd y Pwyllgor yn cynnwys:

- rôl wrth adolygu adroddiadau hunanasesu'r Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion ar gyfer newid;
- ystyried y canlyniad a'r ymateb i asesiadau perfformiad panel o'r Cyngor; a
- chyfrifoldeb am wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol.

**Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'r **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** yn Bwyllgor statudol sy'n rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor. Mae'n cynnwys 8 Cynghorydd a 4 Aelod Lleyg. Ei brif swyddogaethau yw:

- Adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyngor, a llunio adroddiadau ac argymhellion ynghylch y materion h
- Adolygu a chraffu ar briodolrwydd trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli risg, rheolaeth fewnol, trefniadau i sicrhau gwerth am arian, a threfniadau llywodraethu corfforaethol, a llunio adroddiadau ac argymhellion ynghylch hynny.
- Ystyried yr adroddiad ar yr asesiad risg blynyddol, unrhyw adroddiadau interim a'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol.
- Goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor (gan gynnwys perfformiad darparwyr allanol Archwilio Mewnol) ac adolygu ei ddatganiadau ariannol.
- Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol ar sail risg a chymeradwyo newidiadau interim sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol ar sail risg.
- Ystyried a chymeradwyo adroddiad blynyddol a barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, crynodeb o weithgarwch archwilio mewnol (gwirioneddol ac arfaethedig) a lefel y sicrwydd y gall ei rhoi ynghylch trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Ystyried adroddiadau gan yr adran Archwilio Mewnol ar argymhellion y cytunwyd arnynt nas gweithredwyd o fewn amserlen resymol a chymeradwyo camau adferol angenrheidiol.
- Bod yn gyfrifol am sicrhau trefniadau effeithiol i graffu ar swyddogaeth, Strategaeth a Pholisïau Rheoli'r Trysorlys.
- Monitro Strategaeth Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo, Polisi Atal Gwyngalchu Arian a Pholisi Atal Osgoi Treth y Cyngor
- Adolygu a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.
- Adolygu a chymeradwyo’r Datganiad Blynyddol o Gyfrifon a phriodoldeb y polisïau cyfrifyddu, ac a ddilynwyd y polisïau hynny'n gywir, ac ystyried a oes unrhyw bryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn i sylw'r Cyngor.
- Adolygu ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Allanol ar berfformiad y Cyngor gonestrwydd ariannol a llywodraethu corfforaethol, a derbyn adroddiadau gan reoleiddwyr allanol eraill fel y bo'n briodol.
- Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i drin cwynion yn effeithiol a gwneud argymhellion cysylltiedig.
- Adolygu adroddiad hunanasesu drafft y Cyngor ar ei berfformiad ac, os bernir bod angen hynny, gwneud argymhellion i newid y casgliadau.

# 3 Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i sicrhau y caiff egwyddorion llywodraethu ac arferion rheoli da eu mabwysiadu ym mhob gweithgaredd busnes er mwyn sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol wedi'u nodi isod.**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Mae Cod Llywodraethu'r Cyngor yn rhoi datganiad cyhoeddus i esbonio sut mae'r Cyngor yn cyflawni ac yn dangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion Llywodraethu CIPFA. |
| 2 | Y Fframwaith Llywodraethu | Ategir Cod y Cyngor gan Fframwaith Llywodraethu sy'n cynnwys y polisïau, y gweithdrefnau, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd y mae'r Cyngor yn cadw atynt wrth lywodraethu a rheoli. |
| 3 | Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau Llywodraethu'r Cyngor, a hefyd yn nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt a'u gwella yn y dyfodol. Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw adrodd yn gyhoeddus ar y graddau y mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i God Llywodraethu Corfforaethol. Mae'n nodi'r meysydd hynny y nodwyd bod angen eu gwella yn dilyn hunanasesiad. |
| 4 | Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu a gaiff eu monitro drwy Gynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

# 4 Asesiad Llywodraethu

Nodir isod y ffynonellau sicrwydd ar gyfer yr asesiad Llywodraethu.

| Sicrwydd gofynnol | Ffynonellau sicrwydd | Sicrwydd a gafwyd |
|---|---|---|
| Cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol | Cynllun Corfforaethol<br>Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaethau<br>Cynlluniau Gwasanaeth<br>Fframwaith Perfformiad Corfforaethol | Adroddiad Hunanasesu Corfforaethol |
| Bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. | Asesiad o Berfformiad Corfforaethol | Adroddiad Hunanasesu Corfforaethol<br>Pwyllgorau Craffu ac adolygiadau<br>Hunanasesiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |

| Sicrwydd gofynnol | Ffynonellau sicrwydd | Sicrwydd a gafwyd |
|---|---|---|
| | | |
| Rheolaeth ar risg | Fframwaith Rheoli Risg | Adolygiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o risg<br>Her allanol gan Archwilio Cymru |
| Effeithiolrwydd rheolaethau mewnol | Cyfansoddiad a Chynllun Dirprwyo, gan gynnwys rheolau gweithdrefn contractau a rheolau gweithdrefn ariannol<br>Tîm Arweinyddiaeth Strategol – Y Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol | Adroddiadau archwilio allanol Adroddiadau archwilio mewnol |
| Ymgysylltu cymunedol ac atebolrwydd cyhoeddus | Y Flaenraglen Waith<br>Polisi Cwynion<br>Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Strategaeth | Adborth o Ymgysylltu â'r Gymuned<br>Adroddiadau Ombwdsmon |
| Prosesau caffael | Rheolau Gweithdrefn Contractau | Gwerth am arian |
| Rolau a chyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion | Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig Swyddog Monitro a Swyddog A151 | Arolygon Allanol ee Estyn, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru. |
| Safonau ymddygiad ac ymarweddiad | Polisïau a gweithdrefnau AD Côd Ymddygiad yr Aelodau Côd Ymddygiad Cyflogeion | Cwynion a Chanmoliaeth a gafwyd |
| Hyfforddi a datblygu Aelodau a Swyddogion | Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol<br>Cynllun Datblygu'r Aelodau | Arolwg staff<br>Adolygiadau Datblygu Perfformiad – proses arfarnu |
| Cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau mewnol | Cyfansoddiad<br>Polisïau'r Cyngor<br>Safonau'r Gymraeg<br>Polisi Iechyd a Diogelwch<br>Adroddiadau Archwilio Mewnol<br>Polisi Chwythu'r Chwiban<br>Strategaeth Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo<br>Polisi Atal Gwyngalchu Arian<br>Polisi Atal Osgoi Treth | Adolygiadau Archwilio Allanol Adolygiadau Archwilio Mewnol<br>Adolygiadau allanol annibynnol – Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru. |

Mae Archwilio Cymru wedi cynnal ac adrodd ar nifer o adolygiadau yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain wedi cael eu hadrodd gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae prif ganlyniadau'r adolygiadau wedi'u nodi isod.

| Adroddiad | Prif ganlyniadau |
|---|---|
| **Defnydd o wybodaeth am berfformiad: Safbwynt a Chanlyniadau Defnyddwyr Gwasanaeth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Medi 2023)** | **Roedd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau (uwch arweinwyr) am safbwyntiau a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth, a'r defnydd o'r wybodaeth honno. Nid oedd hwn yn adolygiad llawn o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor nac yn adolygiad manwl o ansawdd y data y mae'r Cyngor yn eu casglu. Nid oedd yr adolygiad ychwaith yn canolbwyntio ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch taliadau gwasanaeth penodol na datblygiad polisïau a strategaethau.**<br>Yn gyffredinol, canfu'r archwiliad nad yw gwybodaeth am berfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr |

| | |
|---|---|
| | gwasanaeth, a bod hynny'n cyfyngu ar eu gallu i ddeall effaith eu gwasanaethau a'u polisïau. Gwnaed dau argymhelliad i gryfhau'r wybodaeth a roddir i uwch arweinwyr:<br>• Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch arweinwyr i'w galluogi i ddeall i ba raddau y mae gwasanaethau a pholisïau yn bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth; a<br>• Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr<br>i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion ac yn sicrhau'r canlyniadau a fwriedir ganddo. |
| **Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol:Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr(Mawrth 2024)** | **Bu Archwilio Cymru yn ystyried y graddau y mae ymagwedd strategol y Cyngor at y byd digidol wedi cael ei datblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac a fydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor.**<br>Dyma oedd y canfyddiadau allweddol:<br>• Canfu'r adolygiad wendidau yn ymagwedd strategol y Cyngor at reoli a chyflawni ei strategaeth ddigidol. Nid yw strategaeth ddigidol y Cyngor 2020-24 wedi'i chyfleu ar ffurf cyfres o amcanion a cherrig milltir mesuradwy sydd wedi'u cyfyngu gan amser. Gan nad oes amcanion clir na dull o fesur llwyddiant, ni all y Cyngor ddeall yn rhwydd a yw'n sicrhau'r canlyniadau a fwriedir ganddo ac yn sicrhau gwerth am arian;<br>• Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio ystod eang o dystiolaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddadansoddi'r sefyllfa bresennol yn ddigonol er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r achosion wrth wraidd y galw cyfredol/materion sydd angen sylw;<br>• Nid yw'r Cyngor wedi nodi nac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid hynny a allai fod â diddordeb mewn datblygu ei strategaeth ddigidol; ac<br>• Nid yw'r Cyngor wedi pennu'r gost o gyflawni ei strategaeth ddigidol nac wedi nodi'r arbedion a gynllunnir ganddo yn sgil cyflawni ei strategaeth ddigidol. Mae'r ffaith nad yw'r wybodaeth hon ar gael yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor fod yn sicr bod y strategaeth yn gyflawnadwy, a'i bod yn sicrhau gwerth am arian dros amser. |

## Rheoli Risg

**Mae'r Cyngor yn wynebu ystod o risgiau yn ôl y disgwyl o'r ystod eang o wasanaethau y mae'n eu darparu a'r gweithgareddau y mae'n cymryd rhan ynddynt. O ddydd i ddydd mae risg gweithredol yn deillio o'r her o sicrhau digon o gapasiti a gallu i gynghori ar amcanion polisi allweddol y Cyngor ac i'w cyflawni.**

Mae'r Cyngor wedi datblygu dull cadarn o reoli risg. Mae'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol yn cyd-fynd â Chynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau a fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r Cyngor yn diffinio risg fel: 'Unrhyw ddatblygiad neu ddigwyddiad posibl a fyddai, pe bai'n dwyn ffrwyth, yn peryglu gallu'r Cyngor i:

- gyflawni ei amcanion llesiant;
- darparu gwasanaethau fel y cynlluniwyd; neu
- gyflawni ei ddyletswyddau statudol, gan gynnwys y ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.'

Edrychir ar risgiau o safbwynt y Gwasanaeth a'r Cyngor cyfan, sy'n sicrhau bod y risgiau allweddol yn cael eu crynhoi yn yr Asesiad Risg Corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi gweld ansicrwydd a risg cynyddol, yn enwedig mewn perthynas â'r hinsawdd economaidd bresennol a'r heriau ariannol o'i flaen. Mae'r Asesiad Risg yn esbonio sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r risgiau hyn a'r camau lliniaru y bydd yn eu rhoi ar waith i'w lleihau. Mae'n cael ei adolygu a'i herio'n rheolaidd gan uwch reolwyr a'r

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid yw'n bosibl dileu pob risg o fethu cyrraedd y targedau ym mholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, ac felly ni all roi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd ond, yn hytrach, sicrwydd rhesymol.

Yn ystod 2021-22 datblygwyd Canllawiau Rheoli Risg manwl i'w defnyddio gan bob adran ar draws y Cyngor. Mae'n galluogi staff i nodi risgiau, eu trefnu yn ôl blaenoriaeth a rhoi camau ar waith i'w lliniaru, mewn modd cyson ac amserol. Cyflwynwyd hyfforddiant i holl dimau rheoli'r gyfarwyddiaeth ac amlinellu'r rolau a'r cyfrifoldebau ar bob cam o'r broses. Adolygwyd Cynlluniau Busnes y Cyfarwyddiaethau i sicrhau bod prosesau a chamau gweithredu yn gyson â'r broses rheoli risg gorfforaethol.

Mae newidiadau ar lefel wleidyddol yn achosi risg i'r Cyngor, gan y bydd Arweinydd newydd yn cael ei ethol yn ystod cyfarfod blynyddol Mai 2024. Mae newidiadau yn y Cabinet yn debygol, ac ni fydd maint y newid hwnnw'n hysbys nes cynnal y cyfarfod hwnnw.

## Rheolaeth Ariannol

**Cynhelir rheolaeth ariannol y Cyngor yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad. Mae gan y Cyngor Reolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, a Chynllun Ariannol penodol ar gyfer yr Ysgolion, ac mae'r cynllun dirprwyo swyddogaethau hefyd yn creu'r fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol. Mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am sefydlu fframwaith clir ar gyfer rheoli materion ariannol y Cyngor ac am sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i'w gweinyddu'n briodol.**

Mae gallu'r Cyngor i sicrhau arbedion a chadw ei wariant o fewn ei gyllideb gyffredinol wedi'i hen sefydlu. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol yn y dyfodol yn wyneb lefelau ariannu ansicr a phwysau o ran costau, effaith yr argyfwng Costau Byw a'r rhyfel parhaus yn Wcráin. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen iddo gynhyrchu tua £45 miliwn o arbedion dros y cyfnod 2024-25 i 2027-28. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi ystyried y pwysau hysbys o ran costau a'r meysydd a blaenoriaeth yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, ac wedi ymgynghori'n helaeth i sicrhau proses gadarn. Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymryd mwy o ran yn natblygiad y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, cynhaliwyd ymgynghoriad tair wythnos 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' rhwng 15 Ionawr 2024 a 4 Chwefror 2024, a'i bwyslais oedd ceisio barn dinasyddion ynghylch sut y dylem ymdrin â sefyllfa'r gyllideb. Cydnabuwyd y bu mwy o anhawster ac ansicrwydd nag erioed o'r blaen wrth gynllunio'r gyllideb ar gyfer 2024-25, ac mae'r Cyngor yn wynebu hyd yn oed mwy o bwysau o ran costau nag a brofwyd mewn blynyddoedd cynt, yn sgil amgylchiadau economaidd byd-eang yn deillio o'r argyfwng costau byw, lefelau chwyddiant uchel a'r rhyfel parhaus yn Wcráin. Casglwyd y canlyniadau a'u defnyddio i gyfrannu ymhellach at benderfyniadau terfynol ynghylch y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gael yma ar wefan y Cyngor. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw awgrym o'r lefelau ariannu ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Oherwydd yr ansicrwydd hwn, mae'r Cyngor wedi datblygu cyllidebau manwl ar gyfer 2024-25, ond ni all ond wneud rhagdybiaethau ynghylch y blynyddoedd dilynol ar sail ystod o senarios ariannu.

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith i reoli arian yn effeithiol drwy weithdrefnau cyfrifyddu'r Cyngor, systemau ariannol allweddol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Mae'r trefniadau sydd ar waith i ddangos rheolaeth dda ar arian yn cynnwys gweithdrefnau sefydledig i gynllunio'r gyllideb ac adroddiadau monitro rheolaidd ar y gyllideb i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, yn ogystal â gwybodaeth fanwl i ddeiliaid cyllideb. Mae'r Cyngor yn paratoi ei Gyfrifon Blynyddol fel sy'n ofynnol gan yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

## Cydymffurfio â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol CIFPA

Lansiodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) y Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol (y Cod Ymarfer) ym mis Tachwedd 2019 Datblygwyd y Cod Ymarfer yng nghyd-destun pryderon cynyddol ynghylch gwytnwch ariannol a chynaliadwyedd awdurdodau lleol.

Mae'r Cod Ymarfer yn pennu'r egwyddorion y dylai awdurdodau gadw atynt wrth reoli eu cyllid, a'r safonau penodol y dylent geisio'u cyrraedd, o leiaf. Mae'n egluro sut y dylai Prif Swyddogion Cyllid gyflawni eu cyfrifoldeb statudol am weinyddiaeth ariannol dda fel sy'n ofynnol yn adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac yn pwysleisio cyfrifoldeb ariannol cyfunol yr arweinyddiaeth gyfan, gan gynnwys yr aelodau etholedig perthnasol.

Er bod y Cod Ymarfer wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg i natur, anghenion ac amgylchiadau awdurdodau unigol, mater i bob awdurdod yw penderfynu i ba raddau y mae'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer a nodi pa gamau y gallai fod am eu cymryd i gyrraedd y safonau a nodir yn y Cod Ymarfer yn well. Yn ei Fwletin Cyfarwyddyd 06 (*Application of the Good Governance Framework 2020/21*) dywedodd CIPFA y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gynnwys casgliad cyffredinol asesiad o gydymffurfiaeth y sefydliad ag egwyddorion y Cod Ymarfer. Hefyd, lle bo materion yn weddill neu feysydd i'w gwella, dylid cynnwys y rhain yn y cynllun gweithredu.

Yn asesiad y Cyngor o'i gydymffurfiaeth â'r 19 o Safonau a amlinellwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer 2023-24, nodwyd y gallai'r Cyngor ddangos cydymffurfiaeth â'r holl Safonau, ond y gellid cymryd camau pellach i wella'r gydymffurfiaeth yn ystod 2024-25. Mae'r camau gweithredu hyn wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2024-25, sef:

- Adolygu a diweddaru gweithdrefnau a pholisïau Ariannol y Cyngor yn ôl yr angen ee. Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Cynllun Ariannol i Ysgolion, Polisi Ffioedd a Thaliadau, i adlewyrchu amgylchiadau a phrosesau sy'n newid yn sgil yr hinsawdd ariannol heriol;
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i'r Cyngor llawn ac ysgolion, yn ôl yr angen, ar Reoli'r Cyllideb, Strategaeth Gyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi;
- Parhau i ddatblygu cynigion i leihau'r gyllideb ar gyfer oes lawn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a lefel uchel o fonitro cyflawniad y gostyngiadau presennol; a
- Cheisio gwella ac ehangu cyrhaeddiad y broses ymgynghori ar y gyllideb i sicrhau ymatebion mwy ystyrlon a phenodol.

Cynhwysir cynnydd yn erbyn y rhain yn Adran 6 – Gwella Llywodraethu.

# 5 Sicrwydd Archwilio

## Archwilio a Sicrwydd Archwilio

**Caiff y Cyngor ei archwilio'n allanol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, gyda chymorth Archwilio Cymru. Amcanion hyn yw cael sicrwydd ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; a chyhoeddi barn ar hynny. Maent hefyd yn asesu ein trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.**

Yn 2024 rhoddodd yr Archwilydd Allanol farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2022-23. Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio nifer o hawliadau grant ac yn ystod y flwyddyn cwblhaodd 5 archwiliad o grantiau a ffurflenni. Yn ogystal â hynny, mae Archwilio Cymru yn cynnal adolygiadau o amryw o wasanaethau, a hefyd adolygiadau o berfformiad drwy gydol y flwyddyn, y cyflwynir adroddiadau ar eu canlyniadau gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Archwilio Mewnol yn ofyniad statudol o fewn Llywodraeth Leol. Cynhelir archwiliad mewnol y Cyngor gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, gwasanaeth a rennir mewn partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ac a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg.

Nodir isod farn y Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor ar gyfer 2023-24:

***"Sicrwydd Rhesymol"***

Mae'r farn yn nodi, yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan y Cydwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn ariannol, nad oes unrhyw faterion rheoli trawsbynciol arwyddocaol wedi cael eu canfod a fyddai'n effeithio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar y cyfan. Mae 90% o'r cynllun y cytunwyd arno wedi'i gyflawni sy'n dangos cwmpas archwilio mewnol da ar draws pob maes gwasanaeth. Mae'r gwendidau a nodwyd yn ymwneud â gwasanaethau penodol. Cyflwynwyd barnau archwilio gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy gydol y flwyddyn, yn unol â'r crynodeb isod.

| Y farn archwilio | Nifer |
|---|---|
| Sicrwydd sylweddol | 10 |
| Sicrwydd rhesymol | 25 |
| Sicrwydd cyfyngedig | 6 |
| Dim sicrwydd | 0 |
| **Cyfanswm** | **41** |

Roedd 85% o farnau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn gadarnhaol, ac roedd hynny'n rhoi lefel dda o sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli; ni roddwyd unrhyw farnau *Dim Sicrwydd.*

O'r 12 archwiliad a ohiriwyd o 2022-23, mae 10 wedi'u cwblhau gyda 2 ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn. Yn ogystal â hynny, mae 2 archwiliad arfaethedig ar gyfer 2023-24 wedi'u gohirio tan 2024-25. Mae'r argymhellion a wnaed i wella llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth wedi'u derbyn gan reolwyr gweithredol ac maent ar gamau gweithredu amrywiol. Cyflwynwyd adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion Archwilio Mewnol y cytunwyd arnynt a chynnydd cwblhau'r Cynllun Archwilio Mewnol.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd yn derbyn traciwr rheoleiddio ddwywaith y flwyddyn. Gweithredwyd hyn i gynnwys yr holl gyrff rheoleiddio a'r holl arolygiadau a gwblhawyd a'r argymhellion ynddynt i'r Cyngor. Mae'r traciwr yn canolbwyntio ar argymhellion wedi'u yn y categori ambr a choch, sef argymhellion yn y categori digonol ac anfoddhaol, tra bo'r Pwyllgorau Pwnc a Throsolwg a Chraffu yn derbyn adroddiad sy'n cynnwys yr holl argymhellion waeth beth fo'u categori.

# 6 Gwella Llywodraethu

Nodwyd nifer o faterion o bwys yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-23 y Cyngor. Dangosir y cynnydd a wnaed ar y materion o bwys isod:

### 6.1 Cynnydd ar faterion a godwyd yn 2022-23 yr ymdriniwyd â hwy yn 2023-24

| Mater | Egwyddor Llywodraethu | Beth oedd y mater | Canlyniad y camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| Datblygu'r Gweithlu | E | Fel llawer o Gynghorau eraill, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn wynebu heriau sylweddol o ran y gweithlu, yn enwedig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd Archwilio Cymru nad oedd gan y Cyngor Gynllun Gweithlu strategol ar waith i arwain a llywio dulliau o reoli pwysau tyngedfennol ar y gweithlu yn y tymor byr, a sicrhau cydnerthedd o fewn y gweithlu yn y dyfodol. | Mae nifer o weithgareddau cynllunio'r gweithlu allweddol wedi'u cynnal, gan gynnwys:<br>• Cefnogi gwaith i gynllunio'r gweithlu gwasanaethau plant i wella cyfraddau recriwtio gweithwyr cymdeithasol, gan gynnwys recriwtio rhyngwladol, gan barhau i feithrin ein gweithiwr cymdeithasol ein hunain a lleihau'r ddibyniaeth ar weithwyr cymdeithasol asiantaeth.<br>• Cefnogi gwaith i recriwtio a chadw staff ym maes gofal cymdeithasol i oedolion i fodloni'r galw am wasanaethau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.<br>• Cynllun recriwtio pwrpasol i'r gwasanaethau arlwyo.<br>• Dadansoddi oedran arweinwyr yr ysgolion er mwyn deall y cynlluniau olyniaeth byrdymor a thymor canolig.<br>• Datblygu polisïau i gefnogi ffyrdd newydd o weithio.<br>• Cyflwyno Rhaglen Gymorth newydd i Gyflogeion fydd ar gael i'w defnyddio gan bob cyflogai.<br><br>Ar gyfer 2023-24 roedd cynlluniau busnes y cyfarwyddiaethau yn cynnwys blaenoriaethau o ran cynllunio'r gweithlu a gwybodaeth am eu gweithlu a chynllunio gwaith. Mae hyn wedi cynyddu amlygrwydd materion y gweithlu ym mhob Cyfarwyddiaeth, a hefyd yn nodi rhai o'r meysydd a blaenoriaeth wrth gynllunio'r gweithlu, a'r gweithgareddau sy'n digwydd i ymdrin â nhw. |

| Mater | Egwyddor Llywodraethu | Beth oedd y mater | Canlyniad y camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r ffocws presennol ar gefnogi gwasanaethau sy'n gorfod canfod gostyngiadau yn eu cyllidebau yn unol â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae lefel y gostyngiadau yn ddigynsail a bydd eu heffaith yn eang ei chwmpas ar lefel y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu. |
| Rheoli Asedau Strategol | E | Nododd adolygiad gan Archwiliad Cymru fod heriau o ran y gweithlu yn cael effaith ar allu'r Cyngor i gynllunio'n strategol ac i sicrhau bod adeiladau'r Cyngor yn bodloni gofynion diogelwch statudol. | Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i wella cydymffurfiaeth statudol y Cyngor â'r "Prif 5" faes cydymffurfio, gan gynnwys trydan, nwy, diogelwch tân, asbestos a legionella. Rydym yn braf heibio'r raddfa gydymffurfio o 90% yn y pedwar maes cyntaf am y tro cyntaf mewn 10 mlynedd, gan greu gwelliant sylweddol i'r darlun cydymffurfio statudol.<br><br>Mae System Rheoli Gwaith Integredig (IWMS) newydd hefyd yn cael ei chaffael, a fydd yn cynyddu gweledthough ac effeithlonrwydd wrth lanlwytho data ac ardystiadau newydd i roi darlun byw o gydymffurfiaeth ar draws yr Awdurdod. |
| Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl (gweler adroddiad Archwilio Cymru y cyfeirir ato uchod) | F | Mae'r Cyngor wedi bod yn araf wrth ymateb i gynigion Archwilio Cymru ar gyfer gwella mewn perthynas â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ac mae ei berfformiad yn parhau i fod yn wael. Mae'r cyngor yn datblygu model gweithredu newydd ar gyfer 2023-24 y bwriedir iddo fod yn symlach, wedi'i gydlynu'n well ac yn fwy ymatebol i anghenion defnyddwyr gwasanaethau. | Gwnaed llawer o waith i wella’r gwasanaeth hwn yn 2023-24. Mae hyn wedi cynnwys diweddaru canllawiau gweithdrefn, gweithio gyda syrfewyr allanol i alluogi cynnydd ceisiadau a gwaith grant presennol, cyflwyno system feddalwedd newydd i fonitro cynnydd pob cais a gwell prosesau tendro i sicrhau gwerth am arian.<br><br>Am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer, mae'r gwasanaeth wedi gwario ei ddyraniad cyfalaf yn llawn yn 2023-24 |
| Datgarboneiddio 2030 | D | Er bod gan y Cyngor strategaeth Datgarboneiddio 2030 ar waith, nid yw | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi eu bod wedi |

| Mater | Egwyddor Llywodraeth u | Beth oedd y mater | Canlyniad y camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| | | wedi nodi'n llawn yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r strategaeth na sut y gall partneriaid helpu i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth. | ailalinio eu targedau sero net uchelgeisiol i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus hyd at 2035. Bydd strategaeth y Cyngor nawr yn cael ei hadolygu yn unol ag amcanion cenedlaethol, ond bwriedir parhau i weithio â phartneriaid eraill o'r sector cyhoeddus i gyflawni'r strategaeth. |
| Rheolaeth ariannol tymor hir i ganolig | F | Mae gan y Cyngor broses reoli ariannol gadarn ar waith, ond gellir gwella rhai agweddau:<br>• rhoi hyfforddiant ychwanegol i'r Cyngor llawn ar y Strategaeth Gyfalaf a'r Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi<br>• rhoi hyfforddiant cyllid i'r ysgolion ar weithdrefnau a gofynion cau cyfrifon<br>• rhesymoli cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a datblygu graddfeydd amser i'w defnyddio<br>• parhau i adolygu tanwariant a gorwariant yn gyson ac adlinio cyllidebau yn unol â hynny<br>• parhau i ddatblygu cynigion i leihau'r gyllideb ar gyfer oes lawn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig | Cynhaliwyd hyfforddiant ar y Strategaeth Gyfalaf i'r holl aelodau ar<br>18 Mai 2023. Rhoddwyd hyfforddiant i'r ysgolion ar y broses gau ar 12 Mawrth 2024.<br>Caiff cronfeydd wrth gefn eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae'r aelodau wedi derbyn manylion y cronfeydd wrth gefn a ddelir. Cynhaliwyd adolygiad graddfa fawr o'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, gan barhau hefyd i'w monitro drwy gydol y flwyddyn, gan ddirwyn i ben ac ailbwrpasu cronfeydd wrth gefn fel bo'r angen.<br>Gwneir gwaith monitro'r gyllideb drwy gydol y flwyddyn, gan gyflwyno adroddiadau chwarterol gerbron y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu.<br>Mae cynigion wedi cael eu datblygu i leihau'r gyllideb yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ac fe'u cyflwynwyd gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo ym mis Chwefror 2024. |
| Hyfforddiant Ychwanegol i Aelodau i gefnogi eu rôl wrth sicrhau rheolaeth ariannol briodol o fewn y Cyngor. | E | Gan fod aelodau newydd wedi ymuno â'r Cyngor mae'n hollbwysig eu bod yn datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni eu rôl yn gymwys. Gall fod bylchau gwybodaeth mewn rhai meysydd yn enwedig mewn perthynas â'r Strategaeth Gyfalaf, y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a'r Datganiad Cyfrifon. | Darparwyd hyfforddiant yn ystod y flwyddyn i Aelodau gan gynnwys Strategaeth Gyfalaf, Rheoli'r Trysorlys a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi i alluogi aelodau i gael gwell dealltwriaeth o'r meysydd hyn a galluogi mwy o graffu ar benderfyniadau, gan sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn modd mwy cadarn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trefniadau Rheoli Perfformiad | F | Mae adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y Cygnor wedi dangos nad ydynt yn gyson yn ei alluogi i reoli ei berfformiad yn effeithiol. | Cytunwyd ar Gynllun Cyflawni Corfforaethol blwyddyn o hyd gan y Cyngor ar 17 Ebrill 2024. Mae trefniadau newydd ar gyfer monitro perfformiad a chrynodebau bron wedi'u cwblhau'n llawn, a byddant wedi'u cwblhau wrth adrodd ar chwarter 4 ym mis Mehefin. Maent wedi cael adborth cadarnhaol gan yr aelodau.<br><br>Cytunwyd ar drefniadau ar gyfer hunanasesu yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Ebrill 2024.<br><br>Dechreuodd archwiliadau Dangosyddion Perfformiad yn ystod haf 2024.<br><br>Derbyniwyd data Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth Archwilio Cymru a chyflwynwyd ystod o ddatrysiadau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) ddiwedd mis Mawrth. Cynhaliwyd gweithdy safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth gydag aelodau COSC ar 3 Mehefin 2024. |

### 6.2 Materion a godwyd yn 2023-24 a fydd yn cael sylw yn 2024-25

Ar sail adolygiad o'r fframwaith llywodraethu, ac asesiad o gydymffurfiaeth â Chod Rheoli Ariannol CIPFA, bydd y materion o bwys canlynol a nodwyd yn 2023-24 yn cael sylw yn 2024-25, gyda'r dolenni i'r **Egwyddorion Llywodraethu** ar dudalen 5:

| Mater | Egwyddor Llywodraeth u | Beth yw'r mater | Camau Gweithredu Arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater |
|---|---|---|---|
| Rheolaeth ariannol tymor canolig i hir | F | Nid yw effaith gostyngiadau yn y gyllideb yn gynaliadwy mwyach drwy frig-dorri cyllidebau, a bydd angen troi'r ffocws tuag at ostyngiadau mewn darpariaeth gwasanaeth a'r potensial i'r Cyngor roi'r gorau i ddarparu rhai gwasanaethau. | Bydd y broses o bennu cyllideb 2025-26 yn dechrau'n gynt nag arfer. Bydd y broses o bennu'r gyllideb yn cael ei hadolygu gyda'r Cabinet.<br><br>Mae proses y Panel Ymchwilio a Gwerthuso'r Gyllideb yn cael ei hadolygu i sicrhau bod ymgysylltu a herio yn digwydd drwy gydol y flwyddyn sy'n arwain at bennu cyllideb 2025-26. |
| Recriwtio | E | Erys anawsterau mewn rhai meysydd o ran recriwtio staff. | Mae cynlluniau recriwtio wedi'u targedu yn parhau mewn rhai meysydd allweddol, gyda phecynnau recriwtio wedi'u |

| Mater | Egwyddor Llywodraeth u | Beth yw'r mater | Camau Gweithredu Arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater |
|---|---|---|---|
| | | | cynllunio'n arbennig yn cael eu datblygu fel bo'n briodol. Rydym yn parhau i weithio’n rhanbarthol ac yn genedlaethol i ddatblygu atebion na fyddant yn ansefydlogi’r farchnad swyddi |
| Datgarboneiddio *(cariwyd ymlaen o 2023-24)* | D | Er bod gan y Cyngor strategaeth Datgarboneiddio 2030 ar waith, nid yw wedi nodi'n llawn yr adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r strategaeth na sut y gall partneriaid helpu i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth. | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod wedi adlinio ei thargedau sero net uchelgeisiol ar gyfer 2030 ar gyfer datgarboneiddio’r sector cyhoeddus tuag at 2035. Bydd strategaeth y Cyngor nawr yn cael ei hadolygu yn unol ag amcanion cenedlaethol, ond bwriedir parhau i weithio â phartneriaid eraill o'r sector cyhoeddus i gyflawni'r strategaeth. |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad (safbwynt defnyddwyr gwasanaeth) | B | Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chynllunio gwasanaethau yn unol â hynny. | Mae tîm rheoli perfformiad y Cyngor yn gweithio gyda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) i ddatblygu cyfres fach o Ddangosyddion Perfformiad i fesur safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth yn well o 2025/26. Cwblhawyd ymchwil i asesu mesurau presennol y Cyngor, mesurau mewn cynghorau eraill a mesurau cenedlaethol, a bydd gweithdy'n cael ei gynnal ar 3 Mehefin i adolygu'r ymchwil a datblygu cynllun gweithredu. |
| Strategaeth Ddigidol | D | Canfu adolygiad gan Archwilio Cymru wendidau yn null strategol y Cyngor o reoli a chyflawni ei strategaeth ddigidol. Nid yw strategaeth ddigidol y Cyngor 2020-24 wedi'i chyfleu ar ffurf cyfres o amcanion a cherrig milltir mesuradwy sydd wedi'u cyfyngu gan amser. Gan nad oes amcanion clir na dull o fesur llwyddiant, ni all y Cyngor ddeall yn rhwydd a yw'n sicrhau'r canlyniadau a fwriedir ganddo ac yn sicrhau gwerth am arian. Canfu’r adolygiad hefyd nad yw’r Cyngor wedi ymgynghori â’r holl randdeiliaid, nac wedi costio’r gwaith o gyflawni ei strategaeth ddigidol na’r arbedion y gellir eu cyflawni. | • Mae'r Cyngor wrthi'n drafftio Strategaeth Ddigidol newydd. Bydd y ddogfen newydd yn ystyried anghenion rhanddeiliaid, o fewn a thu allan i'r Cyngor, a bydd cynllun gweithredu ac ynddo gerrig milltir allweddol i'w hategu. |

| Mater | Egwyddor Llywodraethu | Beth yw'r mater | Camau Gweithredu Arfaethedig i fynd i'r afael â'r mater |
|---|---|---|---|
| Rheolaeth Ariannol Well | G | Yn asesiad y Cyngor o'i gydymffurfiaeth â'r 19 o Safonau a amlinellwyd yn y Cod Ymarfer ar gyfer 2023-24, nodwyd y gallai'r Cyngor ddangos cydymffurfiaeth â'r holl Safonau, ond y gellid cymryd camau pellach i wella'r gydymffurfiaeth yn ystod 2024-25 | • Adolygu a diweddaru gweithdrefnau a pholisïau Ariannol y Cyngor yn ôl yr angen ee. Rheolau Gweithdrefn Ariannol, Cynllun Ariannol i Ysgolion, Polisi Ffioedd a Thaliadau, i adlewyrchu amgylchiadau a phrosesau newidiol o ganlyniad i'r hinsawdd ariannol heriol.<br>• Darparu hyfforddiant ychwanegol i'r Cyngor llawn ac ysgolion, yn ôl yr angen, ar Reoli'r Cyllideb, Strategaeth Gyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi<br>• Parhau i ddatblygu cynigion i leihau'r gyllideb ar gyfer oes lawn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a lefel uchel o fonitro cyflawniad y gostyngiadau presennol<br>• Ceisio gwella ac ehangu cyrhaeddiad y broses ymgynghori ar y gyllideb er mwyn sicrhau ymatebion mwy ystyrlon a phenodol |

Bydd y materion hyn yn cael eu monitro drwy gynllun gweithredu manwl yn ystod 2024-25, gyda'r swyddog cyfrifol a'r dyddiad cau ar gyfer gweithredu wedi'u nodi ar gyfer pob cam gweithredu a'u hadrodd i'r Cabinet/Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

# 7 Datganiad Sicrwydd

Mae trefniadau llywodraethu wedi cefnogi'r Cyngor yn effeithiol drwy gydol y cyfnod adrodd. Mae penderfyniadau'n destun craffu allanol a mewnol effeithiol, a lle gwelir gwendidau, caiff cynlluniau gweithredu eu rhoi ar waith a'u monitro. Yn seiliedig ar hyn, yn amodol ar ddatrys y materion uchod, gallwn roi sicrwydd rhesymol cyffredinol bod trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Byddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion y cyfeiriwyd atynt uchod i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach.

Llofnod: ________________________________________Dyddiad: 15 Tachwedd 2024
(Yr Arweinydd)

Llofnod: ________________________________________Dyddiad: 15 Tachwedd 2024

(Prif Weithredwr)

# Rhestr Termau

**Actiwari**
Actwari yw rhywun sy'n gweithio allan premiymau yswiriant a phensiwn, gan ystyried ffactorau fel disgwyliad oes.

**Addasiad y flwyddyn flaenorol**
Yr addasiadau perthnasol hynny sy'n gymwys i flynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifyddu neu o gywiro gwallau perthnasol.

**Amorteiddiad**
Gostyngiad yng ngwerth gwariant cyfalaf nad yw wedi creu ased, drwy godiannau i refeniw.

**Archwilio**
Mae archwiliad yn golygu cael rhywun i edrych ar gyfrifon y Cyngor.

**Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)**
Yr NNDR, neu'r Ardreth Busnes, yw'r tâl a godir ar feddianwyr eiddo busnes. Mae’r arian a gesglir yn cael ei dalu i Lywodraeth Cymru a’i ailddosbarthu i awdurdodau unigol yn gymesur â’u poblogaeth o oedolion.

**Asedau cyfredol**
Asedau byrdymor yw'r rhain sydd ar gael i'r Cyngor eu defnyddio yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol.

**Asedau gweithredu**
Dyma asedau a ddefnyddir i redeg / darparu gwasanaethau.

**Balansau wedi'u Dirprwyo i'r Ysgolion**
O dan ddarpariaethau Rheoli Ysgolion yn Lleol, mae unrhyw falansau a gronnir ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu dirprwyo i ysgolion unigol. Delir y cronfeydd hyn y tu allan i falansau Cronfa'r Cyngor y Cyngor.

**Benthyciad neu fuddsoddiad dros dro**
Dyma arian a fenthycir neu a fuddsoddir am gyfnod cychwynnol o lai na blwyddyn.

**Blwyddyn Ariannol**
Dyma'r cyfnod cyfrifyddu. Ar gyfer awdurdodau lleol mae'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol.

**Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB)**
Dyma gyfleuster benthyca a ddarperir gan Swyddfa Rheoli Dyledion y Llywodraeth (DMO), sy'n darparu benthyciadau tymor hwy i awdurdodau lleol.

**Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau (SeRCOP)**
Mae'r Cod Ymarfer Adrodd ar Wasanaethau yn darparu fframwaith cyson i adrodd ar ddata awdurdodau lleol. Adolygir SeRCOP yn flynyddol gan y corff rheoleiddio priodol i sicrhau ei fod yn datblygu'n unol ag anghenion llywodraeth leol fodern, Tryloywder, Gwerth Gorau a diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

**Costau Annosbarthadwy**
Mae Costau Annosbarthadwy yn gategori o gostau a ddiffinnir gan y Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau ac ni ellir ei ddyrannu i wasanaethau penodol. Mae'n cynrychioli:
• costau cyfleusterau TG nas defnyddir,
• costau asedau hirdymor nas defnyddiwyd, na ellir eu gwireddu,
• costau penodol yn gysylltiedig â'r gronfa bensiwn

**Craidd Corfforaethol a Democrataidd (CCD)**
Diffinnir CCD yn y Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau fel costau'n gysylltiedig â gweithgarwch yr Aelodau (Cynrychiolaeth a Rheolaeth Ddemocrataidd) a chostau sy'n darparu'r seilwaith i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau (Rheoli Corfforaethol).

**Credydwr**
Credydwr yw sefydliad / rhywun y mae arian yn ddyledus iddo gan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau / gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu yn ystod blynyddoedd blaenorol.

**Cronfa Ailbrisio**
Mae hon yn cynrychioli'r cynnydd/gostyngiad na ellir ei ddosbarthu ym mhrisiad asedau sefydlog.

**Cronfa ymddiriedolaeth**
Mae cronfeydd ymddiriedolaeth yn dal arian ar ran unigolyn neu sefydliad. Bydd Ymddiriedolwyr yn gweinyddu'r arian ar ran y perchnogion.

**Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi**
Cronfeydd wrth gefn yw'r rhain a neilltuwyd at ddiben penodol.

**Croniad**
Croniad yw swm a ddangosir yn y cyfrifon sy’n cynrychioli incwm neu wariant ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu ond na chafodd ei dderbyn na’i dalu mewn gwirionedd ar ddyddiad y fantolen.

**Cyfrif Addasu Cyfalaf**
Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o'r gwahanol drefniadau ar gyfer rhoi cyfrif am ddefnyddio asedau anghyfredol ac ar gyfer cyllido gweithgarwch i gaffael, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol.

**Cyfrif Escrow**
Trefniant cyfreithiol yw Escrow lle bydd arian yn cael ei ddosbarthu i drydydd parti (a elwir yn asiant escrow) i'w ddal mewn ymddiriedolaeth tra'n aros am hapddigwyddiad neu gyflawni amod neu amodau mewn contract.

**Y Cyfrif Refeniw**
Dyma gyfrif sy'n cofnodi ein gwariant o ddydd i ddydd a'n hincwm ar eitemau fel cyflogau, costau cynnal gwasanaethau a chyllido gwariant cyfalaf.

**Cyllideb**
Cynllun ar gyfer incwm a gwariant yw cyllideb (neu amcangyfrif) sy'n seiliedig ar y dreth gyngor. Caiff gwariant ac incwm gwirioneddol eu monitro wedyn yn erbyn y cynllun hwn.

**Darpariaeth**
Mae darpariaeth yn swm a neilltuir yn ein cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau disgwyliedig na allwn eu mesur yn gywir.

**Darpariaeth Refeniw Isafswm (DRI)**
Dyma swm sydd wedi'i neilltuo i ad-dalu benthyciadau. Dylai hwn fod yn swm darbodus.

**Datganiad Gwariant a Chyllid**
Mae'r datganiad hwn yn casglu perfformiad yr awdurdod lleol ynghyd ar sail gwariant wedi'i fesur o dan arferion cyfrifyddu priodol, gyda chodiannau wedi'u diffinio'n statudol i Gronfa'r Cyngor.

**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**
Mae’r cyfrif hwn yn cofnodi gwariant ac incwm o ddydd i ddydd ar eitemau fel cyflogau, costau rhedeg gwasanaethau a chyllido gwariant cyfalaf.

**Datganiad Llif Arian**
Datganiad yw hwn sy'n crynhoi'r symudiadau mewn arian parod yn ystod y flwyddyn.

**Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn)**
Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor.

**Derbyniad cyfalaf**
Derbyniadau cyfalaf yw enillion o werthu asedau sefydlog fel tir neu adeiladau.

**Dibrisiant**
Dibrisiant yw'r golled amcangyfrifedig yng ngwerth asedau sefydlog a gyflwynir yn y Fantolen.

**Digwyddiadau ôl-fantolen**
Eitemau ôl-fantolen yw'r rhai sy'n codi ar ôl dyddiad y Fantolen. Mae'r rhain yn eitemau nad oeddent yn bodoli ar adeg paratoi'r Fantolen ond dylid eu datgelu os ydynt yn berthnasol er mwyn cyflwyno'r cyfrifon yn deg.

**Dyledwr**
Dyledwr yw sefydliad / rhywun yr oedd arno arian i'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am nwyddau / gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol neu yn ystod blynyddoedd blaenorol.

**Y Fantolen**
Datganiad yw hwn o’n hasedau, ein rhwymedigaethau a balansau eraill ar ddyddiad diwedd y flwyddyn ariannol, 31 Mawrth.

**Grantiau'r Llywodraeth**
Cymorth gan y llywodraeth ac asiantaethau rhynglywodraethol a chyrff tebyg, boed yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol, ar ffurf arian parod neu drosglwyddiadau ased i Gyngor yn gyfnewid am gydymffurfio yn y gorffennol neu yn y dyfodol ag amodau penodol yn gysylltiedig â gweithgareddau’r Cyngor.

**Gwaith ar y gweill (GAYG)**
Gwaith ar y gweill yw gwerth y gwaith sy'n cael ei wneud ar brosiect sydd heb ei orffen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nad oes tâl wedi'i godi amdano eto o'r cyfrif refeniw.

**Gwariant cyfalaf**
Gwariant ar asedau sefydlog yw gwariant cyfalaf. Mae'r rhain yn asedau a fydd yn cael eu defnyddio am nifer o flynyddoedd wrth ddarparu gwasanaethau ac yn eitemau megis adeiladau, offer a cherbydau.

**Gwerth Gwireddadwy Net**
Pris gwerthu ased, wedi'i leihau gan y gost berthnasol (uniongyrchol) o'i werthu.

**Gwerth y Farchnad Agored mewn Defnydd Presennol (OMVEU)**
OMVEU yw'r sail ar gyfer prisio asedau sefydlog.

**Menter Cyllid Preifat (PFI)**– menter gan y llywodraeth ganolog sy’n ceisio cynyddu’r lefelau cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau cyllid preifat. I gefnogi'r PFI ceir nifer o gymhellion i annog cyfranogiad awdurdodau.

**Praeseptau**
Dyma’r swm a delir i Gyngor nad yw’n bilio (er enghraifft cyngor cymuned), er mwyn iddo allu talu ei dreuliau (ar ôl rhoi cyfrif am ei incwm).

**Prydlesi cyllid**
Defnyddir prydlesi ariannol i ariannu pryniannau lle mae'r Cyngor yn cymryd y rhan fwyaf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar yr ased.

**Prydlesi gweithredu**
Prydlesi yw’r rhain lle mae’r risg o berchenogaeth ar yr ased yn aros gyda’r perchennog.

**Prydlesu**
Dyma ddull o gyllido gwariant cyfalaf drwy dalu'r perchennog i ddefnyddio eiddo neu offer am nifer o flynyddoedd.

**Pwyllgor Dehongli'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRICs)**
Corff deongliadol y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB). Ei bwrpas yw helpu’r IASB i wella adroddiadau ariannol drwy nodi, trafod a datrys materion adrodd ariannol yn amserol o fewn fframwaith yr IFRS.

**Rhestrau Eiddo**
Rhestrau eiddo yw deunyddiau crai a brynwyd i'w defnyddio o ddydd i ddydd. Dangosir gwerth yr eitemau hyn nas defnyddiwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel asedau cyfredol ar y fantolen.

**Rhwymedigaeth**
Swm sy'n daladwy rywbryd yn y dyfodol yw rhwymedigaeth.

**Rhwymedigaethau cyfredol**
Rhwymedigaethau byrdymor yw'r rhain y mae'n rhaid i'r Cyngor eu talu yn y flwyddyn gyfrifyddu ganlynol.

**Rhwymedigaethau Digwyddiadol**
Mae Rhwymedigaeth Digwyddiadol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol.

**Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS)**
Rheoliadau ariannol i'w dilyn fel y'u gosodwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (ASB).

**Trafodion partïon cysylltiedig**
Dyma asedau neu rwymedigaethau neu berfformiad gwasanaethau a drosglwyddir gan, i neu ar ran parti cysylltiedig, waeth a godir tâl ai peidio.

*Llun y clawr ôl: Parc Gwledig Bryngarw*

